



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 6 Mai 2008
Tuesday, 6 May 2008

**Cynnwys
Contents**

- | | |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister |
| 31 | Pwynt o Drefn
Point of Order |
| 31 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement |
| 34 | Datganiad am Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
Statement on the Wales Transport Strategy |
| 58 | Datganiad am Fynediad
Statement on Access |
| 73 | Trafodion Cyfnod 3 y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddu'r GIG yn unol â
Rheol Sefydlog Rhif 23.44
Stage 3 Proceedings for the NHS Redress Measure in accordance with Standing Order
No. 23.44 |
| 98 | Trafodion Cyfnod 4 y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddu'r GIG
Stage 4 Proceedings for the NHS Redress Measure |
| 101 | Pwynt o Drefn
Point of Order |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambra. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog **Questions to the First Minister**

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)0989(FM), yn ôl.
The Presiding Officer: Question 1, OAQ(3)0989(FM), is withdrawn.

The Finance Bill

Q2 Helen Mary Jones: What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the impact of the Finance Bill on Wales? OAQ(3)0968(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Among the positive impacts on Wales of the Finance Bill 2008 is the proposal to bring forward to April 2009 an increase in the rate of child benefit for a first child to £20, and to pay child benefit before birth for the same time, from the same date, and, as from October 2009, to disregard child benefit in the calculation of entitlement to housing benefit and council tax benefit.

Helen Mary Jones: Thank you, First Minister. Those changes are obviously to be welcomed, but you will of course be aware of the problems that many people face with regard to the removal of the 10p minimum income tax rate. Have you or any of your Ministers had further discussions with colleagues at Whitehall about how the proposed amelioration measures will affect people in Wales? I am thinking particularly of those in the 60 to 65 age group who are still in employment, who were particularly vulnerable before the proposed changes came into play.

The First Minister: The removal of the 10p tax rate was a consequence of the Finance Act 2007, not the Finance Bill 2008. However, retrospective measures, such as those that you are talking about, will have to be included as Government amendments to the original Finance Bill. The Government

Y Mesur Cyllid

C2 Helen Mary Jones: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn ag effaith y Mesur Cyllid ar Gymru? OAQ(3)0968(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Ymysg effeithiau cadarnhaol Mesur Cyllid 2008 ar Gymru y mae'r cynnig i ddyddiad cyflwyno cynnydd yng nghyfradd budd-dal plant ar gyfer plentyn cyntaf i £20 gael ei ddwyn ymlaen i Ebrill 2009, ac i dalu budd-dal plant cyn genedigaeth am yr un cyfnod, o'r un dyddiad, ac, o fis Hydref 2009 ymlaen, i ddiystyru budd-dal plant wrth gyfrifo hawl i fudd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor.

Helen Mary Jones: Diolch, Brif Weinidog. Mae'r newidiadau hynny i'w croesawu, yn amlwg, ond byddwch yn ymwybodol wrth gwrs o'r problemau y mae llawer o bobl yn eu hwynebu o ran dileu'r gyfradd treth incwm isaf o 10c. A ydych chi neu unrhyw un o'ch Gweinidogion wedi cynnal trafodaethau pellach gyda'ch cyd-Weinidogion yn Whiehall ynghylch sut y bydd y mesurau gwellhad newydd yn effeithio ar bobl Cymru? Yr wyf yn meddwl yn benodol am y rhai yn y grŵp oedran 60 i 65 sy'n dal mewn gwaith, a oedd yn arbennig o agored i niwed cyn i'r newidiadau arfaethedig gael eu cyflwyno.

Y Prif Weinidog: Canlyniad i Ddeddf Cyllid 2007 oedd tynnu'r gyfradd dreth o 10c, nid Mesur Cyllid 2008. Fodd bynnag, bydd yn rhaid cynnwys mesurau ôl-weithredol, megis y rhai yr ydych yn sôn amdanyst, fel diwygiadau'r Llywodraeth i'r Mesur Cyllid gwreiddiol. Mae'r Llywodraeth wedi'i

has made it clear that there will be full retrospective and full compensation for the effect of the removal of the 10p tax rate for people aged 60 to 64—that is, before they have access to pension tax credit. However, further discussions are ongoing as to how to target compensation measures at the other groups that will lose out because of the removal of the 10p minimum tax rate. The details of those will presumably come out when the Finance Bill returns to Parliament for its Report Stage, in about a month's time.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): First Minister, following the little local difficulties that you had last week and the fact the Prime Minister has said that he is in listening mode and I presume that you are as well, I wonder whether, on a broader front—looking at legislative policy generally—you will be speaking to the Prime Minister or the Secretary State for Wales about possible changes to the 2p duty on petrol that is due to come in in October, which is of massive concern throughout Wales now that petrol has reached £5 a gallon. The increase in food prices is also worrying people. Could you also provide a bit more clarity on the 10p tax rate and the position on that? It is anything but clear what changes we can expect from the Government, if it really is in listening mode following the local election results in Wales.

The First Minister: You are absolutely right; we had a hell of a beating in the local elections in Wales. One of the highlights, as far as I could tell, was David Cameron's visit to Barry just before the election, following which 11 Labour councillors were elected in Barry. I wonder whether we could recommend that you pass on to David Cameron our request for more such visits from him, because we might then have done a little bit better.

On the question of food and energy prices, the listening mode and the 10p tax rate, I cannot say a lot more than what I have already said to Helen Mary. What the Treasury has said so far is that the problem with the 10p minimum tax rate is that both standard-rate and higher rate tax payers

gwneud yn eglur y bydd ôl-weithredu llawn ac iawndal llawn am effaith dileu'r gyfradd dreth o 10c i bobl 60 i 64 mlwydd oed—hynny yw, cyn iddynt gael credyd treth pensiwn. Fodd bynnag, mae trafodaethau pellach yn parhau ynghylch sut y mae targedu mesurau iawndal at y grwpiau eraill a fydd ar eu colled oherwydd dileu'r gyfradd dreth isaf o 10c. Cymeraf y daw manylion y rheini i'r amlwg pan fydd y Mesur Cyllid yn dychwelyd i'r Senedd ar gyfer ei Gyfnod Adrodd, ymhen tua mis.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Brif Weinidog, yn sgil y mân anawsterau lleol a gawsoch yr wythnos diwethaf a'r ffaith bod Prif Weinidog y DU wedi dweud ei fod yn barod i wrando, a chymeraf eich bod chithau hefyd, yr wyf yn pendroni tybed, yn fwya cyffredinol—wrth edrych ar bolisi deddfwriaethol yn gyffredinol—a fyddwch yn siarad â Phrif Weinidog y DU neu ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch newidiadau posibl yn y dreth o 2c ar betrol sydd am gael ei chyflwyno ym mis Hydref, ac sydd yn peri pryder enfawr ledled Cymru gan fod petrol bellach wedi cyrraedd £5 y galwyn. Mae'r cynnydd ym mhrisiau bwyd hefyd yn poeni pobl. A allech hefyd roi ychydig mwy o eglurder o ran y gyfradd dreth o 10c a'r sefyllfa o ran hynny? Nid yw'n eglur o gwbl pa newidiadau y gallwn eu disgwyl gan y Llywodraeth, os yw'n barod i wrando o ddifrif wedi canlyniadau'r etholiadau lleol yng Nghymru.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle; cawsom uffern o grasfa yn yr etholiadau lleol yng Nghymru. Un o'r uchafbwyntiau, hyd y gallwn weld, oedd ymwelliad David Cameron â'r Barri ychydig cyn yr etholiad, cyn i 11 o gynghorwyr Llafur gael eu hethol yn y Barri. Tybed a allem argymhell eich bod yn gadael i David Cameron wybod yr hoffem gael rhagor o ymwelliadau o'r fath ganddo, oherwydd efallai y byddem wedi gwneud ychydig yn well?

O ran mater prisiau bwyd ac ynni, bod yn barod i wrando a'r gyfradd dreth o 10c, ni allaf ddweud llawer mwy na'r hyn yr wyf eisoes wedi'i ddweud wrth Helen Mary. Yr hyn y mae'r Trysorlys wedi'i ddweud hyd yn hyn yw mai'r broblem o ran y gyfradd dreth isaf o 10c yw bod trethdalwyr y gyfradd

benefit from it—including you and me—and so it is not targeted sufficiently at those people at the bottom of the income scales for whom it was originally intended. You get the benefit of the 10p tax rate on the way to the 20p and 40p standard and higher tax rates. Therefore, a compensation measure really needs to look at the restoration of the benefit of the 10p tax rate for those who pay only the 10p tax rate, because they do not get an income that is high enough to pay the standard let alone the higher rate of tax.

I think that the Treasury's tax code computers are struggling to find a way of targeting such a benefit. I have already had one discussion with the Prime Minister, and several with the Secretary of State. I understand that a political Cabinet was held today, and I am sure that these discussions will continue, given the experience of last Thursday into the early hours of Friday morning. I should have known that things would be pretty bad when I had a flood in my kitchen at 8.30 p.m.—a taste of what was to come. In this situation, you have to work out what you can do to recover the full trust of the electorate.

Nick Bourne: I will certainly pass on your best wishes to David Cameron. You may recall that he visited Wales three times during the local election campaign, and met real electors, unlike Gordon Brown, who confined himself to going around a science lab at Swansea University. Interestingly, David Cameron visited the Vale of Glamorgan, which we won outright for the first time ever, he did a walkabout in Cardiff, where Labour is now the third party, and he visited Conwy, where we made gains from Labour, Plaid and the independents.

However, I will take the First Minister back to the 2p fuel duty, which he did not touch upon. It is a crucial issue that is affecting people up and down Wales. Petrol is more than £5 per gallon, and every time you go to the pump, you find that the price has gone up. Is he pressing for a standstill, so that duty is not increased in October?

safonol a'r gyfradd uwch yn elwa ohoni—gan eich cynnwys chi a mi—ac felly nad yw wedi'i thargeddu'n ddigonol at y bobl hynny sydd â'r incwm isaf, y cafodd ei bwriadu ar eu cyfer yn wreiddiol. Yr ydych yn elwa o'r gyfradd dreth o 10c ar y ffordd at y cyfraddau treth safonol ac uwch, sef 20c a 40c. Felly, mae gwir angen i fesur iawndal edrych ar adfer mantais y gyfradd dreth o 10c i'r rhai sy'n talu'r gyfradd dreth o 10c yn unig, gan nad ydynt yn cael incwm sy'n ddigon uchel i dalu'r gyfradd dreth safonol, heb sôn am y gyfradd dreth uwch.

Credaf fod cyfrifiaduron codau treth y Trysorlys yn ei chael yn anodd canfod ffordd o dargedu mantais o'r fath. Yr wyf eisoes wedi cael un drafodaeth gyda Phrif Weinidog y DU, ac amryw o drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Yr wyf yn cael ar ddeall bod Cabinet gwleidyddol wedi'i gynnwl heddiw, ac yr wyf yn siŵr y bydd y trafodaethau hyn yn parhau, o ystyried y profiad a gafwyd ddydd Iau diwethaf hyd at oriau mân y bore ddydd Gwener. Dylwn fod wedi sylweddoli y byddai pethau'n eithaf gwael pan lifodd dŵr i'm cegin am 8.30 p.m.—rhagflas o'r hyn a oedd i ddod. Yn y sefyllfa hon, rhaid ichi ganfod beth y mae'n rhaid ichi ei wneud er mwyn adennill ymddiriedaeth lwyd yr etholaeth.

Nick Bourne: Yn sicr, cyfleaf eich dynuniadau gorau i David Cameron. Efallai y cofiwch iddo ymweld â Chymru deirgwaith yn ystod ymgyrch yr etholiadau lleol, gan gyfarfod ag etholwyr go iawn, yn wahanol i Gordon Brown, na wnaeth ond ymweld â labordy gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Yn ddiddorol, ymwebdd David Cameron â Bro Morgannwg, a enillwyd yn llwyr gennym am y tro cyntaf erioed, aeth am dro yng Nghaerdydd, lle y mae Llafur bellach yn drydedd blaids, ac ymwebdd â Chonwy, lle y cawsom enillion ar draul Llafur, Plaid Cymru a'r aelodau annibynnol.

Fodd bynnag, af â'r Prif Weinidog yn ôl at y dreth danwydd o 2c, na wnaeth sôn amdani. Mae'n fater hollbwysig sy'n effeithio ar bobl ledled Cymru. Mae petrol yn fwy na £5 y galwyn, a bob tro yr ewch at y pwmp, gwelwch fod y pris wedi codi. A yw'n pwysol am sicrhau na fydd dim newid, fel na chaiff y dreth ei chynyddu ym mis Hydref?

The First Minister: I note your comments on Gordon Brown visiting science labs. I was with him, and he spoke to and shook hands with at least 100 people, which is a large number to cram into a visit. If you are going anti-science, Nick, in your view that visiting science labs is an inappropriate activity for the Prime Minister, I think that that will be noted by the scientists of Wales.

I apologise for forgetting to pick up the point on the 2p fuel duty. I am aware that the issue is under consideration in the light of the very high levels of petrol prices—whether that is caused by international markets, speculation, or whatever, oil has gone up to \$120 per barrel. We hope that it is a spike, but it might not be. If it turns out not to be a spike, and oil is still \$120 a barrel in October, I am sure that further consideration will be given to raising awareness of the impact of that. Undoubtedly, with rising food prices and the adverse effect that the end of the 10p tax rate has had on some people, people have less cash jingling about in their wallets at the end of the week. There is nothing left for anything other than covering the basics, and it is hurting people—there is no question about that. Whether it should be affecting the Government's popularity, I do not know, but it does not matter, because the fact is that it always does. Whenever there is a spike—or what we hope is a spike—in food prices or oil prices, people have less discretionary income, they feel miserable about it, and they tend to penalise the Government in power.

Nick Bourne: First Minister, you will know that I am very much committed to science, because I have pressed you repeatedly on the issue of appointing a science adviser. The point that I was making was that we would all have benefited had the Prime Minister got out and met more people, because he would have heard some of the messages that everyone else can hear loudly and clearly.

Y Prif Weinidog: Nodaf eich sylwadau am Gordon Brown yn ymweld â labordai gwyddoniaeth. Yr oeddwn gydag ef, a siaradodd ag o leiaf 100 o bobl, ac ysgwyd llaw â hwy, sy'n nifer fawr i'w cynnwys i gyd mewn ymweliad. Os ydych yn troi yn erbyn gwyddoniaeth, Nick, gan eich bod o'r farn bod ymweld â labordai gwyddoniaeth yn weithgaredd amhriodol i Brif Weinidog y DU, credaf y bydd gwyddonwyr Cymru yn sylwi ar hynny.

Ymddiheuraf am anghofio rhoi sylw i'r pwynt am y dreth danwydd o 2c. Yr wyf yn ymwybodol bod y mater yn cael ei ystyried oherwydd lefelau uchel iawn prisiau petrol—boed hynny wedi'i achosi gan farchnadoedd rhyngwladol, gan hapasnachu, neu beth bynnag y bo, mae olew wedi cyrraedd \$120 y gasgen. Yr ydym yn gobeithio mai cynnydd sydyn dros dro yw hynny, ond efallai nad dyna ydyw. Os nad cynnydd sydyn dros dro ydyw, a bod olew yn dal yn \$120 y gasgen ym mis Hydref, yr wyf yn siŵr y rhoddir ystyriaeth bellach i godi ymwybyddiaeth o effaith hynny. Heb os, oherwydd bod prisiau bwyd yn codi a'r effaith andwyol y mae dod â'r gyfradd dreth o 10c i ben wedi ei chael ar rai pobl, mae gan bobl lai o arian yn eu waledi ar ddiweddfyr yw thnos. Nid oes dim ar ôl ar gyfer dim byd ond talu am bethau sylfaenol, ac mae'n briofio pobl—nid oes amheuaeth am hynny. Ni wn a ddylai fod yn effeithio ar boblogrwydd y Llywodraeth, ond nid yw hynny o bwys, oherwydd y gwir yw y bydd bob amser yn gwneud hynny. Pryd bynnag y bydd cynnydd sydyn dros dro—neu'r hyn yr ydym yn gobeithio mai cynnydd sydyn dros dro ydyw—ym mhrisiau bwyd neu brisiau olew, bydd gan bobl lai o incwm dewisol, byddant yn teimlo'n anhapus ynghylch y peth, a byddant yn tuedd i gosbi'r Llywodraeth sydd mewn grym.

Nick Bourne: Brif Weinidog, byddwch yn gwybod fy mod wedi ymrwymo'n gryf i wyddoniaeth, oherwydd yr wyf wedi pwysgo arnoch droeon ynghylch penodi cynghorydd gwyddoniaeth. Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud oedd y byddem i gyd wedi elwa petai'r Prif Weinidog wedi mynd allan a chyfarfod â mwy o bobl, oherwydd byddai wedi clywed rhai o'r negeseuon sy'n holol hyglyw i bawb arall.

Specifically on the extra 2p on fuel, you admit that it is a problem, but you have not made it clear whether you are pressing for a standstill on the duty, which is specifically what I asked you about. I know that it is a problem; I think that we all know that it is a problem. However, are you pressing for a standstill on that in the way that you did on the 10p tax rate, which he indicated he was not in favour of?

Tacked on to that, in the light of the drubbing at the local elections, is the First Minister pressing for something to happen about the post office closure programme, so that it does not go ahead, hitting post offices across Wales?

The First Minister: The idea that we press for the Finance Bill to be drafted in a certain way, or for tax changes to be made in a certain way, is a bit unrealistic. I know the Government is considering the impact of high fuel duty on top of high petrol prices, because of the price of crude oil on international markets. The Government needs revenue because of the public sector borrowing requirement, but the impact of the present, astonishingly high prices for crude oil, and so petrol, is in the Government's thoughts. Over the next couple of months, there will be many opportunities to assess whether this is a spike, or whether petrol prices remain high, in which case I am sure that the Government will want to consider whether to withdraw the 2p increase in fuel duty currently included in the budget measures. The UK Government will be very conscious of that. If it proves to be a spike, and petrol prices come back down, that may not be necessary.

2.10 p.m.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I am grateful for the First Minister's brutal honesty when he said that the impact on his party was bad last week, but I am more

Yn benodol o ran y 2c ychwanegol ar danwydd, yr ydych yn cyfaddef bod hynny'n broblem, ond nid ydych wedi ei gwneud yn eglur a ydych yn pwysio am sicrhau na fydd dim newid yn y dreth, sef y cwestiwn penodol a ofynnais ichi. Gwn ei bod yn broblem; credaf ein bod i gyd yn gwybod ei bod yn broblem. Fodd bynnag, a ydych yn pwysio am sicrhau na fydd dim newid yn hynny yn yr un modd ag y gwnaethoch o ran y gyfradd dreth o 10c, ac yntau wedi nodi nad oedd o'i phlaid?

Yn ogystal â hynny, ac ystyried y grasfa yn yr etholiadau lleol, a yw'r Prif Weinidog yn pwysio am i rywbeth ddigwydd ynglŷn â'r rhaglen i gau swyddfeydd post, fel na fydd yn digwydd, gan daro swyddfeydd post ledled Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae'r syniad ein bod yn pwysio am i'r Mesur Cyllid gael ei ddrafftio mewn modd penodol, neu am i newidiadau yn y dreth gael eu gwneud mewn ffordd benodol, ychydig yn afrealistig. Gwn fod y Llywodraeth yn ystyried effaith treth danwydd uchel ar ben prisiau petrol uchel, oherwydd pris olew crai mewn marchnadoedd rhyngwladol. Mae angen refeniw ar y Llywodraeth oherwydd gofyniad benthyca'r sector cyhoeddus, ond mae effaith prisiau anhygoel o uchel olew crai ar hyn o bryd, a phetrol hefyd o'r herwydd, ym meddyliau'r Llywodraeth. Yn ystod y mis neu ddau nesaf, bydd llawer o gylleoedd i asesu ai cynnydd sydyn dros dro yw hyn, ynteu a fydd prisiau petrol yn aros yn uchel, ac os byddant, yr wyf yn siŵr y bydd y Llywodraeth am ystyried tynnu'n ôl y cynnydd o 2c mewn treth danwydd sydd wedi'i gynnwys ym mesurau'r gyllideb ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth y DU yn ymwybodol iawn o hynny. Os daw i'r amlwg mai cynnydd sydyn dros dro ydyw, a bod prisiau petrol yn dod yn ôl i lawr, efallai na fydd angen gwneud hynny.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Yr wyf yn ddiolchgar am onestrwydd llwyr y Prif Weinidog pan ddywedodd fod yr effaith ar ei blaïd yr wythnos diwethaf yn wael, ond

interested in the people of Wales and the impact of this on them. Given that 195,000 taxpayers in Wales are affected by the abolishing of the 10p minimum income tax rate, and that all the suggestions for recompensing people will need a massive shifting of Government resources, is he worried that some of those resources may have to come from the budgets and services that we provide, and that, as a result of the Barnett formula, we might suffer from that? If so, has he spoken to the Prime Minister about that?

The First Minister: We have had one brief discussion about the election results since then, and, under the circumstances, I did not go into a great deal of detail. However, I made the point that an above-average number of the Welsh workforce will lose out directly from the abolition of the 10p tax rate, because they do not earn a wage of more than £18,500 a year, and therefore they are not paying the standard rate of taxation. The sort of pay scale that is between £7 and £11.50 an hour or thereabouts is common in factories, call centres and suchlike in Wales, and so there is a particularly heavy impact on Wales, which should be borne in mind when considering compensation measures. What I said to Helen Mary Jones is true: the Treasury is desperately searching for a formula that would compensate people for the abolition of the 10p tax rate without benefiting people like you or me, who are standard or higher rate tax payers, as we also benefit from the 10p tax rate. It is trying to concentrate the recompense only on those who paid the 10p tax rate, because their salary is not above £18,000. However, I am told that that is a technically difficult thing to do, but the Treasury is trying to find that formula.

Michael German: I accept the difficulties, which have arisen because of abolishing the 10p rate in the first place. The difficulty is that the Treasury will have to find substantially more money to make any such measures work. That is also a fact. It will not be done simply by replacing the money that is already there. The cost of making these recompense measures work for the majority of the people who have suffered is estimated

mae gennyf fwy o ddiddordeb ym mhobl Cymru ac effaith hyn arnynt hwy. O ystyried bod cael gwared â'r gyfradd treth incwm isaf o 10c yn effeithio ar 195,000 o drethdalwyr Cymru, a bod pob awgrym ar gyfer ad-dalu pobl yn golygu y bydd angen symud llawer iawn o adnoddau'r Llywodraeth, a yw'n pryderu y bydd yn rhaid i rai o'r adnoddau hynny ddod o'r cyllidebau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gennym ni efallai, ac y gallem, o ganlyniad i fformiwl a Barnett, ddioddef yn sgil hynny? Os ydyw, a yw wedi siarad â Phrif Weinidog y DU am hynny?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi cael un drafodaeth fer am ganlyniadau'r etholiadau ers hynny, a than yr amgylchiadau, ni fanylais lawer. Fodd bynnag, gwneuthum y pwynt y bydd nifer mwy na'r cyfartaledd o weithlu Cymru ar eu colled yn uniongyrchol oherwydd diddymu'r gyfradd dreth o 10c, gan nad ydynt yn ennill cyflog dros £18,500 y flwyddyn, sy'n golygu nad ydynt yn talu'r gyfradd dreth safonol. Mae'r math o raddfa cyflog sydd rhwng tua £7 ac £11.50 yr awr yn gyffredin mewn ffatrioedd, canolfannau galwadau a lleoedd o'r fath yng Nghymru, felly mae effaith arbennig o drwm ar Gymru, a dylid cadw hynny mewn golwg wrth ystyried mesurau iawndal. Mae'r hyn a ddywedais wrth Helen Mary Jones yn wir: mae'r Trysorlys yn chwilio'n daer am fformiwl a fyddai'n digolledu pobl am ddiddymu'r gyfradd dreth o 10c heb i hynny fod o fantais i bobl fel chi a mi, sy'n drethdalwyr ar y gyfradd safonol neu'r gyfradd uwch, gan ein bod hefyd yn elwa o'r gyfradd dreth o 10c. Mae'n ceisio canolbwytio'r iawndal ar y rhai a oedd yn talu'r gyfradd dreth o 10c yn unig, gan nad yw eu cyflog dros £18,000. Fodd bynnag, dywedir wrthyf ei bod yn dechnegol anodd gwneud hynny, ond mae'r Trysorlys yn ceisio canfod y fformiwl honno.

Michael German: Yr wyf yn derbyn yr anawsterau, sydd wedi codi o ganlyniad i ddiddymu'r gyfradd 10c yn y lle cyntaf. Yr anhawster yw y bydd yn rhaid i'r Trysorlys ganfod llawer mwy o arian er mwyn gwneud i unrhyw fesurau o'r fath weithio. Mae hynny hefyd yn ffaith. Ni chaiff ei gyflawni drwy roi arian yn lle'r arian sydd yno eisoes. Amcangyfrifir y bydd yn costio rhwng £3 biliwn a £7.5 biliwn i wneud i'r mesurau

to range between £3 billion and £7.5 billion. If billions of pounds are necessary, some of that could be taken from the budgets for the sorts of services that have an impact on us, under the Barnett formula, such as health and education—unless the Government is prepared to put taxes up. Perhaps you can tell us whether it will do so. Can you put the case strongly to the Prime Minister that taking from Peter to pay Paul, and losing money from our health and education services, would not be appropriate?

The First Minister: The estimate of £7 billion would be for full recompense of simply the restoration of the 10p tax rate, and that would include benefiting people like me or you, who get the 10p tax rate, but who are also on a higher rate as well as the standard rate of income tax. The Government is trying to ensure that it is for people who are paying only the 10p tax rate, not the standard rate or higher rate tax payers. Therefore, it might cost £3.5 billion, and not £7 billion. It is looking for that. I think that you were asking about what would happen if the Treasury could not find a way to recompense, on a targeted basis, those who pay only the 10p rate, and not the standard or higher rates of taxation, and that you were therefore presuming that it would have to cut public expenditure. I know of no Government proposals to cut the overall level of public expenditure. Therefore, a fall-out into health and education spending, as far as I am aware, is off the agenda.

Michael German: I am grateful for that assurance, and I hope that you will continue to press that point. However, the Finance Bill and the subsequent credit crunch will cause other constraints to Wales. One is to tenants. As people with buy-to-let mortgages are asked to repay them and have the houses repossessed, so tenants are losing out. Today, we heard that a major housing development in Newport is not to go ahead, which means that even more people will be searching for affordable housing in Wales. Given the current pressure on housing in Wales resulting from these changes, what plans do you have to increase the social housing grant so that more people can get affordable housing? There will be a dramatic shortage of housing in Wales in the private sector.

iawndal hyn weithio i'r rhan fwyaf o bobl sydd wedi dioddef. Os oes angen biliynau o bunnoedd, gellid tynnu rhywfaint o hynny o'r cylidebau ar gyfer y math o wasanaethau sy'n cael effaith arnom ni, dan fformiwlau Barnett, megis iechyd ac addysg—oni bai fod y Llywodraeth yn fodlon codi trethi. Efallai y gallwch ddweud wrthym a fydd yn gwneud hynny. A allwch gyflwyno achos cryf i Brif Weinidog y DU na fyddai'n briodol mynd ag arian oddi ar Pedr i dalu i Paul, a cholli arian o'n gwasanaethau iechyd ac addysg?

Y Prif Weinidog: Byddai'r amcangyfrif o £7 biliwn yn golygu adfer y gyfradd dreth o 10c yn llawn, a byddai hynny'n golygu y byddai o fantais i bobl fel chi a mi, sy'n cael y gyfradd dreth o 10c, ond sydd hefyd ar gyfradd uwch yn ogystal â chyfradd safonol treth incwm. Mae'r Llywodraeth yn ceisio sicrhau bod yr iawndal ar gyfer pobl sy'n talu'r gyfradd dreth o 10c yn unig, ac nid trethdalwyr y gyfradd safonol na'r gyfradd uwch. Felly, gallai gostio £3.5 biliwn, ac nid £7 biliwn. Dyna faint y mae'n chwilio amdano. Credaf eich bod yn gofyn beth fyddai'n digwydd pe na allai'r Trysorlys ganfod ffordd o ad-dalu, ar sail sydd wedi'i thargedu, y rhai sy'n talu'r gyfradd 10c yn unig, ac nid y cyfraddau treth safonol nac uwch, a'ch bod felly'n cymryd yn ganiataol y byddai'n rhaid iddo dorri gwariant cyhoeddus. Ni wn am gynigion gan y Llywodraeth i dorri lefel gyffredinol gwariant cyhoeddus. Felly, nid yw effaith ar wario ar iechyd ac addysg yn bosibl, hyd y gwn.

Michael German: Yr wyf yn ddiolchgar am y sicrwydd hwnnw, a gobeithiaf y byddwch yn parhau i roi pwyslais ar y pwyt hwnnw. Fodd bynnag, bydd y Mesur Cyllid a'r wasgfa gredyd wedi hynny yn achosi cyfyngiadau eraill i Gymru. Mae tenantiaid ymysg y rhai y bydd hynny'n effeithio arnynt. Gan fod gofyn i bobl a chanddynt forgeisi prynu i osod eu had-dalu a bod eu tai'n cael eu hailfediannu, mae tenantiaid ar eu colled. Heddiw, clywsom na fydd datblygiad tai mawr yng Nghasnewydd yn mynd rhagddo, sy'n golygu y bydd mwy fyth o bobl yn chwilio am dai fforddiadwy yng Nghymru. O ystyried y pwysau sydd ar dai ar hyn o bryd yng Nghymru o ganlyniad i'r newidiadau hyn, pa gynlluniau sydd gennych i gynyddu'r grant tai cymdeithasol fel y gall

mwy o bobl gael tai fforddiadwy? Bydd prinder tai dramatig yng Nghymru yn y sector preifat.

The First Minister: I am presuming that the Newport scheme to which you refer is the City Spires development. Is it? There was widespread misunderstanding that the property company, Modus, was deferring the whole of the city centre redevelopment, which is a completely different scheme, although it is the same property company. You are right to identify the City Spires scheme as being deferred because of the credit crunch; it cannot raise capital for it. There are always deferrals at a time like this. There may well have been overbuilding of city-centre flats. However, most of the schemes in Newport are proceeding, on both banks of the river Usk.

It is remarkable how well those schemes are proceeding, although they may be creating a backlog. You might have seen overbuilding over a three or four-year period in Cardiff, but, if anything, there has been underbuilding in Newport, and the catch-up phase is going ahead. I understand that they are still selling well in Newport, perhaps for that reason. However, it is sad that the City Spires development, which was architecturally very interesting, is not proceeding.

We had an exchange on the broader issue of housing a week or two ago. The overall balance between social housing and private sector housing will be adversely affected by the credit crunch, but housebuilders will now be searching for social housing opportunities, whereas they have previously tried to persuade local authorities to exempt them from the section 106 obligation to set aside 15 or 20 per cent of a housebuilding scheme for social housing. Now, they will say, ‘We will do the 10 or 15 per cent minimum; how about raising it to 25 per cent?’, otherwise it will not be possible to make the scheme viable.

Lottery Funding

Q3 Mohammad Asghar: Will the First Minister make a statement on the

Y Prif Weinidog: Cymeraf mai sôn yr ydych am ddatblygiad City Spires yng Nghasnewydd. A wyf yn gywir? Bu camdealltwriaeth gyffredinol bod y cwmni eiddo, Modus, yn gohirio holl waith ailddatblygu canol y ddinas, sy'n gynllun cwbl wahanol, er mai'r un cwmni eiddo ydyw. Yr ydych yn gywir wrth ddweud bod cynllun City Spires wedi cael ei ohirio oherwydd y wasgfa gredyd; ni all godi cyfalaf ar ei gyfer. Ceir gohirio bob amsser pan fydd cyfnod fel hyn. Mae'n ddigon posibl bod gormod o fflatiau wedi cael eu hadeiladu yng nghanol y ddinas. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yng Nghasnewydd yn mynd rhagddynt, ar y ddwy ochr i afon Wysg.

Mae'n syndod cystal y mae'r cynlluniau hynny'n mynd rhagddynt, er eu bod yn creu ôl-groniad efallai. Efallai eich bod wedi gweld goradeiladu dros gyfnod o dair neu bedair blynedd yng Nghaerdydd, ond, os rhywbeth, nid oes digon o adeiladu wedi bod yng Nghasnewydd, ac mae'r cyfnod o ddal i fyny'n digwydd hyn o bryd. Deallaf eu bod yn dal i werthu'n dda yng Nghasnewydd, am yr union reswm hwnnw efallai. Fodd bynnag, mae'n drueni nad yw datblygiad City Spires, a oedd yn gynllun pensaerniol diddorol iawn, yn mynd rhagddo.

Cawsom drafodaeth ynghylch tai yn ehanguach ryw wythnos neu ddwy yn ôl. Caiff y wasgfa gredyd effaith andwyol ar y cydbwysedd cyffredinol rhwng tai cymdeithasol a thai sector preifat, ond bydd adeiladwyr tai yn awr yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer tai cymdeithasol, a hwythau o'r blaen wedi ceisio perswadio awdurdodau lleol i'w heithrio o'r ymrwymiad adran 106 i neilltuo 15 neu 20 y cant o gynllun adeiladu tai ar gyfer tai cymdeithasol. Yn awr, byddant yn dweud, ‘Gwnawn yr isafswm o 10 neu 15 y cant; beth am ei godi i 25 y cant?’, neu ni fydd yn posibl i'r cynllun fod yn ddichonadwy.

Cyllid y Loteri

C3 Mohammad Asghar: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau Gemau

implications of the London Olympic Games on lottery funding in South Wales East? OAQ(3)0967(FM)

The First Minister: I believe that it is public knowledge that all lottery distributors in Wales, except those in the voluntary and community sectors, will experience reductions in their budgets between 2009 and 2012 as a result of the levy—if you want to call it that—to the 2012 Olympic Games and Paralympic Games.

Mohammad Asghar: There are two aspects, which are related, and we in Wales are the losers in both. First, the former Mayor of London, Ken Livingstone, let the cat out of the bag when he said that he did not bid for the games because he wanted three weeks of sport, but because he wanted to get billions of pounds extra for London. This confirms that the money is indeed for London, and we should be entitled to more money under the Barnett formula.

Secondly, a recent poll found that three out of four people thought that the London Olympics would not bring real benefits to this area. While I am a big fan of sports, the money being spent has gone out of control. Good causes in south-east Wales will lose out by more than £20 million. This money is going towards the Olympics and the regeneration of London. According to estimates, the Caerphilly council area faces losing over £6 million; Newport over £5 million; Torfaen over £3 million; Monmouth—

The Presiding Officer: Order. This is getting to be like a speech.

Mohammad Asghar: Will the First Minister acknowledge that Wales will lose out due to the Olympics and the accompanying regeneration work? Will the First Minister join me in condemning the rising cost of the London Olympics, including the aquatics centre, which has trebled in cost to nearly £250 million, while councils in south-east Wales are closing community swimming pools? Will he use his good offices to make sure that Wales does not lose out?

Olympaidd Llundain i gyllid y loteri yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)0967(FM)

Y Prif Weinidog: Credaf ei bod yn hysbys i'r cyhoedd y bydd cyllidebau holl ddosbarthwyr arian y loteri yng Nghymru, ac eithrio'r rhai yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol, yn lleihau rhwng 2009 a 2012 o ganlyniad i'r ardoll—os ydych am ei alw'n hynny—i'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn 2012.

Mohammad Asghar: Ceir dwy agwedd, sy'n gysylltiedig, ac yr ydym ni yng Nghymru ar ein colled o ran y naill a'r llall. Yn gyntaf, gollyngodd cyn-Faer Llundain, Ken Livingstone, y gath allan o'r cwd pan ddywedodd na wnaeth gais am y gemau oherwydd ei fod am weld tair wythnos o chwaraeon, ond yn hytrach oherwydd ei fod am gael biliynau o bunnoedd yn ychwanegol i Lundain. Mae hyn yn cadarnhau bod yr arian ar gyfer Llundain, ac y dylem gael mwy o arian dan fformiwl a Barnett.

Yn ail, canfuwyd mewn arolwg yn ddiweddar nad oedd tri o bob pedwar unigolyn yn credu y byddai Gemau Olympaidd Llundain yn dod â dim manteision gwirioneddol i'r ardal hon. Er fy mod yn gefnogwr chwaraeon brwd iawn, mae'r arian sy'n cael ei wario wedi mynd allan o reolaeth. Bydd achosion da yn y de-ddwyrain dros £20 miliwn ar eu colled. Mae'r arian hwn yn mynd i'r Gemau Olympaidd ac i adfywio Llundain. Yn ôl yr amcangyfrifon, bydd ardal cyngor Caerffili yn colli dros £6 miliwn; Casnewydd dros £5 miliwn; Torfaen dros £3 miliwn; Mynwy—

Y Llywydd: Trefn. Mae hyn yn troi'n debycach i arraith.

Mohammad Asghar: A wnaiff y Prif Weinidog gydnabod y bydd Cymru ar ei cholled o ganlyniad i'r Gemau Olympaidd a'r gwaith adfywio sy'n gysylltiedig â hynny? A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i gondemnio costau cynyddol y Gemau Olympaidd yn Llundain, gan gynnwys y ganolfan campau dŵr, y mae ei chost wedi treblu i bron £250 miliwn, tra mae cynghorau yn ne-ddwyrain Cymru yn cau pyllau nofio cymunedol? A wnaiff ddefnyddio'i ddylanwad i sicrhau na fydd Cymru ar ei

cholled?

The First Minister: You are right; the figure of £40 million has been bandied about as the likely loss to Wales in relation to the Big Lottery Fund from next year through to 2012. We have to try to get as much benefit as possible from the Olympics, as you cannot go back on having the Olympics now.

On your point about what the former Mayor of London, Ken Livingstone, said, if you are the Mayor of London, you will emphasise the legacy benefits to London, will you not? Otherwise, London council tax payers will ask why the Olympics are being held in London when it will cost them a fortune. Therefore, if you are the Mayor of London, you tend to emphasise the benefits to London. Elsewhere, you will say that this is a once in 50 years thing that every country the size of Great Britain should try to do, because it creates role models for healthy living and helps to get over the obesity epidemic, which is badly impacting our younger generation—the Playstation generation, not the kick-a-football or play-a-game-of-tennis generation. We have to do something about that, and the Olympic Games are an enormous opportunity to do that.

As regards protecting those Lottery distributors—and, as I said, there will be a big impact on the Big Lottery Fund—the voluntary and community sectors are exempt. We also have to try to get as much Olympic benefit into Wales through setting up training camps in Wales as well as participating fully in the cultural Olympics, which will coincide with the sports Olympics.

2.20 p.m.

Nick Ramsay: I am pleased that Mohammad Asghar has asked this question because, as he indicated, it is an important issue, particularly in my area and in south-east Wales. I share the concerns regarding the reallocation of lottery funds. I will ask the First Minister about a slightly different aspect, which is the awarding of contracts in the run-up to the

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle; mae'r £40 miliwn yn ffigur a glywais ynghylch y colledion tebygol i Gymru o ran y Gronfa Loteri Fawr o'r flwyddyn nesaf tan 2012. Rhaid inni geisio manteisio cymaint ag sy'n bosibl ar y Gemau Olympaidd, oherwydd ni allwch newid eich meddwl o ran cynnal y Gemau Olympaidd bellach.

O ran eich pwynt ynghylch geiriau cyn-Faer Llundain, Ken Livingstone, os ydych yn Faer Llundain, oni fyddwch yn siŵr o bwysleisio'r manteision o ran gwaddol i Lundain? Fel arall, bydd trethdalwyr Llundain yn gofyn pam y caiff y Gemau Olympaidd eu cynnal yn Llundain os yw'n mynd i gostio ffortiwn iddynt. Felly, os ydych yn Faer Llundain, yr ydych yn dueddol o bwysleisio'r manteision i Lundain. Mewn lleoedd eraill, byddwch yn dweud bod hwn yn ddigwyddiad unwaith mewn 50 mlynedd y dylai pob gwlad o faint Prydain Fawr geisio'i gynnal, oherwydd y mae'n creu modelau rôl ar gyfer byw'n iach ac yn helpu i fynd i'r afael â'r epidemig gordewdra, sy'n amharu'n fawr ar ein cenhedlaeth iau—cenhedlaeth y Playstation ac nid y genhedlaeth sy'n mynd allan i gicio pêl neu chwarae gêm o denis. Rhaid inni wneud rhywbeth am hynny, ac mae'r Gemau Olympaidd yn gyfle anferth inni wneud hynny.

O ran gwarchod dosbarthwyr arian y Loteri—ac, fel y dywedais, bydd yn cael effaith fawr ar y Gronfa Loteri Fawr—mae'r sectorau gwirfoddol a chymunedol wedi'u heithrio. Mae'n rhaid inni hefyd geisio denu cymaint o fudd o'r Gemau Olympaidd i Gymru drwy sefydlu canolfannau hyfforddi yng Nghymru, yn ogystal â chymryd rhan lawn yn y Gemau Olympaidd diwylliannol, a fydd yn cydrededig â'r Gemau Olympaidd ar gyfer chwaraeon.

Nick Ramsay: Yr wyf yn falch bod Mohammad Asghar wedi gofyn y cwestiwn hwn, oherwydd, fel y dywedodd, mae'n fater pwysig, yn enwedig yn fy ardal ac yn y deddwyrai. Yr wyf finnau'n pryderu ynghylch ailddosbarthu arian y loteri. Gofynnaf i'r Prif Weinidog ynghylch agwedd ychydig bach yn wahanol, sef dyfarnu contractau wrth nesáu

Olympic Games to firms that will do much of the work preparing for the hosting of that event. In questions raised in Westminster by Cheryl Gillan, for example, to Tessa Jowell, it seems that, out of around 600 contracts, awarded so far, only around 1 per cent have gone to Welsh firms. There is a great concern that this does not seem to be a level playing field. While we hope that Wales will benefit from the hosting of the Olympic Games, it is also important that we ensure that the businesses and people of Wales see the benefits across the board, not just following the games but also in the run-up. Can you assure me that you are confident that it is a level playing field, and that businesses in Wales are getting their fair share of the cake?

at y Gemau Olympaidd i gwmnïau a fydd yn gwneud llawer o'r gwaith paratoi ar gyfer cynnal y digwyddiad hwnnw. Mewn cwestiynau a godwyd yn San Steffan gan Cheryl Gillan, er enghraifft, i Tessa Jowell, o blith rhyw 600 o gontactau a ddyfarnwyd hyd yma, mae'n ymddangos mai dim ond tua 1 y cant ohonynt sydd wedi mynd i gwmnïau o Gymru. Ceir pryder mawr nad yw'n ymddangos yn sefyllfa deg i bawb. Yr ydym yn gobeithio y bydd Cymru'n elwa o gynnal y Gemau Olympaidd, ond mae'n bwysig hefyd inni sicrhau bod busnesau a phobl Cymru yn profi'r manteision drwyddi draw, nid ar ôl y gemau'n unig ond wrth nesáu atynt hefyd. A allwch fy sicrhau eich bod yn hyderus bod pawb yn cael yr un chwarae teg, a bod busnesau yng Nghymru'n cael eu cyfran deg o'r gacen?

The First Minister: On the basis of the information that I have, you are right in saying that it is not a level playing field—we are doing better than the English regions and the other devolved administration areas. A total of 323 businesses from Wales have registered on the London Olympic Games website, and 159 of those businesses have published their details. That conversion rate is much higher than the average for the rest of the country, because it is 49.2 per cent compared to 40.5 per cent for the English regions and other devolved administrations.

Y Prif Weinidog: Ar sail y wybodaeth sydd gennylf, yr ydych yn iawn wrth ddweud nad yw'n sefyllfa deg i bawb—yr ydym yn gwneud yn well na rhanbarthau Lloegr ac ardaloedd y gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae cyfanswm o 323 busnes o Gymru wedi cofrestru ar wefan Gemau Olympaidd Llundain, ac mae 159 o'r busnesau hynny wedi cyhoeddi eu manylion. Mae'r gyfradd drosi honno'n llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer gweddill y wlad, oherwydd y mae'n 49.2 y cant o'i gymharu â 40.5 y cant ar gyfer rhanbarthau Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Trish Law: Research by Alliance, the former Coalfield Communities Campaign, suggests that Wales will lose out to the tune of £107 million in lottery funding. Blaenau Gwent, one of the most disadvantaged communities in Wales, will be further disadvantaged by more than £2 million purely because the Olympic Games are going to London and that the bill for hosting the Olympic Games is spiralling out of control and has almost trebled, to £9.3 billion. Will the First Minister explain to organisers of the many community projects that will lose out in Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil, Torfaen, Islwyn and so forth, how the Olympic Games will benefit them?

Trish Law: Mae gwaith ymchwil gan Alliance, Ymgrych Cymunedau'r Meysydd Glo gynt, yn awgrymu y bydd Cymru £107 miliwn ar ei cholled o ran arian y loteri. Bydd Blaenau Gwent, un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, dan fwy o anfantais ar ôl colli dros £2 miliwn oherwydd bod y Gemau Olympaidd yn mynd i Lundain a bod y bil am gynnal y Gemau Olympaidd yn mynd dros ben llestri ac wedi treblu bron, i £9.3 biliwn. A wnaiff y Prif Weinidog esbonio i drefnwyr y llu o brosiectau cymunedol a fydd ar eu colled ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Torfaen, Islwyn ac yn y blaen, sut y gallant elwa o'r Gemau Olympaidd?

The First Minister: We cannot go back on having the Olympic Games. It is regrettable that the estimated cost for having the

Y Prif Weinidog: Ni allwn beidio â chynnal y Gemau Olympaidd mwyach. Mae'n anffodus bod yr amcangyfrif ynglych cost

Olympic Games has gone from £2.5 billion to £9.3 billion in the space of three or four years, once the contractors got to grips with the actual cost of regeneration and building the aqua park, track and field facilities and so on. We have strongly pressed the case that the legacy expenditure, the regeneration and the transport expenditure should be subject to the Barnett formula. Therefore, we would get the benefit of that, because we are spending our equivalent sums of money on the Ryder Cup—we cannot host the Olympics in Wales, but we can host the Ryder Cup, which we are doing two years before the London Olympics are held. We do not think that it is right and proper for us to be denied the Barnett consequentials, not so much of the sports facilities but of the legacy and transport facilities that east London will get as a result.

You mentioned that every community project will lose out. However, voluntary sector projects will not lose out. The lottery authorities have said that they will be protected. I am not trying to ignore the fact that that throws all of the burden on Big Lottery Fund projects. We do not know the exact figure but we believe that it is of the order of £41 million.

Trais yn y Cartref

C4 Nerys Evans: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud i leihau traus yn y cartref? OAQ(3)0981(FM)

Y Prif Weinidog: Ymhllith y camau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i leihau traus yn y cartref mae'r £0.25 miliwn a glustnodwyd ym mis Ebrill i Cymorth i Fenywod Cymru er mwyn codi lefel y cymorth sydd ar gael i blant sy'n byw mewn lloches.

Nerys Evans: Yr wyf yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn y Cynulliad sydd ar hyn o bryd yn adolygu'r strategaeth i leihau traus yn y cartref. Mae'n amlwg bod sawl gwasanaeth a sawl elfen o gyllid yn dod o du Llywodraeth y Cynulliad yn y maes hwn, yn ogystal â'r hyn sy'n dod o'r Swyddfa Gartref. O ran egwyddor, pan fydd materion o'r fath yn codi yn y Cynulliad, a

cynnal y Gemau Olympaidd wedi codi o £2.5 biliwn i £9.3 biliwn mewn tair neu bedair blynedd, ar ôl i'r contractwyr fynd i'r afael â gwir gost adfywio ac adeiladu'r parc dŵr, y cyfleusterau trac a maes ac yn y blaen. Yr ydym wedi rhoi cryn bwyslais ar y ffaith y dylid defnyddio fformiwlau Barnett wrth ystyried y gwariant gwaddol, y gwariant ar adfywio a'r gwariant ar drafnidiaeth. Felly, byddem yn budd yn sgil hynny, oherwydd yr ydym yn gwario ein harian cyfatebol ni ar Gwpan Ryder—ni allwn gynnal y Gemau Olympaidd yng Nghymru, ond gallwn gynnal Cwpan Ryder, a byddwn yn gwneud hynny ddwy flynedd cyn cynnal Gemau Olympaidd Llundain. Nid ydym yn credu ei bod yn iawn nad ydym yn cael symiau canlyniadol Barnett, nid o ran y cyfleusterau chwaraeon, ond y gwaddol a'r cyfleusterau trafnidiaeth a gaiff dwyraint Llundain o ganlyniad.

Soniasoch y bydd pob prosiect cymunedol ar eu colled. Fodd bynnag, ni fydd prosiectau yn y sector gwirfoddol ar eu colled. Mae awdurdodau'r loteri wedi datgan y caint eu gwarchod. Nid wyf yn ceisio anwybyddu'r ffaith bod hyn yn rhoi'r holl faich ar brosiectau'r Gronfa Loteri Fawr. Nid ydym yn gwybod beth yw'r union ffigur, ond credwn ei fod o gwmpas £41 miliwn.

Domestic Violence

Q4 Nerys Evans: Will the First Minister make a statement outlining what the Welsh Assembly Government is doing to reduce domestic violence? OAQ(3)0981(FM)

The First Minister: The steps being taken by the Welsh Assembly Government to reduce levels of domestic violence include the £0.25 million earmarked in April for Welsh Women's Aid in order to improve the level of support available for children living in refuges.

Nerys Evans: I am a member of the Assembly's Communities and Culture Committee that is currently reviewing the strategy for reducing levels of domestic violence. Obviously, the Government provides a number of services and several elements of funding in this area, as does the Home Office. As a matter of principle, when such issues are discussed, do you agree that

gytunwch y dylai cynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref ddod yma i gyfrannu at yr ymchwiliad, er mwyn creu darlun llawn yn y maes hwn? Gofynnais yr un cwestiwn i'r Gweinidog dros Gyflawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ond ni chefais ateb ar yr egwyddor.

Y Prif Weinidog: Deallaf fod y pwylgor craffu yr ydych yn aelod ohono wedi ymchwilio i sut mae'r strategaeth i leihau ar drais yn y cartref yn gweithio, a rhoddodd y Gweinidog, Brian Gibbons, dystiolaeth gerbron y pwylgor rai wythnosau'n ôl. Sut i roi cymorth i bwy bynnag sy'n dioddef trais yw'r peth hollbwysig i ni. Mae gennym y llinell gymorth, sydd wedi ei lleoli ym Mhenygroes. Mae angen ystyried sut i helpu menywod sy'n disgwyl plentyn arall. Yn ogystal â hyn, mae'r uned diogelwch menywod ymhlið y cyrff mwyaf blaenllaw ym Mhrydain Fawr sy'n delio â'r mater hwn, ynghyd â'r heddlu.

Mark Isherwood: Two weeks ago, I questioned you on a similar matter relating to domestic abuse, and asked what your Government was doing to ensure that vital front-line services offered directly to victims and survivors of domestic abuse are securely funded. You kindly asked me to write to you regarding the specific case that I was referring to. I subsequently received a response to your response from Deeside domestic abuse safety unit, stating that you were correct, that you do fund posts at Welsh Women's Aid, but that you do not offer direct support to victims and survivors of domestic abuse. Will you or your Ministers engage with these front-line support units, to establish what their concerns are, and work with them to address them?

The First Minister: I will have to examine the Record and the correspondence to which you refer in detail. We announced an additional £0.25 million a few weeks ago to provide additional funding to Welsh Women's Aid and to Black Association of Women Step Out, for additional co-ordinators, and for seven regional child worker posts. I hope that that will deal with some of these problems. If I feel that it does

Home Office representatives should come here to contribute to the review, in order to provide a full picture of what is being done? I asked this question of the Minister for Social Justice and Local Government but I did not receive a reply on the principle.

The First Minister: I understand that the scrutiny committee of which you are a member has reviewed the way in which the strategy to reduce levels of domestic violence is operating, and the Minister, Brian Gibbons, gave evidence to the committee some weeks ago. The fundamental issue for me is the provision of services for victims of violence. We have the helpline, located in Penygroes. We must consider how to assist women who are expecting another child. In addition, the women's safety unit is among the most prominent organisations in Great Britain in this field, along with the police.

Mark Isherwood: Bythefnos yn ôl, gofynnais gwestiwn tebyg ichi ynghylch cam-drin yn y cartref, a gofynnais beth oedd eich Llywodraeth yn ei wneud i sierhau bod gwasanaethau rheng flaen hanfodol, a gynigir yn uniongyrchol i ddioddefwyr a goroeswyr trais yn y cartref, ar sylfeini cyllido cadarn. Gofynasoch imi ysgrifennu atoch ynghylch yr achos penodol yr oeddwn yn cyfeirio ato. Yna, cefais ymateb i'ch ateb gan uned diogelwch cam-drin yn y cartref Glannau Dyfrdwy, yn datgan eich bod yn iawn, sef eich bod yn cyllido swyddi yn Cymorth i Fenywod Cymru, ond nad ydych yn cynnig cymorth uniongyrchol i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin yn y cartref. A wnewch chi neu'ch Gweinidogion ymgysylltu â'r unedau cymorth rheng flaen hyn, i ganfod beth yw eu pryderon a gweithio gyda nhw i i roi sylw i'r rheini?

Y Prif Weinidog: Bydd yn rhaid imi archwilio'r Cofnod a'r ohebiaeth yr ydych yn cyfeirio ato yn fanwl. Cyhoeddasm £0.25 miliwn yn ychwanegol rai wythnosau'n ôl i ddarparu cyllid ychwanegol i Cymorth i Fenywod Cymru ac i Black Association of Women Step Out, ar gyfer cydgyssylltwyr ychwanegol, ac ar gyfer saith o weithwyr plant rhanbarthol. Gobeithiaf y bydd hynny'n delio â rhai o'r problemau hyn. Os tybaf nad

not, I will ensure that Brian or I respond to you, and the group that has been in communication with you—the name of which I did not quite catch.

Joyce Watson: I greatly support the commitment that the Assembly Government has consistently demonstrated to tackling domestic abuse across Wales. However, do you believe that we should now seek to extend the domestic violence strategy to include all forms of violence against women and children? A strategy to end violence against women would be more useful, because it would include things such as female genital mutilation, forced marriage, honour killings, and trafficking into the sex trade. Will you consider such an all-encompassing strategy, which would widen that focus?

The First Minister: Brian Gibbons, the Minister with responsibility for these issues, has launched a three-year action plan on forced marriage and honour-based crime. That was done in Wrexham on 1 April at a black and minority ethnic communities outreach service. Likewise, a Cabinet paper on our forced marriage and honour-based crime action plan will be considered soon. We have not seen that paper yet, but perhaps I will write to you after we have received it and have had a Cabinet discussion on it.

Transport Infrastructure

Q5 Nick Bourne: Will the First Minister make a statement on transport infrastructure in Wales? OAQ(3)0964(FM)

The First Minister: Ieuan Wyn Jones, the Deputy First Minister, will be making a statement to the Assembly on Connecting the Nation on transport issues later today. That strategy will outline our priorities for developing and getting the most out of our existing transport infrastructure. It is a strategy for creating an environmentally sustainable transport system for the whole of Wales.

yw'n gwneud hynny, sicrhaf y bydd Brian neu y byddaf fi yn rhoi ateb i chi, ac i'r grŵp sydd wedi gohebu â chi—ni wneuthum glywed ei enw'n iawn.

Joyce Watson: Yr wyf yn cefnogi'r ymrwymiad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ddangos yn gyson i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref ledled Cymru. Fodd bynnag, onid ydych yn credu y dylem yn awr geisio ehangu'r strategaeth cam-drin yn y cartref i gynnwys pob math o drais yn erbyn menywod a phlant? Byddai strategaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod yn fwy defnyddiol, oherwydd byddai'n cynnwys pethau megis llurgunio organau cenhedlu menywod, priodasau dan orfod, lladd er anrhydedd, a masnachu pobl ar gyfer y fasnach ryw. A wnewch ystyried strategaeth hollgynhwysol o'r fath, a fyddai'n ehangu'r ffocws hwnnw?

Y Prif Weinidog: Mae Brian Gibbons, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y materion hyn, wedi lansio cynllun gweithredu tair blynedd ynghylch priodasau dan orfod a throseddau er anrhydedd. Gwnaethpwyd hynny yn Wrecsam ar 1 Ebrill mewn gwasanaeth allgymorth cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Hefyd, cyn bo hir ystyrir papur ar gyfer y Cabinet ar gynllun gweithredu ynghylch priodasau dan orfod a throseddau er anrhydedd. Nid ydym wedi gweld y papur hwnnw eto, ond efallai yr ysgrifennaf atoch ar ôl inni ei gael a chael trafodaeth arno yn y Cabinet.

Seilwaith Trafnidiaeth

C5 Nick Bourne: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru? OAQ(3)0964(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog, yn gwneud datganiad i'r Cynulliad ar Cysylltu'r Genedl o ran materion trafnidiaeth yn ddiweddarach heddiw. Bydd y strategaeth honno'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu ein seilwaith trafnidiaeth presennol a gwneud y gorau ohono. Mae'n strategaeth ar gyfer creu system drafnidiaeth sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ar gyfer Cymru benbaladr.

Nick Bourne: The First Minister is right to say that the friendliness of the transport structure to the environment is important. I am sure that he would agree that another important concern is the road safety aspect of the infrastructure.

2.30 p.m.

On that subject, to extend it a little wider, what would his attitude be to the Assembly's seeking powers to introduce restricted number plates for those who have just passed their test, perhaps for a year or so, so that they cannot transport young passengers—those under the age of 20, say—immediately after passing their test? That would contribute significantly to road safety. Would he agree that, on a cross-party basis, that is worth considering?

The First Minister: I must not steal Ieuan Wyn Jones's thunder by revealing too much of the content of his statement in half an hour's time, but I can reveal that the promotion of transport safety and security will be among his top priorities.

I will have to give some serious thought to the question of whether we should be seeking to acquire powers separately in Wales from the rest of the UK on the conditions of receiving a drivers' licence or conditions following getting a full drivers' licence, whereby you would still be regarded as a provisional driver up until a certain age, or until you have passed a supplementary proficiency driving test or until you have been driving with a full licence for a certain length of time, and so forth. There is so much cross-border travel between Wales and England that the feasibility of doing something such as that, and having different conditions in Wales than in England, would require careful consideration. However, it is an idea worthy of consideration, because while, in trying to continue the downward pressure on accidents that involve the maiming or killing of children, we have been successful in terms of bringing the totals down, even one incident is one too many. Therefore, anything that has a beneficial impact on reducing the number of children maimed or killed, by reducing the number of

Nick Bourne: Mae'r Prif Weinidog yn llygad ei le wrth ddweud ei bod yn bwysig i'r strwythur trafnidiaeth fod yn eco-gyfeillgar. Yr wyf yn siŵr y byddai'n cytuno bod diogelwch ar y ffyrdd hefyd yn bwysig o ran y sealwaith.

Ynghylch y pwnc hwnnw, ac ehangu ychydig ar y mater, a all ddweud wrthym beth fyddai ei agwedd at ymgais y Cynulliad i gael pwerau i gyflwyno platiau rhifau cyfyngedig i'r rhai sydd newydd basio eu prawf, am flwyddyn neu ddwy efallai, i'w rhwystro rhag cludo teithwyr ifanc—rhai sy'n iau nag 20 oed, dyweder—yn syth ar ôl iddynt basio'u prawf? Byddai hynny'n cyfrannu'n sylwedol at ddiogelwch ar y ffyrdd. A fyddai'n cytuno bod hynny'n werth ei ystyried, ar sail drawsbleidiol?

Y Prif Weinidog: Rhaid imi beidio â dwyn clodydd Ieuan Wyn Jones drwy ddatgelu gormod ar gynnwys y datganiad a wneir ganddo ymhen hanner awr, ond gallaf ddatgelu y bydd hyrwyddo diogelwch trafnidiaeth ymhlið ei brif flaenoriaethau.

Bydd yn rhaid imi ystyried o ddifrif y cwestiwn a ddylem geisio cael pwerau yng Nghymru ar wahân i weddill y DU ynghylch yr amodau ar gyfer cael trwydded yrru neu'r amodau ar ôl cael trwydded yrru lawn, lle y byddech yn dal i gael eich ystyried yn yrrwr ar brawf hyd at oedran penodol, neu nes byddwch wedi pasio prawf medrusrwydd yrru ychwanegol neu nes byddwch yn yrru â thrwydded lawn am gyfnod penodol, ac yn y blaen. Am fod cymaint o deithio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, byddai angen ystyried yn ofalus pa mor ymarferol fyddai gwneud rhywbeth felly, a bod amodau yng Nghymru sy'n wahanol i'r rhai a geir yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'n syniad sy'n werth ei ystyried oherwydd er ein bod, wrth geisio parhau i gwtogi nifer y damweiniau lle y mae plant yn cael eu hanafu neu eu lladd, wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau eu niferoedd, mae hyd yn oed un ddamwain yn ormod. Felly, gallai unrhyw gynllun a gaiff effaith fuddiol ar leihau nifer y plant a gaiff eu hanafu neu eu lladd, drwy leihau nifer y bobl ifanc sy'n dwyn ceir i'w gyrru'n ddiofal, neu nifer y gyrrwyr dibrofiad nad ydynt mewn

joy riders or inexperienced drivers who do not really know how to use a car properly, is potentially of great benefit in further suppressing road accidents.

Janet Ryder: First Minister, I am sure that, like everyone else, you are pleased to see the development and introduction of the Wrexham to Marylebone train link. What needs to happen in Wrexham now is for the local infrastructure to be co-ordinated with that, therefore do you agree that one issue that the Deputy First Minister must look at in his transport strategy is the co-ordination of local infrastructure to create a properly integrated transport system for Wales?

The First Minister: Again, this is a matter that the Deputy First Minister will be dealing with later. I am sure that co-ordination will be dealt with in extenso in his statement and in his responses to questions. Like everyone in this Assembly, I am delighted to see the launch of the London-Shrewsbury-Marylebone service, and I understand that the company is pleased with the launching of the service. We grant-aided the setting up of the depot in Wrexham, so that the company could have logistics and maintenance carried out in Wrexham and not elsewhere, and I am proud that we have done that. The company is sufficiently pleased with the response so far that it is talking about possibly putting in a bid to run additional services across north Wales, as well as the Wrexham service. When you get bids like that, you at first think, ‘Isn’t this wonderful?’, but the second consideration is how well the service would co-ordinate with either bus services or other local train services to match up and provide sensible connections.

Eleanor Burnham: We are all delighted with that new train service and we all looked with envy upon the quality of the rolling stock—I am sure that the lavatories were spot on. I only wish that we could say the same for the north-south service. Do you envisage a positive statement on the north-south service so that we could quash the myth that there is a divide between north and south and can show our constituents that we are

gwirionedd yn gwybod sut y mae defnyddio car yn gywir, fod o fudd mawr o ran atal mwy ar ddamweiniau ar y ffordd.

Janet Ryder: Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod, fel pawb arall, yn falch o weld datblygu a chyflwyno'r cyswllt rheilffordd rhwng Wrecsam a Marylebone. Yr hyn y mae ar Wrecsam ei angen yn awr yw cydgysylltu'r seilwaith lleol â hynny, felly a gytunwch mai un mater y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog edrych arno yn ei strategaeth drafnidiaeth yw cydgysylltu seilweithiau lleol i greu system drafnidiaeth i Gymru sydd wedi'i hintegreiddio'n briodol?

Y Prif Weinidog: Unwaith eto, mae hwn yn fater y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ymdrin ag ef yn ddiweddarach. Yr wyf yn siŵr y bydd ei ddatganiad a'i atebion i gwestiynau yn trafod cydgysylltu yn helaeth. Yr wyf, fel pawb yn y Cynulliad hwn, wrth fy modd o weld lansio'r gwasanaeth rhwng Llundain, Amwythig a Marylebone, ac yr wyf yn cael ar ddeall bod y cwmni'n fodlon ar lansiad y gwasanaeth. Rhoesom gymorth grant i'r gwaith o sefydlu'r depo yn Wrecsam, er mwyn i'r cwmni allu cynnal gwaith logisteg a chynnal a chadw yn Wrecsam yn hytrach nag yn rhywle arall, ac yr wyf yn falch ein bod wedi gwneud hynny. Mae'r cwmni mor fodlon ar yr ymateb hyd yn hynnes ei fod yn sôn am gyflwyno cais efallai i gynnal gwasanaethau ychwanegol ledled gogledd Cymru, yn ogystal â'r gwasanaeth yn Wrecsam. Pan gaiff ceisiadau o'r fath eu cyflwyno, bydd dyn yn meddwl yn gyntaf, ‘Onid yw hyn yn wych?’, ond yr ail ystyriaeth yw pa mor dda y byddai'r gwasanaeth yn cydgysylltu â naill ai'r gwasanaethau bysiau neu wasanaethau rheilffordd eraill i gyd-fynd â'i gilydd a darparu cysylltiadau synhwyrol.

Eleanor Burnham: Yr ydym i gyd wrth ein boddau â'r gwasanaeth rheilffordd newydd hwnnw ac yr oeddem i gyd yn eiddigeddus o safon y cerbydau—yr wyf yn siŵr bod y toiledau'n ardderchog. Hoffwn pe gallem ddweud yr un peth am y gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de. A ydych yn rhagweld datganiad cadarnhaol am y gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de er mwyn inni allu dileu'r myth bod rhaniad rhwng y gogledd a'r

listening to them? The patience of many of my north Wales constituents is running out when it comes to getting a comfortable, reliable and decent journey from north to south Wales on a regular basis.

The First Minister: I have used the north-south service on many occasions, but I have not used the London-Shrewsbury-Marylebone service, so I cannot make the comparison that you can. Whenever I use the service from Cardiff to Wrexham, Prestatyn, Llandudno or wherever, I have been pretty impressed by it. It is much better than it was, although you may say that it is not as good as it could be, which I am sure is right. Of course, it depends on what time of day you travel, and how many stops there are on the journey. The scenery is so stunning that I do not notice the lavatories and so on. For reasons of diet, I frequently take my own sandwiches, so that might solve another problem. However, I have been sufficiently impressed with the service that I frequently choose not to take the car, but to use the train instead.

de, a dangos i'n hetholwyr ein bod yn gwrando arnynt? Mae amynedd llawer o'm hetholwyr yn y gogledd yn pallu yng nghyswilt cael taith gyfforddus, ddibynadwy a boddhaol o'r gogledd i'r de yn rheolaidd.

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi defnyddio'r gwasanaeth rhwng y gogledd a'r de droeon, ond nid wyf wedi defnyddio'r gwasanaeth rhwng Llundain Amwythig a Marylebone, felly ni allaf wneud yr un gymhariaeth â chi. Pryd bynnag y byddaf yn defnyddio'r gwasanaeth o Gaerdydd i Wrecsam, Prestatyn, Llandudno neu lle bynnag y bo, mae wedi creu cryn argraff arnaf. Mae'n llawer gwell nag a oedd, er y dywedwch efallai nad yw crystal ag y gallai fod, ac yr wyf yn siŵr bod hynny'n gywir. Wrth gwrs, mae'n dibynnu ar ba adeg o'r dydd y byddwch yn teithio, a faint o weithiau y bydd y trêñ yn aros ar hyd y daith. Mae'r olygfa mor odidog na fyddaf yn sylwi ar y toiledau ac yn y blaen. Am resymau yn ymwned â'm deiet, byddaf yn mynd â'm brechdanau fy hun yn rheolaidd, felly mae'n bosibl bod hynny'n datrys problem arall. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi creu digon o argraff arnaf nes fy mod yn dewis peidio â mynd â'r car yn aml, ond yn defnyddio'r trêñ yn ei le.

Europe Day

Q6 Sandy Mewies: What is the Welsh Assembly Government doing to celebrate Europe Day? OAQ(3)0985(FM)

The First Minister: We will be hosting information stands in two Assembly offices in Swansea and Cardiff, and a further stand at the Committee of the Regions office in Brussels in partnership with other EU regions, such as Asturias, Galicia and Brittany, as an opportunity to raise the profile of Wales to a wide EU audience.

Sandy Mewies: This Government has forged close economic and cultural links with many European states, including the accession countries. I was therefore delighted to be asked to be involved in organising a photographic exhibition that will celebrate the ninetieth anniversary of the independence of the Republic of Latvia. We hope that that will come here in November. I hope that you will attend, if that is possible given your

Diwrnod Ewrop

C6 Sandy Mewies: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i ddathlu Diwrnod Ewrop? OAQ(3)0985(FM)

Y Prif Weinidog: Byddwn yn cynnal stondinâu gwylodaeth mewn dwy o swyddfeydd y Cynulliad, yn Abertawe ac yng Nghaerdydd, a stondin arall yn swyddfa Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsl mewn partneriaeth â rhanbarthau eraill yr UE, megis Asturias, Galicia a Llydaw, fel cyfle i godi proffil Cymru i gynulleidfa eang yn yr UE.

Sandy Mewies: Mae'r Llywodraeth hon wedi ffurfio cysylltiadau economaidd a diwylliannol agos â llawer o wladwriaethau Ewrop, gan gynnwys y gwledydd sydd wedi'u derbyn. Felly, yr oeddwn wrth fy modd pan ofynnwyd imi gymryd rhan yn y gwaith o drefnu arddangosfa ffotograffig a fydd yn dathlu hanner cant a deugain o flynyddoedd ers i Weriniaeth Latfia ddod yn annibynnol. Gobeithiwn y bydd honno'n dod

commitments, along with other Ministers and Assembly Members.

The First Minister: I am sure that we will consider the invitation against other diary pressures, as we always do. However, as we have a special relationship with Latvia, I am sure that many of us will make a special effort to attend that exhibition. It is a country that symbolises many things that have been good about Europe, particularly in the period since the Berlin Wall fell. There is also a celebration of Europe week, rather than Europe Day, this evening at the European Commission's office at No. 1 Caspian Point across the road.

William Graham: Noting that the Europe Day is based on the first declaration by Robert Schuman, I note that it has become a symbol of the EU generally. We are all familiar with the flag, and no doubt we all know the anthem, but apparently there is also a motto. Could you tell me what that is?

The First Minister: I can tell you a little about Robert Schuman, who also symbolises Europe because he fought on the German side in the first world war and on the French side in the second world war despite living in the same place—he came from Alsace-Lorraine. That perhaps illustrates what happens when you have such borders. Some of the founders of Europe were also affected in that way, for example, Alcide de Gasperi, the Prime Minister of Italy, fought on the Austro-Hungarian side in the first world war and on the Italian side—sorry, I think that I have got that the wrong way around. However, he also, without moving house, found that he moved from being on the allied side to the Axis side between the first world war and the second world war, just like Schuman. That proves what a nonsense some of these borders are: overall loyalty to a peaceful Europe should be the greatest symbol. Our having had peace in Europe, with the exception of the Balkans, for 63 years is a huge achievement.

yma ym mis Tachwedd. Gobeithiaf y byddwch yn bresennol, os yw hynny'n bosibl o ystyried eich ymrwymiadau, ynghyd ag eraill o blith y Gweinidogion ac Aelodau'r Cynulliad.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn siŵr y byddwn yn ystyried y gwahoddiad ochr yn ochr â phwysau eraill yn y dyddiadur, fel y gwnawn bob tro. Fodd bynnag, am fod gennym berthynas arbennig â Latfia, yr wyf yn siŵr y bydd llawer ohonom yn gwneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol yn yr arddangosfa honno. Mae'n wlad sy'n symbol o lawer o bethau sydd wedi bod yn dda am Ewrop, yn enwedig yn ystod y cyfnod ers cwmp Wal Berlin. Yn ogystal mae wythnos i ddathlu Ewrop, yn hytrach na Diwrnod Ewrop, heno yn swyddfa Comisiwn Ewrop yn Rhif 1, Caspian Point, dros y ffordd.

William Graham: A chofio bod Diwrnod Ewrop wedi'i seilio ar y datganiad cyntaf gan Robert Schuman, sylwaf ei fod wedi dod yn symbol o'r UE yn gyffredinol. Yr ydym i gyd yn gyfarwydd â'r faner, ac yn ddiamau yn gwybod yr anthem, ond mae'n debyg bod arwyddair hefyd. A allech ddweud wrthyf beth yw hwnnw?

Y Prif Weinidog: Gallaf ddweud ychydig wrthyf am Robert Schuman, sydd hefyd yn symbol o Ewrop am iddo ymladd ar ochr yr Almaen yn y rhyfel byd cyntaf ac ar ochr Ffrainc yn yr ail ryfel byd, er ei fod yn byw yn yr un lle—yr oedd yn dod o Alsace-Lorraine. Efallai fod hynny'n esbonio beth sy'n digwydd pan fydd gennych ffiniau o'r fath. Digwyddod yr un peth yn hanes rhai o sefydlwyr Ewrop, er enghraifft, bu Alcide de Gasperi, Prif Weinidog yr Eidal, yn ymladd ar ochr Awstria-Hwngari yn y rhyfel byd cyntaf ac ar ochr yr Eidal—mae'n ddrwg gennylf, credaf fy mod wedi dweud hynny yn y drefn anghywir. Fodd bynnag, gwelodd ef hefyd, heb symud tŷ, ei fod wedi symud o fod ar ochr y cynghreiriaid i fod ar ochr Pwerau'r Axis rhwng y rhyfel byd cyntaf a'r ail ryfel byd, yn union fel Schuman. Mae hynny'n profi mor wirion yw rhai o'r ffiniau hyn: teyrngarwch cyffredinol i Ewrop heddychlon a ddylai fod yn symbol pennaf. Mae'r ffaith ein bod cael heddwch yn Ewrop, ac eithrio gwledydd y Balcan, ers 63 o flynyddoedd, yn gamp aruthrol.

Gareth Jones: Un o brif amcanion dathlu Diwrnod Ewrop yw codi ymwybyddiaeth am Ewrop ymhli bobl Cymru ac eraill. Mae honno'n nod bwysig. Fodd bynnag, darllenais y bore yma mewn adroddiad bod ymdriniaeth rhwydwaith y BBC ar ddigwyddiadau yng Nghymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, y tu allan i Loegr, yn ddiffygol iawn a bod angen ailwampio strwythur darlledu'r BBC. A gytunwch mai un cam sylweddol ymlaen i hyrwyddo pwysigrwydd Ewrop a chodi ymwybyddiaeth am Ewrop fyddai i'r BBC newid ei hagwedd a'i ddynesiad Lloegr-ganolog i un llawer mwy eang a chytbwys a fyddai'n cynnwys ymdriniaeth fwy eang a chytbwys o ddigwyddiadau Cymreig ac Ewropeaidd?

Y Prif Weinidog: Yn naturiol, yr wyf yn cydymdeimlo â'r syniadau y darllenais amdanynt yn y papur newydd y bore yma, fel chithau, Gareth. Yr hyn sydd yn bwysig yw, nid ein bod ni'n cydymdeimlo â'r syniadau hyn, ond bod llawer o gydymdeimlad gan gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC sef Sir Michael Lyons, â'r safbwyt hwn. Mae ef hefyd yn meddwl bod y BBC yn canolbwytio gormod ar Lundain a deddwyraint Lloegr ac nad yw'n canolbwytio digon ar weddill Lloegr, yr Alban a Chymru. Credaf fod llawer o gydymdeimlad â'ch safbwyt ar lefel yr ymddiriedolaeth. Felly, yr ydym yn gwthio ar ddrws sydd eisoes dri chwarter yn agored.

2.40 p.m.

The Gap between the Rich and the Poor

Q7 Jenny Randerson: Will the First Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government intends to reduce the gap between the rich and the poor in Wales? OAQ(3)0984(FM)

The First Minister: We are topping up the child trust fund for children in Wales, which will reduce asset inequality between young people at a crucial time in their lives. That is against a background in which the Welsh house condition survey shows that eight out of 10 lone parent households in Wales reported having no savings, and only three in

Gareth Jones: One of the main aims of celebrating Europe Day is to raise awareness about Europe among the people of Wales and beyond. It is an important aim. However, I read a report this morning claiming that the BBC network's coverage of events in Wales and other nations of the United Kingdom, besides England, is very deficient and that the BBC broadcasting structure needs to be revamped. Do you agree that one substantial step forward to promote the importance of Europe and to raise awareness of Europe would be for the BBC to change its attitude and England-centric approach to a much broader and balanced one which would include a much broader and balanced coverage of European and Welsh events?

The First Minister: Naturally, I have a great deal of sympathy towards the ideas that I read about in the newspaper this morning, like you, Gareth. The important point is that, not that we should empathise with these ideas, but that the chair of the BBC Trust, Sir Michael Lyons, also sympathises with this perspective. He also believes that the BBC focuses too much on London and the south-east and does not focus enough on the rest of England, Scotland and Wales. I think that there is also a great deal of sympathy about this on the trust level. Therefore, we are knocking on a door that is already three-quarters ajar.

Y Bwlch rhwng y Cyfoethog a'r Tlawd

C7 Jenny Randerson: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu lleihau'r bwlch rhwng pobl gyfoethog a phobl dlawd yng Nghymru? OAQ(3)0984(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn ychwanegu at y gronfa ymddiriedolaeth plant i blant yng Nghymru, a bydd hynny'n lleihau anghydraddoldeb o ran asedau rhwng pobl ifanc ar adeg allweddol yn eu bywydau. Mae hynny mewn cyd-destun lle y mae arolwg cyflwr tai Cymru yn dangos bod wyth o bob 10 aelwyd sydd ag unig riant yng Nghymru

100 of such households had savings in excess of £3,000.

Jenny Randerson: Laudable as that is, you are swimming against the tide in relation to the impact of UK Government policies. Following the electorate's crushing judgment of your party's policies and performance last week, I ask you for a simple statement of principle. Since 1997, the Labour Government in Westminster has created a situation in which the poorest members of society pay more of their income in tax than the richest, and that gap is growing. Do you agree with the Liberal Democrats that the way to deal with the worsening economy and gathering storm clouds is to accept the simple principle that it is morally wrong to tax the poorest in society beyond what is absolutely necessary? How do you react to recent international criticism that shows that your party has maintained and even expanded the Conservatives' policy of developing the UK's status as a tax haven? That means, of course, that Wales is part of that tax haven. Do you agree that your party has been wrong to protect the interests of the rich at the expense of the poor, and will you agree to discuss this important issue with the Prime Minister?

The First Minister: You said that it was wrong to tax the poor more than necessary; I would widen that and say that it is wrong to tax anyone more than necessary, but especially the have-nots in society. It seems to me that that is the right way to put it. Therefore, the question is what happens when you get a very successful economy, such as Britain has had for the past 11 years, with over 2 million additional jobs, and opt for a strategy that says that work, and getting people onto that first step of the ladder, is the best form of welfare, because it provides them with a basis to get onto the second and third steps of the ladder. The first step must be to get a job, and we have enabled people to get a job. The issue of the 10p tax rate then arises, because people in their first job may not be on the minimum wage, in which case they would be better off as a result of the changes, but on just above the minimum

wedi datgan nad oes ganddynt ddim cynillion, a dim ond tri o bob 100 aelwyd o'r fath a oedd â chynilion gwerth mwy na £3,000.

Jenny Randerson: Er mor ganmoladwy yw hynny, yr ydych yn rhwyfo yn erbyn y llanw yng nghyswllt effaith polisiau Llywodraeth y DU. Yn dilyn dyfarniad llethol yr etholwyr ar bolisiau a pherfformiad eich plaid yr wythnos diwethaf, gofynnaf ichi roi datganiad syml o egwyddor. Ers 1997, mae'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi creu sefyllfa lle y mae aelodau thlataf y gymdeithas yn talu cyfran fwy o'u hincwm mewn treth na'r aelodau cyfoethocaf, ac mae'r bwlch hwnnw'n tyfu. A gytunwch â'r Democratiaid Rhyddfrydol mai'r ffordd i ddelio â'r economi sy'n gwaethyg a'r cymylau stormus sy'n crynhoi yw derbyn yr egwyddor syml bod codi treth ar bobl dlotaf cymdeithas, sy'n uwch na'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol, yn anfoesol? Beth yw eich ymateb i'r feirniadaeth ryngwladol yn ddiweddar sy'n dangos bod eich plaid wedi cynnal polisi'r Ceidwadwyr o ddatblygu statws y DU fel lloches rhag treth, ac ehangu hynny hyd yn oed? Golyga hynny, wrth gwrs, fod Cymru'n rhan o'r lloches honno rhag treth. A gytunwch fod eich plaid wedi bod yn anghywir wrth amddiffyn buddiannau pobl gyfoethog ar draul pobl dlawd, ac a gytunwch i drafod y mater pwysig hwn gyda Phrif Weinidog y DU?

Y Prif Weinidog: Dywedasoch fod codi treth ar bobl dlawd sy'n uwch na'r hyn sy'n angenrheidiol yn anghywir; byddwn yn ehangu hynny ac yn dweud bod codi treth ar unrhyw un sy'n uwch na'r hyn sy'n angenrheidiol yn anghywir, ond yn enwedig pobl ddifreintiedig cymdeithas. Ymddengys i mi mai dyna'r ffordd gywir o ddweud hynny. Felly, y cwestiwn yw beth a ddigwydd pan fydd gennych economi Iwyddiannus iawn, megis yr economi sydd wedi bod ym Mhrydain dros yr 11 mlynedd diwethaf, gyda dros 2 miliwn o swyddi ychwanegol, a phan fyddwch yn dewis strategaeth sy'n dweud mai gwaith, a chael pobl ar gam cyntaf yr ysgol, yw'r math gorau o les, am ei fod yn darparu ffordd iddynt gyrraedd ail a thrydydd cam yr ysgol. Cael swydd yw'r cam cyntaf yn ddiamau, ac yr ydym wedi galluogi pobl i gael swyddi. Mae mater y gyfradd dreth o 10c yn codi wedyn, am nad yw pobl sydd yn

wage, which means that they are worse off, which is a disincentive to people to move off welfare and into work.

Bethan Jenkins: There is a concern among third sector providers, especially Children in Wales, that child poverty targets could be targeted more towards Communities First areas. Children in Wales describe that as a double exclusion factor in rural areas. Will you hold discussions with the Minister for Rural Affairs and Dr Brian Gibbons on this issue of there perhaps being a two-tiered approach to tackling child poverty in Wales?

The First Minister: There is general poverty, which must be attacked, suppressed, combated, and so on, as well as child poverty, but there is also area-based poverty, whereby you get high concentrations of people living in areas of deprivation, which tends to put a cap on their aspirations. Therefore, you need to take a special approach to the 100 most deprived wards in addition to what you do generally about child poverty. From memory, I think that only 35 per cent of poverty in Wales is concentrated in Communities First areas, so you cannot concentrate all of your attempts to get people out of poverty on the Communities First areas, otherwise you would be missing two-thirds of the poverty in Wales. We have been very successful in reducing the percentage of children in poverty in Wales from 33 per cent to 28 per cent; it may be an even sharper reduction—it may be that the fall is from 35 per cent to 28 per cent during the past nine years of the Assembly's existence. A smaller proportion of children are in poverty in Wales than in the UK for the first time in a very long time.

Andrew R.T. Davies: First Minister, one of the barometers or keys to the economy that many people on lower incomes find it difficult to cope with is food price inflation. They find it difficult to put income aside to buy the key necessities of life, whereas the richer sector of society is insulated from that inflation to a degree.

eu swyddi cyntaf ar yr isafswm cyflog efallai, pryd y byddent yn well eu byd yn sgîl y newidiadau, ond yn hytrach yn ennill ychydig mwy na'r isafswm cyflog, sy'n golygu eu bod yn waeth eu byd, ac nid yw hynny'n eu hannog i symud o fudd-dal i waith.

Bethan Jenkins: Ceir pryder ymhlið darparwyr yn y trydydd sector, yn enwedig Plant yng Nghymru, y gellid anelu targedau tlodi plant yn fwy at ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae Plant yng Nghymru yn disgrifio hynny fel ffactor allgáu dwbl mewn ardaloedd gwledig. A wnewch gynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Dr Brian Gibbons ynghylch y mater hwn, sef bod dull dwy haen o ymdrin â mynd i'r afael â tlodi plant yng Nghymru efallai?

Y Prif Weinidog: Ceir tlodi cyffredinol, a rhaid mynd i'r afael a hynny, rhoi terfyn arno a brwydro yn ei erbyn, ac yn y blaen, yn ogystal â tlodi plant, ond ceir hefyd dlodi ar sail ardal, lle y cewch lawer iawn o bobl yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, ac mae hynny'n dueddol o gyfyngu eu dyheadau. Felly, mae angen ichi fabwysiadu dull arbennig o fynd i'r afael â'r 100 ward fwyaf difreintiedig yn ogystal â'r hyn a wnewch yn gyffredinol ynghylch tlodi plant. Yn ôl yr hyn a gofiaf, credaf mai dim ond 35 y cant o dlodi Cymru sydd wedi'i grynhoi yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, felly ni allwch ganolbwytio eich holl ymdrechion i godi pobl allan o dlodi ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, neu byddech yn anwybyddu dwy ran o dair o'r tlodi yng Nghymru. Yr ydym wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran lleihau canran y plant sy'n dlawd yng Nghymru o 33 y cant i 28 y cant; mae'n bosibl bod y lleihad yn fwy byth—efallai ei fod yn lleihad o 35 y cant i 28 y cant yn ystod naw mlynedd diwethaf y Cynulliad. Mae cyfran lai o blant yn dlawd yng Nghymru nag yn y DU am y tro cyntaf ers amser maith iawn.

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, un o'r dangosyddion neu'r allwedi ar gyfer yr economi y mae llawer o bobl ar incwm isel yn ei chael yn anodd ymdopi ag ef yw chwyddiant pris bwyd. Maent yn ei chael yn anodd rhoi incwm o'r neilltu i brynu prif angenrheidiau bywyd, tra bydd sector cyfoethocach y gymdeithas wedi'u hynysu

rhag y chwyddiant hwnnw i raddau.

Only this morning when I came into work, I was told that the price of milk had increased by 7p a litre; that is a fundamental increase that is being passed on to consumers. Will your Government's strategy of constraining production through the various conservation schemes, such as Tir Gofal and Tir Cynnal, and the promotion of organic production, rather than establishing indicators for the market so that people can produce more food in order to stop that inflation increase in Wales, make a difference to the inflation of food prices?

Y bore yma pan gyrhaeddais y gwaith, dywedwyd wrthyf fod pris llaeth wedi cynyddu 7c y litr; mae hynny'n gynnydd sylfaenol sy'n cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr. A fydd strategaeth eich Llywodraeth chi o gyfyngu ar gynhyrchu drwy'r gwahanol gynlluniau cadwraeth, megis Tir Gofal a Tir Cynnal, a'r hyrwyddo ar gynhyrchu organig, yn hytrach na sefydlu dangosyddion i'r farchnad fel y gall pobl gynhyrchu mwy o fwyd er mwyn atal y cynnydd hwnnw mewn chwyddiant yng Nghymru, yn gwneud gwahaniaeth i'r chwyddiant ym mhrisiau bwyd?

The First Minister: As a farmer, you will know that markets always overshoot. We have gone from everyone worrying about a wheat surplus in the world to everyone worrying about a wheat shortage in quite a short space of time. That is partially to do with biofuels, but also with the increase of reasonably well off middle class people in China and India who do not just want to eat a bowl of rice a day but want complex, western-style foods. That raises demand for meat, the market for which, in turn, must compete with other food supplies. Now that we are potentially facing an era of food shortage, we must change direction appropriately to meet a possible period of sustained shortage. I understand that the international price of wheat crashed in international markets following the Ukraine stopping its export ban because it no longer thought that its people would be short of wheat. Therefore, perhaps this wheat surplus will be short-lived; I do not know. However, you are right to concentrate on the fact that the poor spend a far higher proportion of their income on bread, milk and eggs—the basics of life—than anyone who has a fair bit of wealth to fall back on.

Y Prif Weinidog: Fel ffermwr, byddwch yn gwybod bod marchnadoedd yn mynd y tu hwnt i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl bob amser. Yr ydym wedi mynd o sefyllfa lle'r oedd pawb yn poeni am ormod o wenith yn y byd i un lle y mae pawb yn poeni am brinder gwenith mewn cyfnod go fyr o amser. Mae a wnelo hynny'n rhannol â biolanwyddau, ond mae a wnelo hefyd â'r cynnydd mewn pobl dosbarth canol gymharol gefnog yn Tsieina ac India nad ydynt am fwyta dim ond powlennaid o reis y dydd ond sydd am gael bwydydd cymhleth, yn arddull y gorllewin. Mae hynny'n cynyddu'r galw am gig, ac mae'r farchnad ar gyfer hynny, yn ei thro, yn gorfol cystadlu â chyflenwadau bwyd eraill. A ninnau erbyn hyn, efallai, yn wynebu cyfnod o brinder bwyd, yn sgîl hynny rhaid inni newid cyfeiriad i ymateb i gyfnod posibl o brinder cyson. Yr wyf yn deall i bris rhynghladol gwenith blymio mewn marchnadoedd rhynghladol ar ôl i'r Weráin atal ei gwaharddiad ar allforio gan nad oedd yn credu mwyach y byddai ei phobl yn brin o wenith. Felly, efallai mai am gyfnod byr y bydd y gormodedd hwn o wenith; ni wn. Fodd bynnag, yr ydych yn iawn wrth ganolbwytio ar y ffaith bod y tlodion yn gwario cyfran lawer uwch o'u hincwm ar fara, llaeth ac wyau—gofynion sylfaenol bywyd—na neb sydd â thipyn o gyfoeth i ddibynn arno.

High-level Skills

Q8 David Melding: Will the First Minister make a statement on the measures in place to promote high-level skills in Wales?

Sgiliau Lefel Uchel

C8 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y mesurau sydd ar waith i hyrwyddo sgiliau lefel uchel yng

OAQ(3)0958(FM)

The First Minister: Our skills and employment strategy, ‘Skills That Work for Wales’, outlines how we intend to develop higher-level skills in future to ensure that they meet employers’ needs.

David Melding: The Enterprise and Learning Committee recently visited Deeside College—do not look so worried; I am not going to ask what its motto is, but I bet you that it is not in Latin, because that wonderful institution is connected to the local community, has received incredible inspection reports and is one of the most successful further education college in the UK. The evidence that we gathered at the college emphasised the need to advance, perhaps by allowing FE colleges to grant foundation degrees and, connected to that, to have work-based learning, even at degree level. Could we lead the way in the UK on this issue and establish best practice?

The First Minister: You are right to refer to Deeside College in this respect, but there is also Coleg Llandrillo Cymru and Yale College, Wrexham, which form part of that chain of FE colleges in north Wales that are absolutely outstanding in terms of the staggering Estyn inspection reports that they have all received. The issue of their competence to move on from being FE colleges to being colleges that can also award foundation degrees is a big one. We have few doubts that they could, with a fair bit of preparation, move on to offering such degrees. One of the Assembly Measures that is under consideration, which may need to be preceded by a legislative competence Order—I do not quite remember the details—aims to make it easier for FE colleges to offer foundation degrees. Although the system in Scotland is different, in that it does not have an A-level year, 35 per cent of the degrees awarded there are foundation degrees from FE colleges.

Jeff Cuthbert: I am sure that you would agree that some of the key organisations in delivering higher-level skills within industry

Nghymru? OAQ(3)0958(FM)

Y Prif Weinidog: Mae ein strategaeth sgiliau a chyflogaeth, ‘Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru’, yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu datblygu sgiliau lefel uwch yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cyflogwyr.

David Melding: Yn ddiweddar, ymweodd y Pwyllgor Menter a Dysgu â Choleg Glannau Dyfrdwy—peidiwch ag edrych mor bryderus; nid wyf yn mynd i ofyn beth yw ei arwyddair, ond gallwch fentro nad yw yn Lladin, oherwydd y mae'r sefydliad rhagorol hwnnw mewn cysylltiad â'r gymuned leol, mae wedi cael adroddiadau arolygu anhygoel ac mae'n un o'r colegau addysg bellach mwyaf llwyddiannus yn y DU. Yr oedd y dystiolaeth a gasglwyd gennym yn y coleg yn pwysleisio'r angen i symud ymlaen, efallai drwy ganiatáu i golegau AB roi graddau sylfaen ac, ynghlwm â hynny, i gael dysgu seiliedig ar waith, hyd yn oed ar lefel gradd. A allem arwain y ffordd yn y DU ar y mater hwn a sefydlu'r arferion gorau?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn iawn wrth gyfeirio at Goleg Glannau Dyfrdwy yn y cyswllt hwn, ond mae Coleg Llandrillo Cymru a Choleg Iâl, Wrecsam, hefyd yn rhan o'r gadwyn honno o golegau AB yn y gogledd sy'n gwbl eithriadol o safbwyt yr adroddiadau aruthrol y maent i gyd wedi'u cael wedi iddynt gael eu harolygu gan Estyn. Mae'r cwestiwn ynglŷn â'u gallu i symud o fod yn golegau AB i fod yn golegau sydd hefyd yn gallu dyfarnu graddau sylfaen yn un mawr. Nid oes gennym fawr o amheuon na allant, gyda thipyn o baratoi, symud ymlaen i gynnig graddau o'r fath. Nod un o'r Mesurau Cynulliad sy'n cael eu hystyried, y bydd angen efallai iddo gael ei ragflaenu gan Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol—nid wyf yn cofio'r manylion yn union—yw ei gwneud yn haws i golegau AB gynnig graddau sylfaen. Er bod y system yn yr Alban yn wahanol, yn yr ystyr nad oes yno flwyddyn Safon Uwch, mae 35 y cant o'r graddau a ddyfernir yno yn raddau sylfaen gan golegau AB.

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno mai rhai o'r cyrff allweddol o ran cyflwyno sgiliau lefel uwch o fewn diwydiant

are the sector skills councils. While some, such as ConstructionSkills and the Sector Skills Council for Science, Engineering and Manufacturing Technologies, are well organised and resourced in Wales, the picture that is emerging in terms of other sector skills councils is rather patchy. Do you agree that it is very important that the sector skills councils, which are organised, for understandable reasons, on a UK-wide basis to ensure that there are proper national standards, must ensure that they are properly resourced and staffed in Wales if they are to work with us successfully?

The First Minister: For many decades we have had two big industrial training boards or engineering construction boards, and then a hatful of smaller ones. Although we have seen changes in terms of moving from having the engineering technology board and the construction industry training board to having the sector skills councils, the same principle applies in that the big councils that have a big throughput every year find it easier to cope with Wales being a relatively small part of the UK with only 5 per cent of the population. The smaller councils, such as the ceramic training sector skills council, find it much harder to survive because their numbers are small. Given the small levels employed in those industries, they cannot always have full-time staff to promote the interests of good training and raising skill levels.

2.50 p.m.

Peter Black: The *Daily Mail* today illustrated the importance of the FE and HE sectors getting involved in this agenda, and yet the HE sector, according to the latest Higher Education Funding Council for Wales report, still has a funding gap with England of £61 million. What extra resources are being made available to HE and FE to enable them to embrace this agenda to improve high-level skills?

The First Minister: We have all read the HEFCW report, obviously. I think that I mentioned, when it was last raised, a fortnight ago, that some interesting comparative data indicate that some Welsh higher education institutions are better

yw'r cyngorau sgiliau sector. Er bod rhai, megis Sgiliau Adeiladu a'r Cyngor Sgiliau Sector dros Wyddoniaeth, Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu, yn cael eu trefnu'n dda a'u bod yn cael adnoddau da yng Nghymru, mae'r darlun sy'n datblygu o ran y cyngorau sgiliau sector eraill braidd yn anghyson. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig iawn i'r cyngorau sgiliau sector, sy'n cael eu trefnu, am resymau dealladwy, ar sail y DU gyfan i sicrhau bod safonau cenedlaethol priodol, sicrhau bod ganddynt adnoddau a staff priodol yng Nghymru os ydynt i weithio gyda ni yn llwyddiannus?

Y Prif Weinidog: Am ddegawdau lawer cafwyd dau fwrrd hyfforddiant diwydiannol neu fwrrd adeiladu peirianyddol mawr, ac yna cafwyd dyrnaid o rai llai. Er ein bod wedi gweld newidiadau wrth symud o fod â'r bwrdd technoleg beirianyddol a bwrdd hyfforddiant y diwydiant adeiladu i fod â'r cyngorau sgiliau sector, mae'r un egwyddor yn berthnasol gan fod y cyngorau mawr sydd â thrwygyrch mawr bob blwyddyn yn ei chael yn haws ymdopi â'r ffaith bod Cymru yn rhan gymharol fach o'r DU gyda dim ond 5 y cant o'r boblogaeth. Mae'r cyngorau llai, megis cyngor sgiliau'r sector hyfforddiant cerameg, yn ei chael yn anos o lawer goroesi gan fod eu niferoedd yn fach. O ystyried y lefelau isel a gyflogir yn y diwydiannau hynny, ni allant bob amser gael staff llawnamser i hyrwyddo buddiannau hyfforddiant da a chodi lefelau sgiliau.

Peter Black: Dangosodd y *Daily Mail* heddiw bwysigrwydd cael y sector AB ac AU i ymneud â'r agenda hon, ac eto, mae gan y sector AU, yn ôl adroddiad diweddaraf Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, fwlch cyllido o £61 miliwn o hyd o'i gymharu â Lloegr. Pa adnoddau ychwanegol sy'n cael eu darparu i AU ac AB i'w galluogi i fynd i'r afael â'r agenda hon i wella sgiliau lefel uchel?

Y Prif Weinidog: Yr ydym i gyd wedi darllen adroddiad y cyngor cyllido, yn amlwg. Credaf imi sôn, pan gafodd ei godi ddiwethaf, bythefnos yn ôl, fod rhai data cymharol diddorol yn dangos bod rhai o sefydladau addysg uwch Cymru yn cael eu

funded than their English peer-group equivalents. Some—clearly, the majority—are worse funded than their English higher education equivalents. We therefore have to consider how we can direct additional funding in return for reforms to the higher education sector that will enable it to take advantage of any additional funding that we are able to provide alongside giving the sector a stronger incentive to win more private sector funding from outside, by way of endowments or contract income from industry, and to win more research council income and income from the medical charities, which are generous providers of research money in England and Scotland.

Mohammad Asghar: I would like to see more students from overseas countries come to study and improve their skills in Wales. Many of them, however, have not even heard of our country. Will the First Minister consider what can be done to encourage more students from China, India and similar countries to study in Wales?

The First Minister: We had an absolutely fantastic reception for overseas students studying at Welsh higher education institutions upstairs in the Senedd about three or four months ago. It showed what a superb education experience overseas students have when they come to Wales. Trying to ensure that they have heard of Wales when they are considering pursuing their higher education away from their home countries—and we are competing, effectively, with Australia, New Zealand, Canada, the USA and other countries that may require shorter journeys from south-east Asia, which is the big growth market, as you rightly identified—is the key thing. We have the Wales International Consortium, run from Aberystwyth on behalf of all higher education institutions in Wales, and although that has been very successful, it has not been successful enough. Having higher numbers of overseas students helps to subsidise the provision of improved facilities for all students. There are certain vocational courses that we all want to see taught, especially in engineering, for which you need half of your students to come from India and China because otherwise you cannot recruit enough students because of the drift away from technology and vocational subjects,

cyllico'n well na'r colegau cyfatebol sy'n debyg iddynt yn Lloegr. Mae rhai—yn amlwg, y mwyafrif—yn cael eu cyllico'n waeth na'r colegau addysg uwch cyfatebol yn Lloegr. Felly rhaid inni ystyried sut y gallwn gyfeirio cyllid ychwanegol yn gyfnewid am ddiwygiadau i'r sector addysg uwch a fydd yn ei alluogi i fanteisio ar unrhyw gyllid ychwanegol y gallwn ei ddarparu ochr yn ochr â rhoi cymhelliaid cryfach i'r sector i ennill rhagor o gyllid gan y sector preifat o'r tu allan, ar ffurf gwaddolion neu incwm contract gan ddiwydiant, ac i ennill rhagor o incwm gan gynghorau ymchwil ac incwm gan yr elusennau meddygol, sy'n ddarparwyr arian ymchwil hael yn Lloegr a'r Alban.

Mohammad Asghar: Hoffwn weld rhagor o fyfyrwyr o wledydd tramor yn dod i astudio a gwella'u sgiliau yng Nghymru. Nid yw llawer ohonynt, fodd bynnag, hyd yn oed wedi clywed am ein gwlad. A wnaiff y Prif Weinidog ystyried beth y gellir ei wneud i annog rhagor o fyfyrwyr o Tsieina, India a gwledydd tebyg i astudio yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Cawsom dderbyniad penigamp i fyfyrwyr tramor sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i fyny'r grisiau yn y Senedd ryw dri neu bedwar mis yn ôl. Dangosodd mor wych yw'r profiad addysgol a gaiff myfyrwyr tramor pan ddônt i Gymru. Ceisio sicrhau eu bod wedi clywed am Gymru pan fyddant yn ystyried ymgymryd â'u haddysg uwch y tu allan i'w gwledydd cartref—ac yr ydym yn cystadlu, i bob diben, ag Awstralia, Seland Newydd, Canada, UDA a gwledydd eraill sydd o bosibl yn golygu siwrneiau byrrach o dde-ddwyrain Asia, sef y farchnad dwf fawr, fel y nodasoch yn briodol—yw'r peth allweddol. Mae gennym Gonsortiwm Rhyngladol Cymru, sy'n cael ei redeg o Aberystwyth ar ran yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac er bod hwnnw wedi bod yn llwyddiannus iawn, nid yw wedi bod yn ddigon llwyddiannus. Mae cael nifer uwch o fyfyrwyr tramor yn help i sybsideiddio darparu gwell cyfleusterau i'r myfyrwyr i gyd. Mae rhai cyrsiau galwedigaethol y mae pawb ohonom am eu gweld yn cael eu dysgu, yn enwedig mewn peirianneg, y mae angen i hanner eich myfyrwyr ddod o India a Tsieina ar eu cyfer oherwydd fel arall ni allwch recriwtio digon

sadly, in the United Kingdom. If you do not have students from India and China taking your computer science or electrical engineering course, you cannot run it. That makes it even more important that we recruit successfully from India, China and elsewhere in south-east Asia.

o fyfyrwyr oherwydd y symudiad oddi wrth bynciau technoleg a galwedigaethol, yn anffodus, yn y Deyrnas Unedig. Os nad oes gennych fyfyrwyr o India a Tsieina ar eich cwrs cyfrifiadureg neu beirianneg drydanol, ni allwch ei gynnal. Mae hynny'n ei gwneud yn bwysicach fyth inni recriwtio'n llwyddiannus o India, Tsieina a mannau eraill yn ne-ddwyrain Asia.

Supporting Businesses

Q9 Brynle Williams: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for supporting businesses in north Wales? OAQ(3)0974(FM)

The First Minister: As is the case for the rest of Wales, businesses in north Wales will be able to access the new, much-improved, flexible support for business package and the single investment fund, which aim to simplify delivery, reduce complexity and avoid any confusion in the business customer market.

Brynle Williams: As you are probably aware, several factory and industrial unit owners in north Wales are now having to give factory units away; they cannot get tenants into them because of the rates. Do you agree that, when the UK economy is in such a precarious position, the response of the Government nationally and locally—I emphasise both—should be far more supportive? The rates are creasing small businesses, and we cannot get tenants in order to create more business.

The First Minister: There are two perspectives on this. If you are a potential lessee, you want to access a competitive range of properties of 1,000 sq ft, 5,000 sq ft, 10,000 sq ft or whatever at a reasonable rent. The plea that has been made for us to give a rates holiday for empty properties takes us away from that towards trying to get every industrial building to be redeveloped for flats and so on. What we actually need is more available property that the owner rents out to someone who does not want to own a building but who wants to get on with running a business. If more property is taken

Cefnogi Busnesau

C9 Brynle Williams: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi busnesau yn y gogledd? OAQ(3)0974(FM)

Y Prif Weinidog: Fel sy'n wir am weddill Cymru, gall busnesau yn y gogledd fanteisio ar y pecyn cymorth hyblyg i fusnes, pecyn newydd sydd wedi cael ei wella'n fawr, a'r gronfa fuddsoddi sengl, sydd â'r nod o symleiddio'r dull o gyflawni, lleihau cymhlethdod ac osgoi unrhyw ddryswn yn y farchnad cwsmeriaid busnes.

Brynle Williams: Fel yr ydych yn ymwybodol, yn ôl pob tebyg, mae amryw o berchenogion ffatröedd ac unedau diwydiannol yn y gogledd yn gorfod cael gwared ag unedau ffatröedd; ni allant gael tenantiaid iddynt oherwydd yr ardrethi. A ydych yn cytuno, gan fod economi'r DU mewn sefyllfa mor ansicr, y dylai ymateb y Llywodraeth yn genedlaethol ac yn lleol—pwysleisiaf y naill a'r llall—fod yn llawer mwy cefnogol? Mae'r ardrethi'n lladd busnesau bach, ac ni allwn gael tenantiaid er mwyn creu rhagor o fusnes.

Y Prif Weinidog: Mae dau bersbectif o ran hyn. Os ydych yn ddarpar brydleswr, yr ydych am gael ystod gystadleuol o eiddo 1,000 tr sg, 5,000 tr sg, 10,000 tr sg neu beth bynnag y bo am rent rhesymol. Mae'r ple a wnaethwyd inni esgusodi eiddo gwag rhag gorfod talu ardrethi yn mynd â ni oddi wrth hynny i gyfeiriad ceisio ailddatblygu pob adeilad diwydiannol yn fflatiau ac yn y blaen. Yr hyn y mae ei angen arnom mewn gwirionedd yw rhagor o eiddo sydd ar gael y mae'r perchennog yn ei osod ar rent i rywun nad yw'n dymuno bod yn berchen ar yr adeilad ond sydd am fwrw ymlaen â rhedeg

off the market with a view to its becoming a redevelopment prospect, either to produce better quality industrial property or, usually, to produce a mixed bag of flats, offices and what have you, it takes property off the market just when we want to see it brought onto the market and rented out at a reasonable price to someone who will create jobs.

busnes. Os tynnir rhagor o eiddo oddi ar y farchnad er mwyn ei droi'n lle y gellir ei ailddatblygu, un ai i gynhyrchu eiddo diwydiannol o well ansawdd neu, fel arfer, i gynhyrchu cymysgedd o fflatiau, swyddfeydd neu beth bynnag y bo, mae'n tynnu eiddo oddi ar y farchnad ar yr union adeg yr ydym am ei weld yn dod ar y farchnad ac yn cael ei osod am bris rhesymol i rywun a fydd yn creu swyddi.

Lesley Griffiths: Last month, a Wrexham company called Moneypenny received the Queen's award for innovation. Since it was founded in 2000, the company, which provides telephone answering and outsourced reception services to business has grown to employ 120 people locally. It has an annual turnover of £4 million and is still expanding. When I visited the company last year with my colleague the Deputy Minister for Regeneration, Leighton Andrews, we were told of the help and support that it had received from the Welsh Assembly Government in the early days, when it was most needed. Will you join me not only in congratulating the company on its well deserved award, but in assuring other budding Welsh entrepreneurs that this Government is on their side?

Lesley Griffiths: Y mis diwethaf, cafodd cwmni o Wrecsam o'r enw Moneypenny wobr y Frenhines am arloesi. Ers iddo gael ei sefydlu yn 2000, mae'r cwmni, sy'n darparu gwasanaeth ateb y ffôn a gwasanaeth derbynfa a drefnir drwy gontact allanol i fusnesau wedi tyfu nes ei fod yn cyflogi 120 o bobl yn lleol. Mae ganddo drosiant blynnyddol o £4 miliwn ac mae'n dal i ehangu. Pan ymwelais a'r cwmni y llynedd gyda'm cyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, Leighton Andrews, dywedwyd wrthym am yr help a'r cymorth yr oedd wedi'u cael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyddiau cynnar, pan oedd mwyaf o'u hangen. A wnewch ymuno â mi nid yn unig i longyfarch y cwmni ar ei wobr dra haeddiannol, ond i sicrhau egin entreprenoriaid eraill yng Nghymru fod y Llywodraeth hon ar eu hochr hwy?

The First Minister: It is a great example of Wrexham enterprise—and a great example of Welsh enterprise. It is similar to Buckles Investment Services Limited in Rhyl, which is an outstanding financial services administration company, recently bought by a South African company. It was a new-start company from 10 years ago, as was Moneypenny eight years ago. They have shown that, in a short time, you can create such a business—not in the traditional industries of manufacturing or tourism, but in financial services, albeit on an outsourced basis. It is a great example of what people in Wales can do if they put their minds to it.

Y Prif Weinidog: Mae'n enghraift wych o fenter Wrecsam—ac yn enghraift wych o fenter Cymru. Mae'n debyg i Buckles Investment Services Limited yn y Rhyl, sy'n gwmni gweinyddiaeth eithriadol ym maes gwasanaethau ariannol, a brynwyd yn ddiweddar gan gwmni o Dde Affrica. Yr oedd yn gwmni newydd a sefydlwyd 10 mlynedd yn ôl, fel y sefydlwyd Moneypenny wyth mlynedd yn ôl. Maent wedi dangos bod modd creu busnes o'r fath mewn ychydig o amser—nid yn niwydiannau traddodiadol gweithgynhyrchu neu dwristiaeth, ond yn y gwasanaethau ariannol, er bod hynny ar sail gweithio drwy gontactau allanol. Mae'n enghraift wych o'r hyn y gall pobl yng Nghymru ei wneud os rhoddant eu bryd ar hynny.

Alun Ffred Jones: Oherwydd cystadleuaeth oddi wrth archfarchnadoedd yn bennaf a datblygiadau ar ymylon trefi, mae llawer o drefi bychain a'r pentrefi mwy wedi gweld

Alun Ffred Jones: Due to competition from supermarkets, primarily, and out-of-town developments, many small towns and larger villages have seen a contraction in the high

crebachu yn sector manwerthu'r stryd fawr. Mae canol ein trefi yn dioddef oherwydd hynny. Pa gymorth y gall Llywodraeth y Cynulliad ei gynnig i adfywio'r trefi a'r pentrefi hyn?

Y Prif Weinidog: Clywais y neges honno'n blwmp ac yn blaen oddi wrth bobl yn y sector manwerthu yn nhref Caernarfon a oedd yn cwyno ynglŷn ag effaith siopau newydd wrth ymyl y dref, neu wrth ymyl canol y dref o leiaf. Mae'n hen ddadl. Ni chredaf y byddwn byth yn gallu gwneud heb yr archfarchnadoedd mawr sydd yn gwerthu nwyddau trwm ac sydd â chyfleusterau rhad ac am ddim i barcio'r car, sydd yn gyfleus pan fo gennych lwyth o siopa i'w wneud neu pan fyddwch am brynu oergell neu beth bynnag. Nid yw'r busnes hwnnw yn mynd yn ôl i ganol ein trefi, felly mae canol ein trefi'n gorfol manteisio ar gyfleoedd newydd a phedio ag ymdrechu'n ofer i gystadlu ym marchnad y setiau teledu mawr, yr oergelloedd newydd ac ati, achos y bydd gymaint yn rhwyddach prynu'r mathau hynny o nwyddau ar gyrrion trefi, gan fod modd parcio ceir yno yn rhad. Rhaid i'r sawl sydd yng nghanol y dref ddefnyddio tactegau holol wahanol i adfywio ein trefi.

Underground Telecoms Infrastructure

Q10 William Graham: Will the First Minister outline discussions that the Welsh Assembly Government has held with the UK Government on the survey of the UK's existing underground telecoms infrastructure and its potential use for fibre roll-out? OAQ(3)0971(FM)

The First Minister: We suggested a survey of this nature to Ofcom in December 2007. On 16 April, it announced its intention to conduct a survey, and we are very pleased about that. My officials—I should say Rhodri Glyn Thomas's officials—are meeting with Ofcom later this month. We hope to see early progress on that report.

William Graham: We will look forward to the results of the survey with great interest. It is a matter of great concern to people in the Newport area, and particularly in St Brides, where they have campaigned for broadband

street retail sector. Our town centres are suffering because of that. What assistance can the Assembly Government offer to regenerate these towns and villages?

The First Minister: I received that message loud and clear from people in the retail sector in the town of Caernarfon who were complaining about the impact of new, out-of-town shops or those on the outskirts of the town. It is an old argument. I do not believe that we will ever be able to do without the big supermarkets selling heavy goods that have free parking, which is convenient when you have a lot of shopping to do or you are buying a fridge or whatever. That business will not go back to our town centres, so our town centres have to take advantage of new opportunities and not vainly try to compete in the market providing large television sets, fridges and so on, because it will be so much easier to handle those sorts of goods in the out-of-town developments, as car parking is free. Businesses in town centres will have to use completely different tactics to regenerate our towns.

Y Seilwaith Telathrebu Tanddaearol

C10 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r trafodaethau a fu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU am arolwg seilwaith telathrebu tanddaearol y DU a phosiblwydd ei ddefnyddio ar gyfer cyflwyno ffeibr? OAQ(3)0971(FM)

Y Prif Weinidog: Awgrymasom arolwg o'r math hwn wrth Ofcom ym mis Rhagfyr 2007. Ar 16 Ebrill, cyhoeddodd ei fwriad i gynnal arolwg, ac yr ydym yn falch iawn o hynny. Mae fy swyddogion—dylwn ddweud swyddogion Rhodri Glyn Thomas—yn cwrdd ag Ofcom yn ddiweddarach y mis hwn. Gobeithiwn weld cynydd buan ar yr adroddiad hwnnw.

William Graham: Byddwn yn edrych ymlaen at ganlyniadau'r arolwg gyda diddordeb mawr. Mae'n peri pryder mawr i bobl yn ardal Casnewydd, yn enwedig yn Llansanffraid, lle y maent wedi ymgyrchu i

access for some time. However, that is still denied to them. I hope that what you suggest in this survey can be emphasised and they will have the prospect of receiving broadband.

The First Minister: I am sure that Rhodri Glyn Thomas will have heard your plea on behalf of the residents of St Brides, Wentloog for broadband services to be brought to a not-spot on the coastal belt between Cardiff and Newport. I am sorry, I have just been reminded that it is Ieuan Wyn Jones who is leading on the issue of broadband not-spots, not Rhodri Glyn. I apologise.

gael mynediad band eang ers tro. Fodd bynnag, nid yw hynny ar gael iddynt o hyd. Gobeithiaf y gellir pwysleisio'r hyn yr ydych yn ei awgrymu yn yr arolwg hwn ac y bydd posibilrwydd iddynt gael band eang

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn siŵr y bydd Rhodri Glyn Thomas wedi clywed eich ple ar ran trigolion Llansanffraid, Gwynllŵg am i wasanaethau band eang gael eu cyflwyno mewn ardal ddigyswllt ar y llain arfordirol rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Mae'n ddrwg gennyf, yr wyf newydd gael fy atgoffa mai Ieuan Wyn Jones sy'n arwain ar fater ardaloedd digyswllt o ran band eang, nid Rhodri Glyn. Mae'n ddrwg gennyf.

Pwynt o Drefn Point of Order

Gareth Jones: Pwynt o drefn. Mae'n ddrwg gennyf godi hwn fel pwynt o drefn gan nad ydwyf fel arfer yn dymuno anghytuno ag arweinydd yr wrthblaid, Nick Bourne.

Gareth Jones: Point of order. I regret having to raise this as a point of order, because I do not usually like to disagree with the leader of the opposition, Nick Bourne.

3.00 p.m.

Yr wyf yn siŵr nad oedd wedi bwriadu camarwain y Cynulliad o gwbl, ond pan oedd yn ymateb i un o sylwadau'r Prif Weinidog—ac, wrth gwrs, yr oedd yn gyffrous iawn gwrando ar y ddau ohonynt, fel arfer—yr wyf yn meddwl y bu i Nick gamarwain Aelodau ychydig bach. Os wyf wedi deall yn iawn, dywedodd fod y Ceidwadwyr wedi ennill seddau yng Nghonwy oddi wrth y Blaid Lafur, Plaid Cymru a'r annibynwyr. Nid yw'r Blaid Geidwadol wedi ennill sedd oddi ar Blaid Cymru yng Nghonwy.

I am sure that he did not intend to mislead the Assembly at all, but, when he was responding to one of the First Minister's comments earlier—and, of course, it was very exciting to listen to the two of them, as per usual—I think that Nick misled Members a little. If I have understood correctly, he said that the Conservatives had won seats in Conwy from the Labour Party, Plaid Cymru and the independents. The Conservative Party has not won a seat from Plaid Cymru in Conwy.

Nick Bourne: Further to that point of order, I am happy to apologise if Plaid Cymru lost a seat to the independents in Gareth's ward; I stand corrected.

Nick Bourne: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, yr wyf yn fodlon ymddiheuro os mai i'r annibynwyr y collodd Plaid Cymru sedd yn ward Gareth; derbyniaf imi gael fy nghywiro.

Gareth Jones: Diolch yn fawr iawn.

Gareth Jones: Thank you very much.

Y Llywydd: Gobeithiaf dyna'r peth olaf a glywn am yr etholiadau.

The Presiding Officer: I hope that that will be the last we will hear of the elections.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I have no changes to report to this week's planned Government business. Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Andrew R.T. Davies: Thank you very much, Leader of the House. Would it be possible to have an oral or written statement on the bluetongue vaccination programme? I appreciate that the issue has been raised several times in the Chamber, but, as of last week, as I understand it, vaccination doses were made available in England. There is considerable confusion in the agricultural community. I represent a region that is under restriction orders because of an outbreak in the Poole area. We are now going into the show season, as well as the key marketing season, and a lot of people are unsure of exactly how the regulations and the criteria for vaccination will affect them. A constituent rang me today to say that a representative of his auctioneers, McCartneys, had been on the phone to him, imploring him to make representations as best he could so that the situation in Wales could be clarified, and so that people would know exactly how Wales would respond to the vaccination programme. I would be very grateful if an oral or written statement could be made available, because this does not just affect a single area, but a large area of south-east Wales.

Carwyn Jones: I can say that we have secured an initial 2.5 million doses of vaccine for Wales, and we are consulting further on whether another 3 million doses should be made available. At the moment, as you will be aware, a protection zone is in place and, as a Government, we have made the Department for Environment, Food and Rural Affairs aware of the need to extend the protection zone westwards as quickly as possible, to enable vaccination to take place in Wales.

Bethan Jenkins: Would you join me in congratulating Beat—Beating Eating Disorders on receiving £800,000 from the Big Lottery Fund today to improve the

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Nid oes dim newidiadau imi sôn amdanynt ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, sydd ymhlið papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau ar ffurf electronig.

Andrew R.T. Davies: Diolch yn fawr iawn, Arweinydd y Tŷ. A fyddai'n bosibl cael datganiad llafar neu ysgrifenedig ynglŷn â'r rhaglen i frechu rhag clefyd y tafod glas? Sylweddolaf i'r mater gael ei godi amryw o weithiau yn y Siambwr, ond, ers yr wythnos diwethaf, yn ôl a ddeallaf, mae dosau o'r brechiad ar gael yn Lloegr. Mae cryn ddryswech yn y gymuned amaethyddol. Yr wyf yn cynrychioli rhanbarth sydd dan orchmynion cyfyngu oherwydd achosion yn ardal Poole. Mae tymor y sioeau ar ein gwarthaf yn awr, yn ogystal â'r tymor marchnata allweddol, ac mae llawer o bobl yn ansicr ynglŷn â sut yn union y bydd y rheoliadau a'r meinu prawf ar gyfer brechu'n effeithio arnynt. Cefais alwad ffôn gan un o'm hetholwyr heddiw'n dweud bod un o gynrychiolwyr ei arwerthwyr, McCartneys, wedi'i ffonio'n crefu arno i bwys o hynny a allai er mwyn cael eglurhad o ran sefyllfa yng Nghymru ac er mwyn i bobl wybod sut yn union y byddai'n Cymru ymateb i'r rhaglen brechu. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gellid darparu datganiad llafar neu ysgrifenedig, oherwydd nid dim ond ar un ardal y mae hyn yn effeithio, ond ar ran fawr o dde-ddwyrain Cymru.

Carwyn Jones: Gallaf ddweud ein bod wedi sicrhau 2.5 miliwn o ddosau i ddechrau o'r brechlyn i Gymru, ac yr ydym yn ymgynghori ymhellach ynghylch a ddylid darparu 3 miliwn arall o ddosau. Ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, mae part h gwarchod ar waith, ac, fel Llywodraeth, yr ydym wedi sicrhau bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn gwybod bod angen ymestyn y part h gwarchod tua'r gorllewin cyn gynted ag sy'n bosibl, er mwyn gallu brechu yng Nghymru.

Bethan Jenkins: A fyddch yn ymuno â mi i longyfarch Beat—Trechu Anhwylderau Bwyta ar gael £800,000 gan Gronfa'r Loteri Fawr heddiw i wella'r gwasanaethau a

provision of services in Wales to those with eating disorders? It is a massive boost for the treatment of eating disorders in Wales and for maintaining support mechanisms. Would you join me in supporting Beat?

Carwyn Jones: Any money that can be made available in this way to support those with eating disorders must be welcomed by all who are Assembly Members.

Nick Ramsay: I want to ask the Leader of the House about two issues that have been of concern to my constituents, and whether he could facilitate their being brought forward for discussion here. One is an issue for the Minister for Health and Social Services, to do with the drug enaxoparin—and please excuse my pronunciation. It is an anti-blood-clotting drug that is given to patients who have had hip replacements, for example. There seems to be concern that it is no longer available on the NHS to the same extent as it was in the past. Could we have a statement from the Minister for health on the availability of that drug?

Secondly, I would like to see a statement brought forward on the progress being made with the A465 and how the Minister sees it panning out, and I see that the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport is present. There are concerns in the Abergavenny area that a key aspect of the scheme—the flyover at the Gilwern roundabout—has been dropped and postponed until a later date. Many of my constituents supported the scheme and endured a lot of disruption over the past three years, thinking that, at the end of this stage of the construction of the road, the traffic problems in the area would be alleviated by the flyover. It now seems that that is not going ahead, and I would be grateful if the Leader of the House could arrange for statements to be made to the Chamber on those issues.

Carwyn Jones: Both of those matters could be raised in correspondence with the appropriate Ministers. Work on the A465 has been ongoing for some years and it is recognised as a major artery in and out of Wales.

ddarperir yng Nghymru ar gyfer y rhai sydd ag anhwylderau bwyta? Mae'n hwb anferth i drin anhwylderau bwyta yng Nghymru ac i gynnal mechanweithiau cymorth. A fydddech yn ymuno â mi i gefnogi Beat?

Carwyn Jones: Rhaid i bawb sy'n Aelodau o'r Cynulliad groesawu unrhyw arian y gellir ei ddarparu yn y modd hwn i gynorthwyo pobl ag anhwylderau bwyta.

Nick Ramsay: Yr wyf am ofyn i Arweinydd y Tŷ am ddau fater sydd wedi bod yn destun pryder i'm hetholwyr, a gofyn a allai hwyluso'u cyflwyno i'w trafod yma. Mater i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r naill, ac mae a wnelo â'r cyffur enaxoparin—maddeuwch imi am yr ynganiad. Cyffur i atal y gwaed rhag ceulo yw hwn a roddir i gleifion sydd wedi cael clun newydd, er enghraifft. Mae'n ymddangos bod pobl yn pryderu nad yw ar gael bellach dan y GIG i'r un graddau ag yr oedd yn y gorffennol. A allem gael datganiad gan y Gweinidog dros iechyd yngylch i ba raddau y mae'r cyffur hwnnw ar gael?

Yn ail, hoffwn gael datganiad ynglŷn â'r cynnydd o ran yr A465 a sut y mae'r Gweinidog yn gweld pethau'n gweithio, a gwelaf fod y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn bresennol. Mae pobl yn ardal y Fenni'n poeni na fydd un o agweddau allweddol y cynllun—y drosffordd wrth gylchdro Gilwern—yn mynd yn ei blaen a'i bod wedi'i gohirio tan rywbryd eto. Yr oedd llawer o'm hetholwyr yn cefnogi'r cynllun ac mae cryn darfu wedi bod arnynt dros y tair blynedd diwethaf, a hwythau'n meddwl, pan ddeuai'r cyfnod hwn o adeiladu'r ffordd i ben, y byddai problemau traffig yr ardal yn cael eu lliniaru gan y drosffordd. Erbyn hyn, mae'n ymddangos nad yw honno'n mynd rhagddi, a byddwn yn ddiolchgar petai Arweinydd y Tŷ yn gallu trefnu inni gael datganiadau ynglŷn â'r materion hynny yn y Siambr.

Carwyn Jones: Gellid codi'r ddau fater hynny drwy ohebu â'r Gweinidogion priodol. Mae'r gwaith ar yr A465 wedi bod ar y gweill ers sawl blwyddyn a chydubyddir ei bod yn un o'r prif wthiennau i mewn ac allan o Gymru.

Datganiad am Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Statement on the Wales Transport Strategy

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Mae'n dda gennyf gael y cyfre heddiw i gyflwyno 'Cysylltu'r Genedl', strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad. Ers i gytundeb 'Cymru'n Un' gael ei ffurfio, bûm yn edrych o'r newydd ar ein strategaeth drafnidiaeth genedlaethol, er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i'r heriau o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a hwyluso cysylltiadau trafnidiaeth i bob rhan o Gymru.

Mae hon yn ddogfen arwyddocaol iawn, un a fydd yn dylanwadu ar ddatblygu cysylltiadau ein gwlad am ddegawdau i ddod. Dyma'r tro cyntaf i ni gynhyrchu strategaeth drafnidiaeth gynhwysfawr fel rhan o'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

Yr wyf wedi amlinellu'r pum prif faes yr wyf yn benderfynol o sicrhau ein bod yn gallu gwneud cynnydd sylweddol ynddynt. Y cyntaf yw lleihau allyriadau carbon, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau Cymru werdd—ac ar y pwynt hwn, carwn danlinellu ein penderfyniad i gyrraedd y nod sydd yn nogfen 'Cymru'n Un' o dorri allyriadau o 3 y cant bob blwyddyn yn y meysydd datganoledig, a hynny erbyn 2011.

Yr ail yw cydgysylltu trafnidiaeth leol fel rhan o system wirioneddol integreiddiedig. Y trydydd yw gwella mynediad i gymunedau a safleoedd allweddol. Y pedwerydd yw sicrhau cysylltiadau da rhwng Cymru a gwledydd eraill, a'r olaf yw hybu diogelwch a sicrwydd.

Bydd pob un o'r meysydd hynny yn gofyn am newidiadau sylweddol yn ein ffordd o feddwl a gweithredu, a bydd yn golygu cydweithio'n agos â'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol ac â'n hawdurdodau lleol. Yr wyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad eang hyd yn hyn, ond dim ond megis dechrau y mae'r gwaith hwn.

Bydd cyrraedd ein prif darged o leihau allyriadau carbon yn golygu ein bod yn llai dibynnol ar ein ceir, ac yn benodol y gyrwyr

The Deputy Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I am pleased to have the opportunity to present to you 'Connecting the Nation', the Assembly Government's transport strategy. Since the formation of the 'One Wales' agreement, I have been looking afresh at our transport strategy to ensure that we meet the challenges of environmental sustainability and facilitating transport links to all parts of Wales.

This is a highly significant document, and one that will influence the development of our country's communications network for decades to come. This is the first time that we have produced a comprehensive transport strategy in line with our responsibilities under the Transport (Wales) Act 2006.

I have set out the five key areas in which I am determined to ensure that we make significant progress. The first is cutting carbon emissions, which is vital to move towards a greener Wales—and on that point, I would like to stress our determination to meet the key objective in the 'One Wales' document of securing an annual 3 per cent reduction in emissions in devolved areas by 2011.

The second is joining up local transport as part of a genuinely integrated system. The third is improving access to key communities and settlements. The fourth is enhancing our international connectivity, and the last is promoting safety and security.

Each of these areas will demand significant shifts in our ways of thinking and operating, and will mean close co-operation with the regional transport consortia and with our local authorities. I am grateful to all those who have contributed to the extensive consultation to date, but that is only the start of this work.

Achieving our key carbon reduction target will mean reducing our dependence on our cars, and particularly those drivers who travel

hynny sy'n teithio ar eu pennau eu hunain. Yn ei dro, bydd hyn yn golygu gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn sylweddol a chynnig mwy o gyfleoedd i gerdded a beicio yn ddiogel.

Bydd cydgysylltu trafnidiaeth leol yn dod â manteision amgylcheddol yn ei sgîl, ond y nod hefyd yw sicrhau manteision cymdeithasol o ran gwella mynediad i ysgolion, ysbytai a chael pobl i ddatblygu ffordd iachach o fyw yn gyffredinol. Er enghraifft, yr ydym yn bwriadu defnyddio'r pwerau a geir yn y Mesur Trafnidiaeth Leol cyfredol i ddarparu ar gyfer partneriaethau a chontractau bysiau gwell.

Wrth edrych i'r dyfodol, rhaid sicrhau bod datblygiadau newydd ar safleoedd lle gellir cael mynediad iddynt ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu fod y mynediad yn rhan o'r datblygiad ei hun. Er hynny, mae gennym batrwm hanesyddol o ddatblygu—ac o heriau daearyddol—a fydd yn golygu gweithio o fewn y cynlluniau gofodol i wella'r effaith o ran carbon ar fynediad i'r prif anheddu presennol fel safleoedd.

Mae hefyd yn fwriad gennyf wella rhwydwaith bysiau TrawsCambria Cymru gyfan, a chyflwyno gwasanaeth rheilffordd cyflym rhwng y gogledd a'r de. Mae'r Llywodraeth hon a'r strategaeth drafnidiaeth yn eangfrydig. Mae prif lwybrau Ewrop, fel yr un rhwng Delyn, Caergybi a thu hwnt, yn pasio drwy Gymru. Yr wyf am sicrhau gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwell er mwyn gwella'r llwybrau hynny, a gweld syniadau newydd yn cael eu hystyried, megis nwyddau trwm yn cael eu cludo ar longau ar deithiau byr, yn hytrach na chael eu cludo ar y ffyrdd rhwng porthladdoedd Cymru a chyfandir Ewrop.

Yn olaf, rhaid sicrhau bod gan ein systemau trafnidiaeth y lefelau uchaf o ddiogelwch a sicrwydd. Er y bu gostyngiad yn nifer y rhan fwyaf o ddamweiniau yn y blynnyddoedd diwethaf, nid da lle gellir gwell. Mae mentrau fel parthau 20mya, ceisio annog seddau i ddau yn hytrach na thri disgybl ar fysiau ysgol, a sicrhau bod gorsafoedd trenau a bysiau yn hygyrch ac wedi'u goleuo'n dda oll yn rhan o'r weledigaeth hon. Drwy gydweithio â'n partneriaid yn y pum maes

on their own. In turn, that will require significant improvements to our public transport, as well as offering more opportunities for people to walk and cycle safely.

Joining up local transport will result in environmental benefits, but the aim is also to ensure social benefits including improving access to schools, hospitals, and encouraging people to live healthier lifestyles more generally. For example, we intend to use the powers contained in the current Local Transport Bill to provide better quality bus partnerships and contracts.

In looking to the future, we must ensure that new developments are built in locations that can be easily accessed on foot, by cycle, or on public transport, or that the access is part of the development itself. However, we have a historic pattern of development—and of geographical challenges—which will mean working within the spatial plans to improve the carbon impact of access to existing key settlements and sites.

It is also my intention to improve the all-Wales TrawsCambria bus network, and to introduce an express rail service between north and south Wales. Both this Government and this transport strategy are outward-looking. Key European routes, such as that between Dublin, Holyhead and beyond, pass through Wales. I want to see improved public transport services in order to improve these routes, and I want to see new ideas developed, such as heavy goods being taken by sea on short journeys, rather than being transported on roads between Welsh ports and the continent of Europe.

Finally, we must ensure that our transport systems have the highest levels of safety and security. Although there has been a reduction in the number of accidents in recent years, there is still room for improvement. Initiatives such as 20mph zones, encouraging seats for two rather than three pupils on school buses, and ensuring that train and bus services are accessible and well lit all form part of that vision. By working with our partners on these five key areas, we will

allweddol hyn, byddwn yn gweddnewid trafnidiaeth yn Nghymru yn ystod y degawdau i ddod.

3.10 p.m.

Am gyfnod rhy hir, bu'r pwyslais economaidd ym maes cynllunio trafnidiaeth ar greu cyfoeth yn unig, a hynny ar gyfer nifer cymharol fach. Bydd y strategaeth hon yn rhoi ystyriaeth lawn i'r elfennau amgylcheddol a chymdeithasol hefyd. Mae trafnidiaeth yn chwarae rôl hanfodol wrth hybu ffyniant economaidd cynaliadwy ac wrth sicrhau'r ansawdd bywyd yr ydym yn ei ddymuno i bawb.

Heb drafnidiaeth a chysylltiadau, ni all marchnadoedd weithredu na busnesau gystadlu. Er hynny, os nad ydym yn llwyddo i'w wneud yn iawn, mae diffyg trafnidiaeth, yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus, yn rhwystr difrifol i'r sawl sy'n chwilio am swyddi. Mae hefyd yn golygu nad oes llawer o wasanaethau allweddol ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd llai ffyniannus lle nad oes gan lawer o bobl geir.

Mae'r ffordd yr ydym yn datblygu ein rhwydwaith o gysylltiadau hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth leihau'r pwysau ar yr amgylchedd, ac wrth gyflawni'n cyfrifoldeb o sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae 'Cysylltu'r Genedl' yn ffordd o ysgogi dull newydd o ymdrin â thrafnidiaeth yng Nghymru, dull sy'n cydbwyso gofynion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gobeithiaf y bydd Aelodau ac eraill yn fy nghefnogi wrth inni wireddu'r uchelgeisiau a amlinellir yn 'Cysylltu'r Genedl' ac wrth inni ddechrau ar y gwaith hollbwysig o wireddu'r weledigaeth.

Yr wyf yn arbennig o awyddus i barhau i dderbyn ymrwymiad llawn ein partneriaid mewn llywodraeth leol, y gymuned fusnes a darparwyr gwasanaethau trafnidiaeth wrth gyflawni ein hamcanion. Y cam nesaf fydd datblygu cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, a gweithio gyda'n partneriaid ar y consortia trafnidiaeth rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol. Wrth fynd ati i gyflawni'r gwaith hwn, yr wyf yn addo mai cynaliadwyedd, lleihau allyriadau carbon, ac adeiladu cenedl sydd â

transform transport in Wales over the decades to come.

For too long, the economic imperative in the field of transport planning has been about wealth creation only, and often for the comparatively few. This strategy will take full account of the environmental and social considerations, too. Transport plays a crucial role in promoting sustainable economic prosperity and in securing the quality of life that we aspire to for everyone.

Without transport and communications, markets cannot function, and businesses cannot compete. However, if we get it wrong, a lack of access to transport, especially public transport, will be a serious barrier to those who are seeking jobs. It will also inhibit access to key services, particularly in less prosperous areas where car ownership rates are low.

The way in which we develop our communications network also plays an important part in minimising the demands placed on the environment, and in meeting our responsibility to ensure sustainable development. 'Connecting the Nation' provides a launch pad for a new approach to transport in Wales, an approach that balances economic, social and environmental demands. I hope that Members and others will support me in fulfilling the ambitions laid out in 'Connecting the Nation' as we embark on the crucial move from vision to delivery.

I am especially keen to retain the full commitment of our partners in local government, the business community and transport service providers in ensuring the delivery of our objectives. The next stage will be to develop a national transport plan, and to work with the regional transport consortia partners on developing regional transport plans. In moving forward to achieve all this work, I promise that sustainability, reducing carbon emissions, and building a nation that has better and more reliable transport links

chysylltiadau trafnidiaeth gwell a mwy dibynadwy fydd ein harwyddeiriau.

Andrew R.T. Davies: Thank you for your statement on the Wales transport strategy, Deputy First Minister. I spent the weekend in Dublin, and I saw how overdevelopment in the transport field can exacerbate an already difficult situation: the M50 around Dublin shows that it is not always the case that you can build your way out of a problem. I last visited Dublin some 12 years ago and seeing the great strides made since that time leads me to believe that we need to plan ahead. I hope that the Wales transport strategy that you have launched today offers some foresight of what could be achieved in Wales.

It shows how far we have fallen behind our competitors in other countries, particularly in trying to join up the nation, which was highlighted as a key goal of 'One Wales'. As I have gone around Wales, especially since taking on the shadow transport brief, I have seen that plenty of people feel disconnected, because of their inability to get around Wales. They no longer feel a part of the country. Sadly, a lot of the rhetoric about your intentions—and I have read the strategy only briefly, because it only just landed on my desk—has not yet been borne out in practice.

You talked in your statement about sustainability, and making greater use of the public bus network would be a key driver of the sustainability agenda, and yet your Government has got rid of the bus service operators' grant, without offering anything in its place other than a review. The bus service operators have talked to me and highlighted the financial consequences of this for services. What you have said in your statement today does not tally with what you have achieved to date.

In the run-up to the local government elections, I found the use of buses a critical issue, as people want to be able to get around.

will be our watchwords.

Andrew R.T. Davies: Diolch i chi am eich datganiad ynglŷn â strategaeth drafnidiaeth Cymru, Ddirprwy Brif Weinidog. Treuliais y penwythnos yn Nulyn, gan weld sut y gall gorddabtlygu ym maes trafnidiaeth waethygus sefyllfa sydd eisoes yn anodd: dengys yr M50 o gwmpas Dulyn nad yw bob tro'n wir bod modd i chi ddatrys problem drwy adeiladu. Y tro diwethaf imi ymweld â Dulyn oedd ryw 12 mlynedd yn ôl ac mae gweld y camau breision a wnaethpwyd ers hynny'n peri imi gredus bod angen inni gynllunio ar gyfer y dyfodol. Gobeithio y bydd y strategaeth drafnidiaeth yr ydych wedi'i lansio heddiw ar gyfer Cymru'n cynnig rhywfaint o oleuni ar yr hyn y gellid ei gyflawni yng Nghymru.

Mae'n dangos i ba raddau yr ydym ar ei hôl hi o'n cymharu â gwledydd eraill sy'n cystadlu â ni, yn enwedig o ran ceisio uno'r genedl, sef un o'r amcanion allweddol y tynnwyd sylw ato yn 'Cymru'n Un'. Wrth imi deithio o gwmpas Cymru, yn enwedig ers imi ysgwyddo briff Gweinidog yr wrthblaid dros drafnidiaeth, yr wyf wedi gweld bod llawer o bobl yn teimlo'u bod wedi'u datgysylltu, oherwydd na allant deithio o gwmpas Cymru. Nid ydynt yn teimlo'n rhan o'r wlad rhagor. Yn anffodus, nid yw llawer o'r rhethreg ynglŷn â'ch bwriadau—ac nid wyf ond wedi darllen y strategaeth yn fras, oherwydd newydd lanio ar fy nesg y mae—wedi'i gwreddu ar lefel ymarferol eto.

Soniasoch yn eich datganiad am gynaliadwyedd, ac y byddai defnyddio rhagor ar rwydwaith y bysiau cyhoeddus yn un o'r elfennau allweddol yn agenda cynaliadwyedd. Eto i gyd, mae eich Llywodraeth wedi cael gwared ar y grant i weithredwyr gwasanaethau bysiau, heb gynnig dim yn ei le ac eithrio adolygiad. Mae gweithredwyr y gwasanaethau bysiau wedi siarad â mi gan dynnu sylw at y canlyniadau ariannol a gaiff hyn i wasanaethau. Nid yw'r hyn yr ydych wedi'i ddweud yn eich datganiad heddiw'n gyson â'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

Yn ystod y cyfnod cyn etholiadau llywodraeth leol, gwelais fod defnyddio bysiau'n fater hollbwysig, gan fod pobl am

The Heath hospital is an example of key installations planning to be serviced by public transport services. Cardiff Gate is another prime example. The rhetoric has not been turned into reality for many people, and so I hope that, when you bring all your strands together, you will be more successful in your transport strategy than your predecessors have been to date.

We are still waiting to hear about the Sustainable Travel Towns initiative; it has been talked about, but has not been delivered. I hope that you will give us an indication of when you are likely to bring that forward, because surely that is a key plank in the delivery of a sustainable, joined-up transport infrastructure in Wales.

We have a ream of other issues that could be addressed through a well funded and well thought through plan. The railways, for example, are a real issue. There is plenty of aspiration to deliver a well functioning, well serviced railway. However, with regard to what the Government proposes to deliver in funding, sadly, the rolling stock to meet those aspirations will not be deliverable; at least, that is my understanding. Perhaps you could tell us how you intend to meet the aspiration of the Wales transport strategy over the next four years with the resources that you have put in so far.

We welcome the emphasis on safety, because that is a crucial component, especially with the appalling road network that we have in Wales. This is particularly true outside south-east Wales. The poor state of many of these roads results in a lot of misery for many families and communities. We have had a debate in the Chamber on the funding cut by the Government as part of the road safety budget. In your statement, you talk about this as being your key priority in the transport strategy, but you have cut it. How do you reconcile the two? It is one thing to say something in the Chamber, but another to deliver it on the ground.

allu symud o le i le. Mae ysbyty'r Waun yn enghraifft o sefydliad allweddol y bwriedir i drafnidiaeth gyhoeddus ei wasanaethu. Enghraifft nodedig arall yw Porth Caerdydd. Nid yw'r rhethreg wedi'i gwireddu i lawer o bobl, ac felly, gobeithiaf, pan ddewch â'ch holl llynnybau ynghyd, y byddwch yn fwy llwyddiannus yn eich strategaeth drafnidiaeth nag y mae eich rhagflaenwyr wedi bod hyd yn hyn.

Yr ydym yn dal i ddisgwyl clywed am fenter y Trefi Teithio Cynaliadwy; mae sôn wedi bod amdani, ond nid yw wedi'i gwireddu eto. Gobeithiaf y rhowch awgrym inni ynglŷn â pha bryd yr ydych yn debygol o gyflwyno hynny, oherwydd y mae hynny, onid yw, yn un o elfennau allweddol darparu sealwaith trafnidiaeth cynaliadwy, cydgysylltiedig yng Nghymru.

Mae gennym lu o broblemau eraill y gellid mynd i'r afael â hwy drwy gyfrwng cyllun sy'n cael ei ariannu'n dda ac sydd wedi'i ystyried yn ofalus. Mae'r rheilffyrdd, er enghraifft, yn broblem wirioneddol. Ceir digon o ddyhead i ddarparu rheilffordd sy'n gweithio'n dda ac sy'n cael ei gwasanaethu'n dda. Fodd bynnag, ac ystyried yr hyn y mae'r Llywodraeth yn cynnig ei ddarparu o ran cyllid, yn anffodus ni fydd modd darparu'r cerbydau i ddiwallu'r dyheadau hynny; o leiaf, felly yr wyf yn deall y sefyllfa. Efallai y gallech ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu cyflawni'r uchelgais yn strategaeth drafnidiaeth Cymru dros y pedair blynedd nesaf gyda'r adnoddau yr ydych wedi'u rhoi at hynny hyd yn hyn.

Yr ydym yn croesawu'r pwyslais ar ddiogelwch, oherwydd bod hynny'n nodwedd hanfodol, yn enwedig yn sgîl y rhwydwaith ffyrdd gwarthus sydd gennym yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o wir y tu allan i'r de ddwyrain. Mae cyflwr gwael nifer o'r ffyrdd hyn yn arwain at lawer o drallod i lawer o deuluoedd a chymunedau. Yr ydym wedi cael dadl yn y Siambra am y toriad mewn cyllid gan y Llywodraeth fel rhan o'r gyllideb diogelwch ar y ffyrdd. Yn eich datganiad, yr ydych yn sôn am hyn fel eich prif flaenoriaeth yn y strategaeth drafnidiaeth, ond yr ydych wedi'i dorri. Sut yr ydych yn cysoni'r dda beth? Un peth yw dweud rhywbeth yn y Siambra, ond mater arall yw rhoi hynny ar waith ar lawr gwlad.

I note one other thing with sadness. My colleagues promote the A40 into west Wales, particularly Milford Haven and Fishguard, but you make no note of those important ports and the role that they will play should you reach your aspiration in this document for moving freight via ports. You talk only of Holyhead in your own constituency. Why have you neglected west Wales in this statement? Is it an oversight? Could you correct that, please, Deputy First Minister by responding to my comments this afternoon?

We wish the strategy well, because I do not think that anyone should hold back on trying to improve communications and the ability to move around our country. However, there are many disparities between what is said in the Chamber and what is delivered on the ground. Minister, it will fall to you—now that these strategies are starting to come out—to ensure that they do not just become fish and chip wrappers, but achieve a meaningful transport strategy so that Wales can compete with other countries.

The Deputy First Minister: I will, perhaps, deal with one of your final points about the A40 and the importance of east-west routes in particular, whether in north or south Wales. I know that you will not yet have had an opportunity to read the document in detail, but chapter 4 in particular talks about enhancing international connectivity and notes three main arteries. We do not distinguish between these in terms of priority, although, as you said, only one was mentioned in the statement. These three are: in north Wales, the Dublin-Holyhead-Chester road and rail arteries; in mid Wales, the Aberystwyth to Birmingham road and rail arteries; and, in south Wales, the Ireland-Pembrokeshire-Swansea-Cardiff to Bristol and London road and rail arteries. These have equal priority in terms of enhancing international connectivity. There is, therefore, no difference in the emphasis that is put on any of these routes.

Returning to what you referred to as the

Yr wyf yn nodi un peth arall gyda thristwch. Mae fy nghyd-Aelodau yn hyrwyddo'r A40 i'r gorllewin, yn enwedig Aberdaugleddau ac Abergwaun, ond nid ydych yn sôn am y porthladdoedd pwysig hynny a'r rôl a fydd ganddynt os byddwch yn cyflawni eich dyhead yn y ddogfen hon ar gyfer symud cludo nwyddau drwy borthladdoedd. Dim ond am Gaerybi yn eich etholaeth eich hun yr ydych yn sôn. Pam yr ydych wedi esgeuluso'r gorllewin yn y datganiad hwn? Ai amryfusedd ydyw? A allech gywiros hynny, os gwelwch yn dda, Ddirprwy Brif Weinidog drwy ymateb i'm sylwadau y prynhawn yma?

Yr ydym yn dymuno'r gorau i'r strategaeth, oherwydd nid wyf yn meddwl y dylai neb fod yn gyndyn o geisio gwella cysylltiadau a'r gallu i symud o amgylch ein gwlad. Fodd bynnag, ceir nifer o wahaniaethau rhwng yr hyn a ddywedir yn y Siambra'r hyn a ddarperir ar lawr gwlad. Weinidog, chi fydd yn gyfrifol—gan fod y strategaethau hyn bellach yn dechrau dod allan—am sicrhau nad papur i'w roi o amgylch pysgod a sglodion fyddant, ond eu bod yn sicrhau strategaeth drafnidiaeth ystyrlon er mwyn i Gymru allu cystadlu â gwledydd eraill.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Efallai y deliaf ag un o'ch pwyntiau olaf ynghylch yr A40 a phwysigrwydd llwybrau o'r dwyrain i'r gorllewin yn benodol, boed hynny yn y gogledd neu yn y de. Gwn nad ydych wedi cael cyfle eto i ddarllen y ddogfen y fanwl, ond mae pennod 4 yn benodol yn sôn am wella'r cysylltiadau rhwngwladol ac yn nodi tair prif wythien. Nid ydym yn gwahaniaethu rhwng y rhain o ran blaenoriaeth, er mai dim ond un a grybwyllywyd yn y datganiad, fel y dywedasoch. Dyma'r tair: yn y gogledd, y ffordd a'r rheilffordd rhwng Dulyn, Caergybi a Chaer; yn y canolbarth, y ffordd a'r rheilffordd rhwng Aberystwyth a Birmingham; ac, yn y de, y ffordd a'r rheilffordd rhwng Iwerddon, sir Benfro, Abertawe, Caerdydd a Bryste a Llundain. Mae'r un flaenoriaeth i'r rhain o ran gwella'r cysylltiadau rhwngwladol. Felly, nid oes gwahaniaeth yn y pwyslais a roddir ar unrhyw un o'r llwybrau hyn.

A dychwelyd at y diffyg cysylltiad, meddech

disconnection between people travelling around Wales—that they do not feel that there are good transport links—this is something that we are seeking to address. You will also find that in the report. We currently have only the intra-Wales air service. There are now direct connections between Holyhead and Cardiff, as we want to improve the rail service between the north and the south. We also want to ensure that there are other improvements in terms of road links. However, today, we are talking about the strategy and not, perhaps, the detail.

I was not sure what you were saying about the public transport issue. I assume that you will support the proposal to enhance public transport, as we have given ourselves a challenging target in relation to the reduction of carbon dioxide emissions and carbon-equivalent emissions. Transport has to play its part, and, therefore, public transport will be very much a key to delivering that. Our purpose in reviewing the BSOG is not to reduce the availability of public transport, but to enhance it. The review is predicated on the basis that we want to see more patronage of our bus services.

You also made the point about integration, which is an important part of what we are trying to achieve—making it clear that you have proper connectivity between modes of transport and, in particular, improving connectivity between buses and trains.

3.20 p.m.

We will be able to do that, in part, through the new powers that we are getting, and possibly through the new powers that are also being promoted by Huw Lewis. If we look at making sure that we have better integration, it will go a long way to meeting our aspirations.

Your point about railways is interesting, because there has been considerable investment in railways. We have had the new service from Ebbw Vale, which is popular; we have also invested heavily in the Aberystwyth to Shrewsbury infrastructure;

chi, rhwng pobl sy'n teithio o amgylch Cymru—nad ydynt yn teimlo bod cysylltiadau trafnidiaeth da—mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ceisio rhoi sylw iddo. Gwelwch hynny yn yr adroddiad hefyd. Ar hyn o bryd, dim ond y gwasanaeth awyr oddi mewn i Gymru sydd gennym. Erbyn hyn mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng Caergybi a Chaerdydd, ac mae arnom eisiau gwella'r gwasanaeth rheilffordd rhwng y gogledd a'r de. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau bod gwelliannau eraill o ran cysylltiadau ffyrdd. Fodd bynnag, heddiw yr ydym yn siarad am y strategaeth ac nid y manylion efallai.

Nid wyf yn siŵr beth yr oeddech yn ei ddweud ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus. Yr wyf yn tybio y byddwch yn cefnogi'r cynnig i wella trafnidiaeth gyhoeddus, gan ein bod wedi rhoi targed heriol i ni'n hunain yng nghyswllt lleihau allyriadau carbon deuocsiad ac allyriadau sy'n cyfateb i carbon. Rhaid i drafnidiaeth chwarae ei rhan, ac, felly bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol ar gyfer cyflawni hynny. Nid ein nod wrth adolygu'r grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau yw lleihau faint o drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael, ond gwella hynny. Sail yr adolygiad yw bod arnom eisiau i ragor o bobl ddefnyddio ein gwasanaethau bysiau.

Gwnaethpwyd pwynt gennych hefyd ynghylch integreiddio, sydd yn rhan bwysig iawn o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni—ei gwneud yn glir bod gennych gysylltiadau iawn rhwng dulliau gwahanol o ran trafnidiaeth ac, yn benodol, gwella'r cysylltiadau rhwng bysiau a threnau.

Byddwn yn gallu gwneud hynny, yn rhannol, drwy'r pwerau newydd yr ydym yn eu cael, ac o bosibl drwy'r pwerau newydd sydd hefyd yn cael eu hyrwyddo gan Huw Lewis. Os ceisiwn sicrhau bod gennym well integreiddio, bydd yn cymryd camau breision at ddiwallu ein dyheadau.

Mae eich pwynt ynghylch rheilffyrdd yn ddiddorol, oherwydd y mae buddsoddi sylweddol wedi bod mewn rheilffyrdd. Yr ydym wedi cael y gwasanaeth newydd o Lynebw, sy'n boblogaidd; yr ydym hefyd wedi buddsoddi'n drwm yn y seilwaith

and we have also seen new rolling stock introduced on the Valley Lines. There is the issue of the current leasing arrangements between us, Arriva Trains and First Great Western. However, where we see an opportunity, we will want to ensure that the rolling stock currently leased will come back into service, for which we need to give three months' notice. We will need to consider that according to demand.

It seems that you were asking: this is now the strategy; where is the delivery? What follows the strategy is the transport plan, which will set out the detail of how we need to implement this strategy. We will also consult on that but the important other aspect of that is that there will now be, for the first time, regional transport consortia looking at the priorities within those areas. I have no doubt that, as we move forward, there will be a greater emphasis on improving our public transport, which will require considerable effort by the Government to meet the aspirations, bearing in mind that, historically, governments have been building roads and that we need to have a better balance in the future. It is clear that if we are to reduce our dependency on the car and on road travel, we need to invest more in public transport.

Lesley Griffiths: I am pleased that you have set out five key objectives, all of which are vitally important to ensuring that Wales has a transport strategy fit for the twenty-first century, and ensuring that we connect the nation by linking all four corners of Wales. I am particularly pleased to see the environmental considerations of this strategy at the centre of its ethos. With Wales being a relatively sparsely populated country, discounting south-east and north-east Wales, these aspirations will be particularly challenging. However, the Government's commitment in this strategy today will be widely welcomed. It is also evident that there is joined-up thinking happening in Government.

Last week's announcement concerning the proposed Learner Travel (Wales) Measure is

rhwng Aberystwyth ac Amwythig; ac yr ydym hefyd wedi gweld cerbydau newydd yn cael eu cyflwyno ar Reilffyrdd y Cymoedd. Mater arall yw'r trefniadau lesio ar hyn o bryd rhngom ni, Trenau Arriva a First Great Western. Fodd bynnag, lle y gwelwn gyfle, byddwn am sicrhau bod y cerbydau hynny sy'n cael eu lesio ar hyn o bryd yn dod yn rhan o'r gwasanaeth eto, ac mae angen i ni roi tri mis o rybudd ar gyfer hynny. Bydd angen inni ystyried hynny yn ôl y galw.

Mae'n ymddangos eich bod yn gofyn: dyma'r strategaeth erbyn hyn; ble y mae'r sôn am weithredu? Yr hyn a fydd yn dilyn y strategaeth fydd y cynllun trafnidiaeth, a fydd yn amlinellu'r manylion o ran sut y mae angen inni roi'r strategaeth hon ar waith. Byddwn hefyd yn ymgynghori ynghylch hynny ond yr agwedd bwysig arall ar hynny yw y bydd bellach, am y tro cyntaf, gonsortia trafnidiaeth rhanbarthol yn edrych ar y blaenoriaethau yn yr ardaloedd hynny. Nid oes gennyf amheuaeth, wrth inni symud ymlaen, na fydd mwy o bwyslais ar wella ein trafnidiaeth gyhoeddus, a fydd yn gofyn am ymdrech sylweddol gan y Llywodraeth i ddiwallu'r dyheadau hynny, a chofio, yn hanesyddol, fod llywodraethau wedi bod yn adeiladu ffyrdd a bod angen inni gael gwell cydbwysedd yn y dyfodol. Mae'n amlwg os ydym am leihau ein dibyniaeth ar y car ac ar deithio ar ffyrdd, fod angen inni fuddsoddi rhagor mewn trafnidiaeth gyhoeddus.

Lesley Griffiths: Yr wyf yn falch eich bod wedi gosod pum amcan allweddol, sydd i gyd yn hanfodol bwysig i sicrhau bod gan Gymru strategaeth drafnidiaeth sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a sicrhau ein bod yn cysylltu'r wlad drwy gysylltu pob cwr o Gymru. Yr wyf yn arbennig o falch o weld ystyriaethau amgylcheddol y strategaeth hon wrth wraidd ei hethos. Gan fod Cymru yn wlad sydd â phoblogaeth gymharol denau, heb ystyried y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain, bydd y dyheadau hyn yn heriol iawn. Fodd bynnag, bydd croeso eang i ymrwymiad y Llywodraeth yn y strategaeth hon heddiw. Mae'n amlwg hefyd fod meddwl cydgysylltiedig ar waith yn y Llywodraeth.

Mae'r cyhoeddiad yr wythnos diwethaf ynghylch y Mesur arfaethedig ar Deithio gan

one such example by which the strategy is being backed up with legislation. This strategy is not just another document for discussion or a pledge for transport safety. The Government is patently determined to back up its ideas with legislation and there is real meat on this particular policy bone that is to be greatly welcomed.

This strategy is comprehensive and covers all the main touchstones that we have all debated in the Chamber over the past 12 months and in preceding years. I shall therefore look forward to hearing, in due course, a positive response from opposition parties to this strategy.

I am particularly pleased to hear that you will be working with local government, regional transport consortia, the business community, and transport service operators, in order to make sure that this strategy is delivered.

However, when larger road schemes are considered by the Government, would you give assurances that outcomes and recommendations of health impact assessments are implemented on identified routes? I know that my colleague, Carl Sargeant, has asked for this in relation to the A494. I raise this issue today because, in future, for similarly contentious routes, the Government could save itself a lot of time and effort by adhering to the recommendations of health impact assessments.

The Deputy First Minister: Thank you, Lesley, for the general welcome for the strategy. You touched upon one important aspect, which is that many parts of Wales are sparsely populated and therefore there is currently a high dependence on cars. The challenge that we face is to reduce car travel, but recognising that, in many parts of Wales, the car is an essential mode of transport. Therefore, meeting our environmental objectives are particularly challenging, given that we will be using transport as one of the policy areas to meet our objectives.

However, one thing that we must recognise is that environmental considerations have to be

Ddysgwyr (Cymru) yn enghraifft o'r fath lle yr ategir y strategaeth gan ddeddfwriaeth. Nid dogfen arall ar gyfer ei thrafod nac addewid ar gyfer diogelwch trafnidiaeth yw'r ddogfen hon. Yn amlwg mae'r Llywodraeth yn benderfynol o ategu ei syniadau â deddfwriaeth ac mae cig go iawn ar yr asgwrn polisi penodol hwn sydd i'w groesawu'n fawr iawn.

Mae'r strategaeth hon yn gynhwysfawr ac yn trafod yr holl feini prawf yr ydym wedi'u trafod yn y Siambra dros y 12 mis diwethaf ac mewn blynnyddoedd cyn hynny. Byddaf felly'n edrych ymlaen at glywed ymateb cadarnhaol i'r strategaeth hon gan y gwrthbleidiau maes o law.

Yr wyf yn arbennig o falch o glywed y byddwch yn gweithio gyda llywodraeth leol, y consortia trafnidiaeth rhanbarthol, y gymuned fusnes, a gweithredwyr gwasanaethau trafnidiaeth, er mwyn sicrhau y caiff y strategaeth hon ei rhoi ar waith.

Fodd bynnag, pan fydd y Llywodraeth yn ystyried cynlluniau ffyrdd mwy, a fyddch yn fy sicrhau y caiff canlyniadau ac argymhellion asesiadau effaith ar iechyd eu gweithredu ar lwybrau a nodir? Yr wyf yn gwybod bod fy nghyd-Aelod, Carl Sargeant, wedi gofyn am hyn yng nghyswllt yr A494. Yr wyf yn codi'r mater hwn heddiw oherwydd, yn y dyfodol, ar gyfer llwybrau dadleuol tebyg, gallai'r Llywodraeth arbed llawer o amser ac ymdrech drwy lynu wrth argymhellion asesiadau effaith ar iechyd.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Diolch, Lesley, am y croeso cyffredinol i'r strategaeth. Soniasoch am un agwedd bwysig, sef bod y boblogaeth yn denau mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru ac felly ar hyn o bryd mae cryn ddibyniaeth ar geir. Lleihau teithio mewn ceir yw'r her a wynebwn, ond gan gydnabod, mewn nifer o rannau o Gymru, fod y car yn ffordd hanfodol o deithio. Felly, mae diwallu ein hamcanion amgylcheddol yn arbennig o anodd, o ystyried y byddwn yn defnyddio trafnidiaeth fel un o'r meysydd polisi i gyflawni ein hamcanion.

Fodd bynnag, un peth y mae'n rhaid inni ei gydnabod yw bod yn rhaid i ystyriaethau

at the heart of our transport strategy. The transport strategy must now take account of the fact that the Government's objectives, as set out in 'One Wales', are very challenging in terms of those environmental considerations. That has come into the strategy post-July 2007.

You also make it clear that this is a comprehensive strategy, and that we need to work with other stakeholders, and in particular with local government. Many of the strategies will often be delivered by local authorities. They will either do that through their own initiative, or, increasingly, through the regional transport consortia. You made a point about health impact assessments; I may be making a further announcement on that issue in due course. I listened carefully to the points that were made on the A494. I will need to reflect on those before making a further statement.

Kirsty Williams: Thank you, Minister, for your statement this afternoon. I welcome the goals outlined at the front of the document, especially the new emphasis—and I acknowledge that it is new—on reducing carbon emissions through changes in transport policy, the acknowledgement that we need to change travel behaviour in many parts of this country, and that, to do that, we need to improve public transport.

However, as Andrew R.T. Davies stated, these high-level commitments have to be matched by individual actions and individual policy implementations from your department. You have said in your answers to colleagues so far that that is not a matter for this strategy, but for the plan that will arise out of it, which is perfectly sensible. Therefore, could you outline when you envisage we will see some implementation? We have waited until May this year for the plan. I appreciate that you want to look back and revise what your Labour colleagues had previously stated, and what they wanted to do regarding transport, and that you have wanted to put your own mark on it, but when do you envisage a plan arising out of this and regional transport consortia coming forward with their proposals?

amgylcheddol fod wrth wraidd ein strategaeth drafnidiaeth. Rhaid i'r strategaeth drafnidiaeth bellach ystyried y ffaith bod amcanion y Llywodraeth, fel y maent yn cael eu hamlinellu yn 'Cymru'n Un', yn heriol iawn o ran yr ystyriaethau amgylcheddol hynny. Rhaid i hynny fod yn rhan o'r strategaeth ar ôl mis Gorffennaf 2007.

Fe'i gwnaethoch yn glir hefyd fod hon yn strategaeth gynhwysfawr, a bod angen inni weithio gyda rhanddeiliaid eraill, ac yn benodol gyda llywodraeth leol. Yn aml bydd llawer o'r strategaethau'n cael eu cyflawni gan awdurdodau lleol. Byddant naill ai'n gwneud hynny ar eu liwt eu hunain, neu, yn fwyfwy, drwy'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Gwnaethoch bwynt am yr asesiadau effaith ar iechyd; efallai y byddaf yn gwneud cyhoeddriad arall ar y mater hwnnw maes o law. Gwrandewais yn astud ar y pwyntiau a wnaethpwyd ynghylch yr A494. Bydd angen imi ystyried y rheini cyn gwneud datganiad pellach.

Kirsty Williams: Diolch, Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma. Yr wyf yn croesawu'r nodau a amlinellir yn nechrau'r ddogfen, yn enwedig y pwyslais newydd—ac yr wyf yn cydnabod ei fod yn newydd—ar leihau allyriadau carbon drwy newidiadau mewn polisi trafnidiaeth, y gydnabyddiaeth bod angen inni newid ein hymddygiad o ran teithio mewn llawer rhan o'r wlad hon, a bod angen inni wella trafnidiaeth gyhoeddus i wneud hynny.

Fodd bynnag, fel y dywedodd Andrew R.T. Davies, i gyd-fynd â'r ymrwymadau lefel uchel hyn rhaid wrth gamau unigol a gweithredu polisiau unigol gan eich adran. Dywedasoch yn eich atebion i gyd-Aelodau hyd yn hyn nad mater i'r strategaeth hon yw hynny, ond i'r cynllun a fydd yn deillio o honi, sydd yn holol synhwyrol. Felly, a allech amlinellu pryd yr ydych yn rhagweld y byddwn yn gweld rhywfaint o weithredu. Yr ydym wedi disgwyl tan fis Mai eleni i gael y cynllun. Yr wyf yn sylweddoli eich bod am edrych yn ôl ac adolygu'r hyn yr oedd eich cyd-Aelodau Llafur wedi'i ddweud yn y gorffennol, a'r hyn yr oeddent am ei wneud yng nghyswilt trafnidiaeth, a'ch bod am roi eich marc eich hun ar hynny, ond pryd yr ydych yn rhagweld y bydd cynllun yn deillio o hyn ac y bydd consortia trafnidiaeth

rhanbarthol yn cyflwyno'u cynigion?

There is a strong emphasis in the document, and in what you have said, on the role of regional transport consortia. You will be aware that some concerns have been expressed about those consortia regarding their ability to respond to this agenda that you are setting for them, in terms of their capacity and their financial resources. Could you give us some details on how you intend to support the regional consortia so that they are able to deliver on what you are asking them to do in this document?

You have stressed the greenness of this strategy, and its environmental credentials. As I said, I welcome that high-level commitment. However, the document fails to back up those initial statements. For instance, you will be aware that the Sustainability Committee has recommended that your Government reviews the WelTAG formula, which assesses individual projects, because it has identified that WelTAG in its current form works against more sustainable transport projects. It marks down carbon saving transport options as having a revenue loss for the Government, so they score less because of their impact on the Treasury. WelTAG also gives a lower score for passengers on a train or on a bus than for passengers in a car, but your document gives no indication that it intends to inform WelTAG. It still relies heavily on the WelTAG system, but, as we have seen from other aspects of the Assembly's work, it actually works against green transport.

Ceir pwyslais cryf yn y ddogfen, ac yn yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, ar rôl consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Byddwch yn gwybod bod rhai pryderon wedi cael eu mynegi ynghylch y consortia hynny ynglŷn â'u gallu i ymateb i'r agenda hon yr ydych yn ei gosod iddynt, o ran eu capaciti ac o ran eu hadnoddau ariannol. A allech roi rhywfaint o fanylion inni ynghylch sut yr ydych yn bwriadu cefnogi'r consortia rhanbarthol er mwyn iddynt allu darparu'r hyn yr ydych yn gofyn iddynt ei ddarparu yn y ddogfen hon?

Yr ydych wedi pwysleisio mor wyrdd yw'r strategaeth hon, a'i rhinweddau amgylcheddol. Fel y dywedais, yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad lefel uchel hwnnw. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn methu ategu'r datganiadau cychwynnol hynny. Er enghraifft, byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi argymhell bod eich Llywodraeth yn adolygu fformiwlau WelTAG, sy'n asesu prosiectau unigol, oherwydd ei bod wedi nodi bod WelTAG ar ei ffurf bresennol yn gweithio yn erbyn prosiectau trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy. Mae'n rhoi llai o farciau i opsiynau trafnidiaeth sy'n arbed carbon oherwydd eu bod yn peri colli refeniu i'r Llywodraeth; felly rhoddir sgôr is oherwydd yr effaith ar y Trysorlys. Mae WelTAG hefyd yn rhoi sgôr is i deithwyr ar drêñ neu fws nag i deithwyr mewn car, ond nid yw eich dogfen yn nodi ei bod yn bwriadu rhoi gwybodaeth i WelTAG. Mae'n dal i ddibynnu'n drwm ar system WelTAG, ond, fel yr ydym wedi gweld o agweddau eraill ar waith y Cynulliad, mewn gwirionedd mae'n gweithio yn erbyn trafnidiaeth werdd.

3.30 p.m.

You have talked a lot about security with regards to transport being safe, and road users and passengers being safe. However, there is another aspect of security, which is energy security and how we keep on the move in this country. Ninety-five per cent of this country's transport is reliant on oil. Ten years ago, oil was \$13 a barrel, but today it is \$115 a barrel, and the experts say that that price will keep on rising. We are not going to go back to a time of cheap oil, so how have you

Yr ydych wedi siarad yn helaeth am ddiogelwch a bod trafnidiaeth yn ddiogel, a bod defnyddwyr y ffyrdd a theithwyr yn ddiogel. Fodd bynnag, mae agwedd arall ar ddiogelwch, sef diogelwch o ran ynni a sut y byddwn yn dal i symud o gwmpas yn y wlad hon. Mae 95 y cant o drafnidiaeth y wlad hon yn dibynnu ar olew. Ddeng mlynedd yn ôl, yr oedd olew'n costio \$13 y gasgen, ond heddiw mae'n costio \$115 y gasgen, ac mae'r arbenigwyr yn dweud y bydd y pris hwnnw'n

worked that into your strategy with regards to not only addressing issues of transport poverty and people's ability to afford to keep on the move, but also the increased cost that this will mean for some of your infrastructure projects, as it will become increasingly expensive to deliver on some of your larger road building plans?

On page 45, you state that you regard biofuel as part of the solution. You will be aware that in recent months there has been a huge debate about biofuel and what that can add to this agenda, and whether it is causing some of the problems in the world food markets. Yet, on page 45 of your document, you state that biofuel is a part of your strategy. Perhaps you could outline exactly what role you see biofuel as playing in this strategy.

I repeat the points that Andrew R.T. Davies made about the bus service operators' grant. It is difficult to accept that you have a commitment to public transport when you have not given a clear direction to the bus industry about where you intend to take it. We are still awaiting details on that. Although I acknowledge that there has been increased investment in the rail service and that certain communities are benefiting from better rail connections, you will be aware that the Enterprise and Learning Committee's report on investment into the rail service for the longer term highlighted some potential gaps between your Government's aspirations for the rail service and the funding that you have available. Do you have any plans to bridge that gap? There are ongoing concerns in my constituency about the concessionary fare scheme on the Heart of Wales line. Therefore, there are mixed messages with regard to the document. It states, 'Yes, we are all for the investment in public transport', but I do not know whether people on the ground are seeing that investment across the board.

Finally, the Safe Routes in Communities initiative is welcome, but I believe that the

dal i godi. Nid awn yn ôl i oes yr olew rhad, felly sut yr ydych wedi darparu ar gyfer hynny yn eich strategaeth, nid yn unig o ran ymateb i ystyriaethau ynghyllch tlodi trafnidiaeth a gallu pobl i fforddio dal i symud o gwmpas, ond hefyd o ran y gost uwch y bydd hyn yn ei olygu i rai o'ch prosiectau seilwaith, gan y bydd yn fwyfwy drud cyflawni rhai o'ch cynlluniau adeiladu ffyrdd mwy?

Ar dudalen 45, yr ydych yn dweud eich bod yn ystyried bod biodanwydd yn rhan o'r ateb. Byddwch yn ymwybodol bod dadlau mawr wedi bod yn y misoedd diwethaf ynghyllch biodanwydd a'r hyn y gall ei ychwanegu at yr agenda hon, ac a yw'n achosi rhai o'r problemau ym marchnadodd bwyd y byd. Ac eto, ar dudalen 45 yn eich dogfen, yr ydych yn dweud bod biodanwydd yn rhan o'ch strategaeth. Efallai y gallech amlinellu pa'r ôl yn union yr ydych yn ei gweld i fiodanwydd yn y strategaeth hon.

Ailadroddaf y pwyntiau a wnaeth Andrew R.T. Davies am y grant i weithredwyr gwasanaethau bysiau. Mae'n anodd derbyn bod gennych ymrwymiad i drafnidiaeth gyhoeddus a chithau heb roi cyfarwyddyd pendant i'r diwydiant bysiau ynghyllch y cyfeiriad yr ydych yn bwriadu mynd ag ef iddo. Yr ydym yn dal i ddisgwyl cael manylion am hynny. Er fy mod yn cydnabod bod mwy wedi'i fuddsoddi yn y gwasanaeth rheilffyrdd a bod rhai cymunedau'n elwa o well cysylltiadau rheilffyrdd, byddwch yn ymwybodol bod adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu am fuddsoddi yn y gwasanaeth rheilffyrdd dros y tymor hwy wedi tynnu sylw at rai anghysonderau posibl rhwng dyheadau'ch Llywodraeth ar gyfer y gwasanaeth rheilffyrdd a'r cyllid sydd ar gael gennych. A oes gennych unrhyw fwriad i gysoni hynny? Mae pryderon o hyd yn fy etholaeth am y cynllun tocynnau rhad ar reilffordd Calon Cymru. Felly, mae negeseuon cymysg mewn cysylltiad â'r ddogfen. Mae'n dweud, 'Ydym, yr ydym yn frwd o blaid buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus', ond ni wn a yw pobl ar lawr gwlaid yn gweld buddsoddi o'r fath yn gyffredinol.

Yn olaf, mae'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i'w groesawu, ond credaf

funding is only available for another two years, and that it is then your intention to put that funding into the regional transport consortia. Can you outline what your plans are for the Safe Routes in Communities initiative and how you envisage it being funded in future years?

The Deputy First Minister: Thank you, Kirsty, for your general welcome for the goals set out in the strategy. You highlighted two important considerations, which have to be looked at side by side. The first is the policy initiatives, which can be brought forward by the Government, and the second is that each and every one of us needs to change our travel behaviour. We need to look at those alongside each other.

You rightly made the point that we want to see improvements in public transport and asked how that can be delivered. The proposal is that, as soon as we have announced the strategy, the work begins on the plan itself, which will contain much of the detail about what we intend to do. That will now be ready for consultation and, hopefully, we can conclude that in 2009. Alongside that, as you rightly point out, work will be undertaken through the regional transport consortia to look at regional priorities. I appreciate your point that the regional transport consortia are saying that they might lack the capacity to do some of the preparatory work, and I have agreed to look at capacity issues. Without giving any commitments today, I want the regional transport consortia to be given every opportunity to develop their plans, and if there are reasonable capacity issues, I will look at them.

On the green issues, you referred to the issue of matters being raised through the Sustainability Committee and in particular through the Welsh transport planning and appraisal guidance formula. If we find that there are ways in which the WelTAG formula needs to be changed to take account of the priorities that will come through the national transport plan, then that is the opportunity to do that. WelTAG is always under review, but

nad yw'r cyllid ond ar gael am ddwy flynedd arall, a'ch bod wedyn yn bwriadu rhoi'r cyllid hwnnw i'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol. A allwch amlinellu'ch cynlluniau ar gyfer y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a sut yr ydych yn rhagweld y caiff ei hariannu yn y dyfodol?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Diolch i chi, Kirsty, am eich croeso cyffredinol i'r nodau sydd yn y strategaeth. Tynasoch sylw at ddwy ystyriaeth bwysig, y mae'n rhaid edrych arnynt ochr yn ochr â'i gilydd. Y gyntaf yw'r mentrau polisi, y gall y Llywodraeth eu cyflwyno, a'r ail yw'r angen i bob un ohonom newid ein harferion o ran teithio. Mae angen inni ystyried y rheini ochr yn ochr â'i gilydd.

Gwnaethoch bwynt priodol i'r perwyl ein bod yn dymuno gweld gwelliannau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a gofyn sut y gellir sicrhau hynny. Y bwriad yw, cyn gynted ag y byddwn wedi cyhoeddi'r strategaeth, y bydd y gwaith yn dechrau ar y cynllun ei hun, a fydd yn cynnwys llawer o'r manylion am yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud. Bydd honno'n barod ar gyfer ymgynghori'n awr ac yr wyf yn gobeithio y gallwn gwblhau hynny yn 2009. Ochr yn ochr â hynny, fel yr ydych yn nodi, yn briodol, ymgymrir â gwaith drwy'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol i ystyried blaenoriaethau rhanbarthol. Deallaf y pwyt a wnaethoch i'r perwyl bod y consortia trafnidiaeth rhanbarthol yn dweud y gallent fod heb ddigon o gapasiti i wneud rhywfaint o'r gwaith paratoadol, ac yr ydym wedi cytuno i ystyried materion sy'n ymwneud â chapasiti. Heb wneud dim addewidion heddiw, mae arnaf eisiau i'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol gael pob cyfle i ddatblygu eu cynlluniau, ac os oes ystyriaethau rhesymol o ran capasiti, fe'u hystyriaf.

Ynghylch y materion gwyrdd, cyfeiriasoch at godi materion drwy'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ac yn benodol drwy fformiwla'r canllawiau ar gynllunio ac arfarnu trafnidiaeth yng Nghymru. Os cawn fod angen newid fformiwla WelTAG mewn rhyw fod i roi sylw i'r blaenoriaethau a ddaw drwy'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, dyna'r cyfle i wneud hynny. Mae WelTAG yn cael ei adolygu drwy'r

if there are major policy changes then those criteria will have to be reviewed.

I accept the point that you make about the cost and security of oil, but the Assembly does not have powers in relation to that. However, we recognise that it causes particular pain for many communities and for many people, particularly when they travel to work.

You made an interesting point about biofuels, because many originally felt that they were part of the answer, but I recognise that there are significant challenges given that biofuels are taking up much of the land that would otherwise be used to grow food in other parts of the world. We want to be careful about that and ensure that we do not compromise food production.

The bus service operators' grant was raised by Kirsty. It was also raised by Andrew, and I stress again that I have made it clear that my intention is to review that grant. I want public transport to develop, and to improve. The purpose of the review is not to look for cuts in public transport, but to see how we can improve it.

There are a number of areas that we need to look at in terms of investment in rail services. We have already made a substantial commitment to rail. I have mentioned the service between Ebbw Vale and Cardiff. We have also invested, as you know, in the Aberystwyth to Shrewsbury line. We will be looking for the results of feasibility studies into further enhancements among some of our key groups. So, you can rest assured that this Government remains committed to further investment in rail services. We recognise that if you improve infrastructure, then some way down the line, you also need to improve the services on those lines. I will make an announcement on the concessionary fares scheme in the next day or so.

You said that future safe routes schemes would come under the purview of the

amser, ond os bydd newidiadau mawr mewn polisi bydd angen adolygu'r mein prawf hynny.

Yr wyf yn derbyn y pwyt yr ydych yn ei wneud am gost a diogelwch olew, ond nid oes gan y Cynulliad bwerau mewn cysylltiad â hynny. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod bod hynny'n achosi poen neilltuol i lawer o gymunedau ac i lawer o bobl, yn enwedig o ran teithio i'r gwaith.

Gwnaethoch bwynt diddorol am fiodanwyddau, gan fod llawer yn teimlo ar y dechrau eu bod yn rhan o'r ateb, ond yr wyf yn derbyn bod heriau mawr o gofio bod biodanwyddau'n cymryd llawer o'r tir a ddefnyddid fel arall i dyfu bwyd mewn rhannau eraill o'r byd. Yr ydym am fod yn ofalus yngylch hynny a sicrhau nad ydym yn amharu ar gynhyrchu bwyd.

Cyfeiriodd Kirsty at grant y gweithredwyr gwasanaethau bysiau. Codwyd y mater hwnnw hefyd gan Andrew, a phwysleisiaf eto fy mod wedi egluro fy mod yn bwriadu adolygu'r grant hwnnw. Yr wyf am weld trafnidiaeth gyhoeddus yn datblygu ac yn gwella. Nid chwilio am doriadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus yw amcan yr adolygiad, ond gweld sut y gallwn ei gwella.

Mae nifer o ardaloedd y mae angen inni eu hystyried o ran buddsoddi mewn gwasanaethau rheilffyrdd. Yr ydym eisoes wedi gwneud ymrwymiad sylweddol i reilffyrdd. Yr wyf wedi sôn am y gwasanaeth rhwng Glynebw y a Chaerdydd. Yr ydym hefyd wedi buddsoddi, fel y gwyddoch, yn y rheilffordd rhwng Aberystwyth ac Amwythig. Byddwn yn edrych ar ganlyniadau astudiaethau dichonoldeb ar welliannau pellach ymysg rhai o'n grwpiau allweddol. Felly, gallwch fod yn dawel eich meddwl bod y Llywodraeth hon yn parhau â'i hymrwymiad i fuddsoddi ymhellach mewn gwasanaethau rheilffyrdd. Yr ydym yn derbyn, os byddwch yn gwella'r seilwaith, y bydd angen gwella'r gwasanaethau ar y rheilffyrdd hynny hefyd rywdro yn y dyfodol. Byddaf yn gwneud datganiad am y cynllun tocynnau rhad ymhen ychydig ddyddiau.

Dywedasoch y byddai cynlluniau llwybrau diogel y dyfodol yn dod o fewn maes y

regional transport consortia: no final decision has been made on the funding of these schemes at a regional level. However, I would expect—and I cannot put it any more strongly today—that if you are asking regional transport consortia to draw up plans on what they wish to do in their areas, it is reasonable to assume that they might be given control over at least some of the funding to ensure that they can turn their aspirations into reality. Furthermore, where they have particular priorities that they feel need to be funded on a regional level, then it is reasonable to expect that that might happen.

Huw Lewis: I welcome the Minister's statement, particularly the commitment to cutting emissions. I hope that, as he intimated, my proposed LCO on bus services, which received unanimous support to progress in the Assembly last week, will give us a chance to leapfrog, in some ways, the not wholly adequate Transport Bill that is currently going through Parliament and move towards a more integrated public transport system that shifts people from the car and onto buses and trains.

However, now that you are providing us with greater clarity as to your intentions, I would welcome some more perfect clarity, as it were, on your intentions with regard to the A465 Heads of the Valleys road. This is of great concern to me and my constituents and I know that Christine Chapman, among other Assembly Members, has echoed that concern. Would you take this opportunity to respond to a simple request? When will you publish the timetable for completion of the dualling of the road with accompanying spending commitments?

3.40 p.m.

The Deputy First Minister: First, I thank you for the general welcome for the document and its strategies. As I made clear in response to the debate on your LCO last week, where there are gaps in the powers that we have, we welcome those gaps being plugged where appropriate. As the discussion

consortia trafnidiaeth rhanbarthol: nid oes dim penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch ariannu'r cynlluniau hyn ar lefel ranbarthol. Er hynny, byddwn yn disgwyl—ac ni allaf ei roi'n gryfach na hynny heddiw—os ydych yn gofyn i gonsortia trafnidiaeth rhanbarthol baratoi cynlluniau ar yr hyn y maent yn dymuno'i wneud yn eu hardaloedd, ei bod yn rhesymol cymryd y gellid rhoi rheolaeth iddynt dros rywfaint o'r cyllid er mwyn sicrhau y gallant wireddu eu dyheadau. Yn ogystal â hynny, os oes ganddynt flaenoriaethau penodol y teimlant fod angen eu hariannu ar lefel ranbarthol, mae'n rhesymol disgwyl y gallai hynny ddigwydd.

Huw Lewis: Croesawaf ddatganiad y Gweinidog, yn enwedig yr ymrwymiad i dorri allyriadau. Yr wyf yn gobeithio, fel yr awgrymodd, y bydd fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ar wasanaethau bysiau, a gafodd gefnogaeth unfrydol i fynd ymlaen yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf, yn rhoi cyfle inni achub y blaen, mewn rhai pethau, ar y Mesur Trafnidiaeth, nad yw'n gwbl ddigonol, sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd a symud tuag at system trafnidiaeth gyhoeddus fwy integredig sy'n troi pobl oddi wrth geir ac at fysiau a threnau.

Fodd bynnag, gan eich bod yn awr yn rhoi mwy o eglurder i ni am eich bwriadau, byddwn yn falch o gael gwell eglurder, fel petai, ynghylch eich bwriadau o ran ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465. Mae hyn yn destun pryder mawr i mi ac i'm hetholwyr a gwn fod Christine Chapman, ymysg Aelodau eraill o'r Cynulliad, hefyd wedi datgan ei phryder am hynny. A fydddech yn dal ar y cyfle hwn i ymateb i gais syml? Pa bryd y cyhoeddwrch yr amserlen ar gyfer gorffen deuoli'r ffordd gan roi ymrwymiadau o ran gwariant i gyd-fynd â hynny?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yn gyntaf, diolchaf i chi am y croeso cyffredinol i'r ddogfen ac i'w strategaethau. Fel yr eglurais mewn ymateb i'r ddadl ar eich Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yr wythnos diwethaf, lle y mae bylchau yn y pwerau sydd gennym, croesawn weld cau'r bylchau

on your legislative competence Order proceeds, we will, hopefully, be able to develop that. I think that you will be pleased that there is a specific reference to the Heads of the Valleys on page 50 of the document, which states that the Heads of the Valleys will provide an alternative link between west Wales and the Midlands, and, at the same time, connect the Valleys, one of Wales's most deprived areas, with international destinations. So, there is recognition in the strategy that the road is a key development for us as a Government, and I am sure that you will be pleased to know that I will shortly be announcing the progress on developing that road for the future.

hynny os yw'n briodol. Wrth i'r drafodaeth am eich Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol fynd rhagddi, yr wyf yn gobeithio y byddwn yn gallu datblygu hynny. Credaf y byddwch yn falch bod cyfeiriad penodol at Flaenau'r Cymoedd ar dudalen 50 yn y ddogfen, sy'n datgan y bydd ffordd Blaenau'r Cymoedd yn cynnig cyswllt arall rhwng gorllewin Cymru a chanolbarth Lloegr, ac, ar yr un pryd, yn cysylltu'r Cymoedd, sy'n un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, â chyrchfannau rhyngwladol. Felly, mae cydnabyddiaeth yn y strategaeth fod y ffordd yn ddatblygiad allweddol yn ein golwg ni fel Llywodraeth, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn falch o wybod y byddaf cyn hir yn gwneud datganiad am y cynydd o ran datblygu'r ffordd honno ar gyfer y dyfodol.

Paul Davies: Yr wyf yn croesawu datganiad y Gweinidog ac yr wyf yn falch bod gan y Llywodraeth strategaeth drafnidiaeth i Gymru. Wedi dweud hynny, gwelaf nad oes unrhyw beth penodol yn y datganiad ar gyfer gorllewin Cymru; gwelaf fod cyfeiriad at Gaerby i ond nid oes llawer o bwyslais ar borthladdoedd yn y de a'r gorllewin. Fel rhywun sydd yn cynrychioli etholaeth yng ngorllewin Cymru, hoffwn ganolbwytio ar fy ardal i.

Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol fod Abergwaun ac Wdig yn bwysig i economi gogledd sir Benfro yn ôl cynllun gofodol Cymru. Mae porthladd Abergwaun yn chwarae rhan allweddol yn yr economi leol, felly mae'n bwysig bod y porthladd yn cael ei gynnwys mewn unrhyw gynllun i adfywio'r ardal. Gwelaf, yn ôl yr adroddiad 'Cysylltu'r Genedl', fod nifer sylweddol o deithwyr yn teithio drwy borthladd Abergwaun. Yr ydych wedi cyfeirio at fuddsoddiadau mewn llinellau rheilffyrrd, ond ni fu ichi sôn am linellau rheilffyrrd yn y gorllewin; efallai y byddwch am gyffwrdd ar hynny yn eich ymateb i mi yn nes ymlaen.

Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog wedi gweld adroddiad yr ymgynghorwyr Jacobs yn ddiweddar, sydd yn cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau trenau i Abergwaun. Yn sgîl y ffaith bod y Llywodraeth yn gwrthod deuoli'r A40 i Sir Benfro, a wnaiff y

Paul Davies: I welcome the Minister's statement and I am pleased that the Government has a transport strategy for Wales. However, I see that there is nothing specific in this announcement for west Wales; I see that there is reference to Holyhead but there is not much emphasis on ports in south and west Wales. As a representative of a west Wales constituency, I would like to focus on my area.

I am sure that the Minister is aware that Fishguard and Goodwick are important to the economy of northern Pembrokeshire according to the Wales spatial plan. The port of Fishguard plays a key role in the local economy, therefore it is important that the port is included in any regeneration plan for the area. I see, according to the report 'Connecting the nation', that a substantial number of passengers travel through the port of Fishguard. You have made reference to investment in rail links, but you did not mention rail links in west Wales; perhaps you would wish to touch upon those in your response to me later.

I am sure that the Minister has seen the recent report by Jacobs consultants, which supports improvements in rail services to Fishguard. Following the refusal of the Government to dual the A40 to Pembrokeshire, will the Minister tell us whether he is, in principle, in

Gweinidog ddweud wrthym a fyddai, mewn egwyddor, o blaid cynyddu'r gwasanaethau trenau hyn? Gan fod y datganiad o blaid lleihau allyriadau carbon yn sylwedol ac yn gyflym, a fyddai'r Gweinidog felly yn cytuno ag adroddiad Jacobs, sy'n awgrymu cynyddu nifer y gwasanaethau i bum gwasanaeth ychwanegol y dydd yn Abergwaun? A fyddai'r Gweinidog yn ffafrio hyn? Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell ailagor yr orsaf reilffordd yn Wdig, ac mae sôn bod y Llywodraeth wedi clustnodi arian er mwyn gwneud hynny; efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym a yw hyn yn wir neu beidio.

Mae rhai yn dadlau ei bod yn anodd proffwydo a fyddai gwella gwasanaethau trenau yn golygu y byddai mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau newydd hyn, ac felly y byddai buddsoddi arian sylwedol ynddynt yn synhwyrol. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod cyflwyno gwasanaethau newydd eraill wedi golygu bod mwy o deithwyr yn defnyddio'r gwasanaethau? Yn wir, mae Arriva Trains Wales ac eraill wedi gweld cynydd o 13 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd mewn teithwyr yn ystod y pum mlynedd diwethaf, lle mae gwasanaethau wedi eu hailgyflwyno. Yr wyf yn deall bod SWITCH yn ystyried argymhellion adroddiad Jacobs o ran gwasanaethau ar linellau rheilffyrdd eraill nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag Abergwaun. O dan yr amgylchiadau hynny, a yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai'n llawer mwy synhwyrol edrych ar wasanaethau newydd i Abergwaun ar wahân i wasanaethau nad ydynt yn effeithio ar Abergwaun o gwbl?

Yr wyf yn falch bod y strategaeth yn cydnabod ei bod yn hanfodol buddsoddi mewn gwasanaethau trenau er mwyn lleihau allyriadau carbon. Mae gwasanaethau fel hyn wedi cael eu hanwybyddu ers yn rhy hir, yn enwedig yn y gorllewin a'r ardaloedd yr wyf yn eu cynrychioli. Mewn unrhyw strategaeth, mae'n hanfodol bod system drafnidiaeth gyfannol lle mae amserlen trenau yn cydfynd â'r amserlen bysyst, er enghraifft. Yr wyf yn aml yn derbyn cwynion nad yw amserlenni trenau, bysyst a ffurfiau eraill o drafnidiaeth yn gyfatebol â theithiau pobl.

A wnaiff y Gweinidog sicrhau y bydd y strategaeth hon yn cynnwys system

favour of increasing these rail services? As the announcement is in favour of reducing carbon emissions quite significantly and swiftly, would the Minister therefore support the Jacobs report, which recommends increasing the provision to five additional services per day to Fishguard? Would the Minister favour this recommendation? The report also recommends the re-opening of the rail station in Goodwick, and there is mention that the Government has allocated funding to do that; perhaps the Minister can tell us whether this is true or not.

Some argue that it is difficult to anticipate whether the improvement of rail services would mean that more people would use these new services, and therefore a substantial investment of money in those services would be sensible. Would the Minister agree that introducing other new services has led to a greater uptake of those services? In fact, Arriva Trains Wales and others have seen an increase of 13 per cent, on average, per annum in the number of passengers over the past five years, where services have been reintroduced. I understand that SWITCH is considering the Jacobs recommendations in connection with other rail services that are not directly linked to Fishguard. In those circumstances, does the Minister agree that it would be much more sensible to look at new services for Fishguard that are separate to those services that do not affect Fishguard at all?

I am pleased that the strategy acknowledges that it is vital to invest in train services in order to reduce carbon emissions. For far too long, such services have been ignored particularly in the west and in the areas that I represent. In any strategy, it is vital that there is an integrated transport system where the train timetables fit in with the bus timetables, for example. I often receive complaints that the timetables for train, bus and other transport services do not fit in with people's travel arrangements.

Will the Minister ensure that the strategy will include an integrated transport system? If it

drafnidiaeth gyfannol? Os gwnaiff, sut y bydd hynny'n cael ei weithredu drwy Gymru gyfan? Mae hyn yn hollbwysig o ran gwella ansawdd bywydau pawb. A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ehangu ar sut bydd y strategaeth hon yn cyd-fynd â chynllun gofodol Cymru? A wnaiff hefyd ddweud wrthym a oes arian ychwanegol wedi ei glustnodi i weithredu'r strategaeth newydd ac a fydd yr arian hwnnw'n ddigonol?

Croesawaf y strategaeth a gwir obeithiaf y bydd yn gwella'r system drafnidiaeth yng Nghymru.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Hoffwn gywi'r camargraff nad oes sôn am dde-orllewin Cymru a sir Benfro yn benodol yn y ddogfen. Fel y dywedais wrth Andrew yn gynharach, mae cyfeiriad at yr ardal honno. Ym mhwynt bwled 3, cymal 4.6, sydd ar dudalen 54 y fersiwn Gymraeg—fel y gwelwch, yr wyf wedi darllen y ddogfen—nodir mai'r corridorau pwysicaf ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol yw'r llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin, ac mae cyfeiriad at dde Cymru, Iwerddon, sir Benfro, Abertawe, y llwybr o Gaerdydd i Fryste a Llundain, ac at ffyrdd a rheilffyrdd. Hoffwn bwysleisio bod y corridor hwnnw yn cael ei weld fel un o'r pedwar corridor pwysig sy'n cysylltu Cymru â'r gwledydd y tu hwnt i'w ffiniau, megis Iwerddon, gweddill y Deyrnas Gyfunol a gweddill cyfandir Ewrop. Os dywedwn yn y strategaeth fod angen i ni ystyried y corridor hwnnw fel un pwysig o ran ffyrdd a rheilffyrdd, y cwestiwn yw: beth yw'r blaenoriaethau yr ydym am eu gweld o fewn y cyd-destun hwnnw? Gan fod gennym strategaeth yn awr, yr wyf yn edrych ymlaen at y consortia rhanbarthol lleol, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o sir Benfro, yn cyflwyno syniadau ynghylch sut y gallwn fwrw ymlaen â'r gwaith.

Efallai y dylwn wneud pwynt cyffredinol. Yr ydym wedi cyfeirio at fuddsoddiad ariannol—er nad yw'n rhan o'r strategaeth—ac nid wyf am roi'r argraff y byddwn yn taflu mwy o arian i mewn i'r gronfa. Y cwestiwn anodd yw: sut y gallwn wneud defnydd gwell o'r arian sydd yno eisoes? Os croesewir y datganiad hwn heddiw, bydd gan y Llywodraeth benderfyniadau eithaf anodd i'w gwneud.

will, how will that be implemented throughout Wales? This is essential for improving the quality of all of our lives. Will the Deputy First Minister expand on how this strategy will fit in with the Wales spatial plan? Will he also tell us whether additional funding has been allocated to implement this new strategy and whether that money will be sufficient?

I welcome the strategy and truly hope that it will improve the transport system in Wales.

The Deputy First Minister: I would like to correct the misconception that there is no mention of south-west Wales and Pembrokeshire specifically in the document. As I told Andrew earlier, there is reference to that area. In bullet point 3, clause 4.6, which is on page 54 of the Welsh version—as you can see, I have read the document—it is noted that the most important corridors for international links are the routes between the east and the west, and there is reference to south Wales, Ireland, Pembrokeshire, Swansea, the route from Cardiff to Bristol and London and roads and rail links. I would like to emphasise that that corridor is seen as one of the four important corridors that link Wales with the countries beyond its borders, for example, Ireland, the rest of the United Kingdom and the rest of continental Europe. If we say in the strategy that we need to consider that corridor as an important one in terms of roads and railways, the question is: what are the priorities that we want to see within that context? As we now have a strategy, I am looking forward to the local regional consortia, which will include representatives from Pembrokeshire, presenting ideas about how we can forge ahead with the work.

Perhaps I should make a general point. We have referred to financial investment—although this is not part of the strategy—and I do not want to give the impression that we will be throwing more money into the pot. The difficult question is: how can we make better use of the funding that is already there? If the statement is welcomed today, the Government will have some difficult decisions to make.

Efallai y byddai Paul yn maddau i mi am beidio â manylu heddiw ar faterion megis ailagor gorsaf Wdig, cynyddu'r nifer o wasanaethau trêñ er mwyn cael pump ychwanegol, ac ati, oherwydd bwriad y strategaeth yw gosod y fframwaith. Bydd y cynllun cenedlaethol a'r cynlluniau rhanbarthol yn edrych ar y manylion. Os oes cefnogaeth leol i'r math o bethau y mae Paul wedi eu hawgrymu, byddwn yn disgwyli eu gweld yn y cynlluniau rhanbarthol a ddaw gerbron.

Lluniwyd y strategaeth yng nghyd-destun y cynllun gofodol, felly mae cysylltiad rhwng y dda. Credaf fod croeso i hyn ar draws y pleidiau a bod pob plaid yn awyddus i weld gwasanaeth integredig—credaf i chi ei alw'n wasanaeth cyfannol—ar gyfer bysiau a threnau. Rhaid i ni gael cytundeb rhyngomni, y rhai sy'n rhedeg y gwasanaethau a'r awdurdodau lleol, ond yr wyf yn hyderus, gyda'r math o gefnogaeth sydd i'r syniad bellach, y gallwn symud ymlaen yn eithaf buan.

3.50 p.m.

Alun Davies: I thank the Minister for his statement. In some ways, my questions follow on directly from Paul Davies's question. I welcome the emphasis in your statement on the environmental aspects of transport policy, because I believe that transport gives us the opportunity to make great carbon emissions reductions in Wales over the next few years. How will you be taking decisions to ensure that the transport strategy does not simply allow for reductions in emissions almost as a by-product of policy? How will you design and implement your policy to proactively seek out carbon emissions reductions across Wales? In doing that, you will have some very real decisions to make—whether it is with regard to the M4 in the east or the A40 in the west—about resource allocation, whether the money goes to improving railways, for argument's sake, or to road improvements.

We have already heard about WelTAG this afternoon and how it guides your decision making and your evaluation of projects at the

Perhaps Paul will forgive me for not going into detail today on matters such as reopening Goodwick train station, increasing the number of train services to have an additional five and so on, because the intention of the strategy is to set out the framework. The national plan and the regional plans will look at the details. If there is local support for the kinds of things that Paul has suggested, I would expect to see them in the regional plan that will be brought forward.

The strategy was drawn up in the context of the spatial plan, so there is a link between the two. I believe that there is a welcome for this across the parties and that every party wants to see an integrated—I believe that you used the word '*cifannol*'—bus and train service. We must have agreement between us, those running the services and the local authorities, but I am confident that, with the kind of support that there is for the idea, we will be able to move forward soon.

Alun Davies: Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Mewn rhai ffyrdd, mae fy nghwestiynau'n dilyn yn uniongyrchol yn sgîl cwestiwn Paul Davies. Croesawaf y pwyslais yn eich datganiad ar agweddu amgylcheddol y polisi trafnidiaeth, oherwydd credaf fod trafnidiaeth yn rhoi cyfle inni gwtogi'n sylweddol ar allyriadau carbon yng Nghymru yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Sut y byddwch yn gwneud penderfyniadau i sicrhau nad y cyfan a wna'r strategaeth drafnidiaeth fydd peri bod lleihad mewn allyriadau bron fel sgîl-gynnyrch i'r polisi? Sut y gwnewch lunio a gweithredu'r polisi i fynd ati'n rhagweithiol i geisio sicrhau lleihad mewn allyriadau carbon ledled Cymru? Wrth wneud hynny, bydd gennych benderfyniadau go iawn i'w gwneud—boed ynglŷn â'r M4 yn y dwyrain neu'r A40 yn y gorllewin—ynghylch dyrannu adnoddau, sef a roddir yr arian i wella rheilffyrdd, er enghraifft, ynteu i wella ffyrdd.

Yr ydym eisoes wedi clywed am WelTAG y prynhawn yma a sut y mae'n eich arwain wrth ichi wneud penderfyniadau a gwerthuso

moment. To what extent do you foresee real differences being made to WelTAG that will drive through carbon emissions reductions as a central aim, so that it is the driving force behind the policy, rather than only a theme of policy? How do you intend to ensure that, when you have options before you to make decisions on, the rhetoric of environmental protection is matched not only by the objective of policy but the reality of policy? I am interested to understand how you will be taking these decisions and what priorities will be given in your department to reducing carbon emissions when decisions are being made.

The Deputy First Minister: If anyone thinks that meeting our targets for carbon emissions reductions from transport is going to be easy, they have another think coming. It is not going to be easy; it is probably the most difficult area in which to achieve such reductions. Frankly, it is not only about policy initiatives; it is about us. It is about people actively making different decisions about what they do. That means that it is not only about policy initiatives, or even spending money; it is about persuading people to change their behaviour.

One thing that is clear is that, where you offer people good public transport alternatives, they will take them up, as we have seen with the remarkable success of the service from Ebbw Vale to Cardiff. Other Members—I am not sure whether it was Paul or Andrew—have mentioned the increase in passenger numbers on trains over recent years. It has shown that we need to recognise that, if you provide people with good public transport facilities, they will use them. The big issues are making it easier for people to use public transport and making it more integrated.

To be honest, you quite fairly set out the stark reality, which is that, when you are faced with a new road project and you are faced with an opportunity to improve public transport through new rail infrastructure or bus services, there is a choice to be made. Very often, that choice will have to be made bearing in mind the fact that we have this

prosiectau ar hyn o bryd. I ba raddau y rhagwelwch y gwneir gwahaniaethau go iawn i WelTAG a fydd peri bod lleihad mewn allyriadau carbon yn nod canolog, fel y bydd hynny'n brif ysgogwr y polisi, yn hytrach nag yn un o themâu'r polisi yn unig? Sut y bwriadwch sierhau, pan fydd opsiynau o'ch blaen sydd yn galw am benderfyniad, y bydd nid yn unig nod y polisi ond realiti'r polisi'n cyd-fynd â'r rhethreg yngylch gwarchod yr amgylchedd? Byddai'n ddiddorol deall sut y byddwch yn gwneud y penderfyniadau hyn a pha flaenoriaethau a roddir yn eich adran i leihau allyriadau carbon pan wneir penderfyniadau.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Os oes unrhyw un yn meddwl y bydd yn hawdd cyrraedd ein targedau ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn sgil trafnidiaeth, gwell iddynt ailfeddwel. Nid yw'n mynd i fod yn hawdd; mae'n debyg mai dyma'r maes anoddaf i sierhau cwtogi o'r fath ynddo. A dweud y gwir, nid yw'n fater o fentrau polisi yn unig; mae'n ymwneud â ni. Mae'n fater o gael pobl i fynd ati i wneud penderfyniadau gwahanol am yr hyn a wnânt. Mae hynny'n golygu nad mater o fentrau polisi, na hyd yn oed o wario arian, yn unig yw hyn; mae'n ymwneud â pherswadio pobl i newid eu hymddygiad.

Un peth sydd yn glir yw, pan gynigiwch ddewisiadau amgen da i bobl o ran cludiant cyhoeddus, y byddant yn manteisio arnynt, fel y gwelsom gyda llwyddiant hynod y gwasanaeth o Lynebwy i Gaerdydd. Mae Aelodau eraill—nid wyf yn siŵr ai Paul ynteu Andrew a wnaeth—wedi crybwyll y cynnydd yn niferoedd teithwyr ar drenau yn y blynnyddoedd diweddar. Mae hynny wedi dangos bod angen inni sylweddoli, os darparwch gyfleusterau cludiant cyhoeddus da i bobl, y gwnânt eu defnyddio. Mae'r materion mawr yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus ac yn ei wneud yn fwy integredig.

A dweud y gwir, rhoesoch ddarlun digon teg o'r realiti noeth, sef, pan fyddwch yn wynebu prosiect ffordd newydd ac yn wynebu cyfle i wella cludiant cyhoeddus drwy seilwaith rheilffyrdd neu wasanaethau bysus newydd, fod dewis i'w wneud. Yn aml iawn, bydd yn rhaid gwneud y dewis hwnnw gan gofio bod gennym y strategaeth gyffredinol hon a

overall strategy that is driven by the need to reduce carbon emissions. Decisions that were made on one set of criteria in the past will now be made on a new set of criteria. There may well be circumstances where different decisions will be made as a result of the strategy that we are implementing. I am happy to say that we will keep the criteria in WelTAG under constant review in case it is necessary to review them in order to meet these new aspirations. If anyone thinks some of the decisions to be taken will be easy choices, they are mistaken; they will be anything but.

Darren Millar: You rightly referred to the need to cut carbon dioxide emissions from transport in Wales. I was pleased to hear that in your statement. However, I must say that the statement is somewhat light on detail. You are right to say that we need to change public behaviour in order to address some of the carbon dioxide problems with regard to emissions. Have you made a decision on Sustrans Cymru's proposal to roll out personal travel plans in Wales and its request to be involved in pilot projects? A proposal has been on your desk for some months now. I do not know the detail of the document being announced today, but I would appreciate an update on that situation.

You also did not answer an important question asked by Andrew R.T. Davies in respect of the eco-towns initiative, which you trumpeted in one of your first ministerial statements in this Chamber, when you suggested that it would be a pillar in your policy to reduce carbon dioxide emissions from transport. We have not heard anything more about that today, and I would appreciate an update on where eco-towns are in the pipeline and a timescale for their delivery.

You referred to the north-south rail link. As a regular user of the existing north-south rail link, I have a vested interest in this matter. Are we still on course to deliver the improved rail service between north and south by autumn this year?

ysgogir gan yr angen i leihau allyriadau carbon. Bydd penderfyniadau yr arferid eu gwneud ar sail un set o feini prawf bellach yn cael eu gwneud ar sail set newydd o feini prawf. Efallai'n wir y ceir amgylchiadau lle y gwneir penderfyniadau gwahanol o ganlyniad i'r strategaeth yr ydym yn ei gweithredu. Yr wyf yn fodlon dweud y cadwn olwg gyson ar y meini prawf yn WelTAG rhag ofn y bydd angen eu hadolygu er mwyn ateb y dyheadau newydd hyn. Os oes unrhyw un yn meddwl y bydd rhai o'r penderfyniadau y bydd rhaid eu gwneud yn ddewisiadau hawdd, maent yn camgymryd; ni fyddant yn hawdd o gwbl.

Darren Millar: Cyfeiriasoch yn ddigon teg at yr angen i dorri allyriadau carbon yn sgil trafnidiaeth yng Nghymru. Yr oeddwn yn falch o glywed hynny yn eich datganiad. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod eich datganiad braidd yn brin o fanylion. Yr ydych yn iawn pan ddywedwch fod angen inni newid ymddygiad y cyhoedd er mwyn datrys rhai o'r problemau gyda charbon deuocsid, o ran allyriadau. A ydych wedi gwneud penderfyniad ar gynnig Sustrans Cymru i raddol gyflwyno cynlluniau teithio personol yng Nghymru, a'u cais am gael bod yn rhan o brosiectau peilot? Mae cynnig ar eich desg ers rhai misoedd bellach. Ni wn beth yw manylion y ddogfen a gyhoeddir heddiw, ond fe werthfawrogwn gael gwybod y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â hynny.

Nid atebasoch gwestiwn pwysig a ofynnwyd gan Andrew R.T. Davies ynglŷn â'r fenter eco-drefi ychwaith, y buoch yn canu ei chlodydd yn un o'ch datganiadau gweinidogol cyntaf yn y Siambra hon, pryd y gwnaethoch awgrymu mai un o bileri eich polisi fyddai lleihau allyriadau carbon deuocsid yn sgil trafnidiaeth. Nid ydym wedi clywed dim mwy am hynny heddiw, a gwerthfawrogwn y wybodaeth ddiweddaraf yngylch lle y mae eco-drefi ar y gweill ac amserlen ar gyflawni hynny.

Cyfeiriasoch at y cyswllt rheilffordd rhwng y gogledd a'r de. A minnau'n ddefnyddiwr rheolaidd ar y cyswllt rheilffordd presennol rhwng y gogledd a'r de, mae gennyr ddiddordeb personol yn y mater hwn. A ydym yn dal ar y trywydd iawn i ddarparu'r gwasanaeth rheilffyrdd gwell rhwng gogledd a de erbyn yr hydref eleni?

The Deputy First Minister: You are not the only one with a vested interest in the north-south rail link, Darren; several Assembly Members have a similar interest. Yes; we are on course. The earliest that we could deliver the service would be December 2008, when there will be timetable changes. I am hopeful that we will be able to make an announcement on that in the not-too-distant future.

I think that you are aware that one of the difficulties is the constraint on the line between Wrexham and Chester. We may need to consider infrastructure changes in the longer term. We are therefore trying to ensure a slot for that route that would enable use of the north-south route with a faster service—you know that I am fully committed to that, and it was one of the things that we said in our ‘One Wales’ document that we wanted to see introduced.

I got the impression somehow that you were looking for something critical to say when you said that it is light on detail. Actually, this is a detailed document. It sets out in some detail how we intend to implement the strategy. I am sure that, once you have the opportunity to look at it, you will find that it is the most comprehensive transport strategy that any Assembly Government has produced, and that is what we were charged to do under the Transport (Wales) Act 2006.

I hope that you will forgive me but, as I mentioned to Paul, I am not here today to make announcements on specific proposals. However, on the two that you mentioned—the Sustrans Cymru travel plan and the sustainable towns initiative—decisions will be announced shortly.

Eleanor Burnham: Beth allwch chi ei wneud i ddefnyddio arian Ewropeaidd, yn enwedig i drydanu'r lein o Crewe i Gaergybi, fel y soniwyd yn y gorffennol? A oes strategaeth i drenau gludo mwy o'r nwyddau sy'n mynd drwy borthladd Caergybi a chael gwared ar y loriau oddi ar yr A55 a'r A494?

Y Dirprwy Lywydd: Nid chi yw'r unig un sydd â diddordeb personol yn y cyswllt rheilffordd rhwng y gogledd a'r de, Darren; mae gan amryw o Aelodau'r Cynulliad ddiddordeb tebyg. Ydym; yr ydym ar y trywydd iawn. Y dyddiad cynharaf y gallem ddarparu'r gwasanaeth fyddai Rhagfyr 2008, pryd y bydd newidiadau yn yr amserlen. Yr wyf yn obeithiol y byddwn yn gallu gwneud cyhoeddiad am hyn yn y dyfodol gweddol agos.

Credaf eich bod yn ymwybodol mai un o'r anawsterau yw'r cyfyngiad ar y rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer. Efallai y bydd angen inni ystyried newidiadau yn y seilwaith yn y tymor hwy. Felly yr ydym yn ceisio sierhau slot i'r llwybr hwnnw a fyddai'n golygu y gellid defnyddio'r llwybr rhwng y gogledd a'r de gyda gwasanaeth cyflymach—gywyddoch fy mod wedi ymrwymo'n llwyr i hynny, ac yr oedd yn un o'r pethau y dywedasom yn ein dogfen 'Cymru'n Un' ein bod yn awyddus i weld ei gyflwyno.

Cefais yr argraff rywsut eich bod yn chwilio am rywbeth beirniadol i'w ddweud pan ddywedasoch ei bod braidd yn brin o fanylion. Mewn gwirionedd, mae hon yn ddogfen fanwl. Mae'n amlinellu yn bur fanwl sut y bwriadwn weithredu'r strategaeth. Yr wyf yn siŵr, wedi ichi gael cyfre i edrych arni, y gwelwch mai dyma'r strategaeth drafnidiaeth fwyaf cynhwysfawr i'w chyhoeddi gan unrhyw Lywodraeth Cynulliad, a rhoddwyd y dasg o wneud hynny inni dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

Gobeithio y maddeuwch imi ond, fel y soniais wrth Paul, nid wyf yma heddiw i wneud cyhoeddiadau am gynigion penodol. Fodd bynnag, o ran y ddau a grybwylasoch—cynllun teithio Sustrans Cymru a'r fenter trefi cynaliadwy—cyhoeddir penderfyniadau cyn bo hir.

Eleanor Burnham: What can you do to use European funding, particularly to electrify the line from Crewe to Holyhead, as has been mentioned in the past? Is there a strategy for trains to carry more of the goods that go through Holyhead port and to get rid of the lorries from the A55 and the A494? I greatly

Croesawaf yn fawr y gwelliannau—pan ddeuant—i'r lein rhwng y gogledd a'r de.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae'r syniad o symud cludiant nwyddau oddi ar y ffordd i'r rheilffyrrd wedi bod yn uchelgais i nifer o bobl ar hyd y blynnyddoedd. Yn anffodus, ar hyn o bryd beth bynnag, nid oes modd cyfiawnhau cost ei drosglwyddo i'r rheilffyrrd ar gyfer siwrneiau byr, i bobl busnes yn arbennig—rhaid iddo fod yn siwrnai eithaf hir. Yn anffodus, mae gwaith isadeiledd y mae'n rhaid ei wneud ar lein y gogledd cyn y medrwn wneud llawer o newidiadau yn y maes hwnnw.

4.00 p.m.

Yr wyf yn rhannu'r uchelgais, ac yr wyf yn gobeithio gallu cydweithio â nifer o bobl i weld a oes modd symud llawer o'r nwyddau a gludir ar y ffyrdd i'r rheilffyrrd. Byddaf yn cyhoeddi strategaeth cludo nwyddau cyn bo hir ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn mynd i lawr y trywydd hwnnw. Yr wyf yn ymwybodol iawn, wrth gwrs, o'r galw a fu yn y gorffennol am drydanu rheilffordd y gogledd, os caf ei alw'n hynny. Ni fu hynny ar yr agenda yn ddiweddar ac felly nid wyf yn rhagweld y bydd cynllun i drydanu rheilffordd y gogledd yn mynd rhagddo yn fuan. Wedi dweud hynny, gall rhai llwybrau ddenu arian Ewropeaidd, ond nid wyf yn credu bod y cynllun trydanu yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol agos.

Y Llywydd: Yn olaf, galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu.

Gareth Jones: Croesawaf finnau hefyd y datganiad a'r strategaeth sy'n canolbwytio ar greu cysylltiadau trafnidiaeth effeithiol drwy Gymru gyfan. Hir fu'r aros am hyn a mawr obeithiwn y bydd y strategaeth yn llwyddiant.

Mae diffygion amlwg ar hyn o bryd sy'n tanseilio ein hyder a'n parodrwydd i weithredu fel cenedl, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Amlygir hyn yn aml pan ydym yn sôn am y gagendor rhwng y de a'r gogledd, ac mae'n hen bryd inni gael gwared ar y math hwnnw o

welcome the improvements—when they come—to the line between the north and south.

The Deputy First Minister: The idea of moving freight from the roads to the railways has been an ambition for many people for many years. Unfortunately, at present at least, the cost of transferring it to the railway for short journeys cannot be justified, for business people especially—it has to be quite a long journey. Unfortunately, structural work needs to be carried out on the north Wales line before we can make many changes in that area.

I share the ambition and I hope to be able to work with several people to see whether it is possible to move much of the freight that is carried on roads to the railways I will announce a freight strategy before long, which I hope will also go down that route. I am very aware, of course, of the calls that have been made in the past for the electrification of the northern railway, if I may call it that. It has not been high on the agenda recently, and so I do not foresee that the plans to electrify the northern railway will get under way any time soon. Having said that, some routes may attract European funding, although I do not think it likely that the electrification programme will happen in the near future.

The Presiding Officer: Finally, I call the Chair of the Enterprise and Learning Committee.

Gareth Jones: I also welcome the statement and the strategy, which concentrates on creating effective transport links throughout Wales. This has been a long time coming, and we very much hope that the strategy will be a success.

At present, there are obvious deficiencies that undermine our confidence and our willingness to act as a nation, culturally, socially and economically. This is often thrown into sharp relief when we talk about the gulf between the north and the south, and it is high time that we get rid of that kind of

feddylfryd. Yr wyf yn croesawu'n fawr y cyfeiriad at wasanaeth y TrawsCambria a'r gwelliant yn y rhwydwaith hwnnw, ynghyd â'r gwasanaeth rheilffordd gwib rhwng y de a'r gogledd. Edrychaf ymlaen yn arw at hynny oherwydd, fel eraill, mae gennych ddiddordeb arbennig yn y llwybr hwnnw.

Yr wyf yn siŵr y byddai pawb yma yn cytuno â'r pum maes y cyfeiriasoch atynt, Ddirprwy Brif Weinidog. Er enghraifft, byddai cwtogi ar allyriadau carbon yn arwain at welliannau amgylcheddol ac iechyd, a dylem anelu at hynny.

Gwn gymaint o ddiddordeb fydd yn Aberconwy o glywed am rai agweddau ar y strategaeth yr ydych wedi cyfeirio atynt, i sicrhau trafnidiaeth gyhoeddus a fydd yn annog pobl i wneud llai o ddefnydd o'u ceir. Mae'r pwyslais ar greu cyfleoedd gwell i gerdded a seiclo'n ddiogel i'w groesawu. Edrychwn ymlaen at eich ymweliad â ni yn Llandudno, fel yr addawyd gennych yn ddiweddar, i drin a thrafod y rhwydwaith seiclo yno.

Mae'n dda gennyf glywed hefyd eich bod am ystyried gwneud mwy o ddefnydd o'r môr fel bod llai o drafnidiaeth ar briffyrdd fel yr A55 yn y gogledd. Mae rhagoriaethau iddi, wrth gwrs, ond mae ganddi hefyd ei gwendidau, sy'n deillio o oes Mrs Thatcher, flynyddoedd yn ôl, pan oedd tanfuddsoddi garw yn yr A55. Mae angen y gwelliannau hyn.

Yn treiddio drwy eich strategaeth mae arwyddeiriau pwysig, fel 'cynaliadwyedd' ac 'adeiladu'r genedl', sy'n agos iawn at ein calonnau, a cheir ynddi newidiadau pellgyrhaeddol. Maent hefyd yn newidiadau sy'n dod yn sgîl newid yn yr hinsawdd, i ryw raddau. Fodd bynnag, yn eich sefyllfa bresennol, mae arnoch angen creu hinsawdd ar gyfer y newid pwysig sydd ar ei ffordd. Cyfeiriodd sawl un at newid ymddygiad pobl fel eu bod yn gadael eu ceir ac yn beicio neu'n cerdded, ond yr her bwysicaf i unrhyw strategaeth o'r fath yw newid yr hinsawdd fel bod y cyhoedd yn barod i ymgymryd â'r newidiadau. Mawr obeithiaf y byddwch chi a'r Cynulliad yn rhoi eich holl sylw i hyn. Mae argyhoeddi'r cyhoedd fod angen y newidiadau hyn yn hollbwysig. Nid mater o ddweud wrth bobl mai dyma sydd ei eisiau

thinking. I very much welcome the reference to the TrawsCambria service and the improvement to that network, as well as the high-speed rail service between north and south Wales. I very much look forward to that because, like others, I have a particular interest in that route.

I am sure that everyone here would agree with the five strands that you outlined, Deputy First Minister. For example, reducing carbon emissions would lead to environmental and health improvements, and so we should aim for that.

I know how much interest there will be in Aberconwy upon hearing about some of the aspects of the strategy that you have referred to, to provide public transport that encourages people to make less use of their car. The emphasis on creating improved opportunities for walking and cycling safely is to be welcomed. We look forward to your visit to us in Llandudno, which you recently promised, to discuss the cycling network there.

I am also pleased to hear you say that you will consider making more use of shipping to reduce traffic on trunk roads such as the A55 in north Wales. It has its finer points, of course, but it also has its weaknesses, which date back years to the age of Mrs Thatcher, when there was a severe lack of investment in the A55. These improvements are needed.

Running through your strategy are important watchwords, such as 'sustainability' and 'nation-building', which are very close to our hearts, and it contains some wide-ranging changes. They are also changes that come in the wake of climate change, to a certain extent. However, in your current situation, you need to create a climate for this important change that is on its way. Many Members have referred to changing people's attitudes so that they leave their cars at home and cycle or walk, but the most important challenge for any strategy of this kind is to change the climate so that people are prepared to take the changes on board. I greatly hope that you and the Assembly will focus your attention on this. It is vital that we convince the public that we need these changes. It is not simply a matter of telling

arnynt a dyma fydd y Cynulliad yn ei roi ger eu bron ydyw; rhaid inni gydweithio â'n cyngorau cymuned a sir i sicrhau eu bod yn deall y neges hon ac yn deall y meddylfryd sydd y tu ôl i hyn oll, fel y gallwn symud ymlaen at ddyfodol hyderus i ni fel cenedl.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Diolch yn fawr, Gareth. Bu ichi bwysleisio rhai o'r symudiadau i wella trafnidiaeth gyhoeddus, gan sôn am y gwasanaeth TrawsCambria a'r gwasanaeth rheilffordd rhwng y de a'r gogledd, a gallem gyfeirio hefyd at wasanaethau rheilffordd eraill yng Nghymru sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, yr ydych chi'n iawn bod angen i ni, fel Llywodraeth, ddangos ein hymrwymiad i ddatblygu trafnidiaeth gyhoeddus.

Gwnaed pwynt pwysig gennych am allyriadau carbon, o safbwyt yr amgylchedd yn ogystal ag iechyd pobl yn gyffredinol. Yr ydym yn gostwng lefelau ein hallyriadau carbon, ond rhaid inni hefyd hybu mentrau mwy iach, megis cerdded a seiclo. Edrychaf ymlaen at weld cynlluniau eich pwyllgor. Mae gan Jane Davidson hefyd ddiddordeb yn y maes hwn, a hyderaf ein bod ni'n dau yn edrych ymlaen at glywed am yr hyn sy'n bosibl.

Soniasoch y dylem gynnal deialog gyda'r cyhoedd o ran y ffordd ymlaen, i'w hargyhoeddi o'r angen i ddilyn y trywydd hwn. Yn y ddogfen, mae'r Llywodraeth wedi gosod canllawiau clir o ran y cyfeiriad y dymunwn ei gymryd, ond yr ydym yn ymwybodol o'r her sylweddol sy'n ein hwynebu. Gan ein bod bellach wedi mynd i'r afael â hi o ddifrif, gallwn gynnal y ddeialog barhaus honno.

people that this is what they want and so this is what the Assembly will give them; we must collaborate with our community and county councils to ensure that they understand this message and understand the rationale behind it, so that we can move towards a confident future for us, as a nation.

The Deputy First Minister: Thank you, Gareth. You emphasised some of the moves towards improving public transport, by talking about the TrawsCambria service, and the rail service between north and south Wales, and we could also refer to other rail services across Wales that are in need of improvement. However, you are right in the sense that we, as a Government, need to show that we are committed to developing public transport.

You made an important point on carbon emissions, not just from the point of view of the environment, but also that of people's health in general. We are reducing our levels of carbon emissions, but we must also promote healthier initiatives, such as walking and cycling. I look forward to seeing the suggestions of your committee. Jane Davidson also has an interest in this field, and I am sure that we both look forward to hearing what is possible.

You mentioned that we should maintain a dialogue with the public on the way forward, to convince people of the need to take this route. In the document, the Government has set out clear guidelines on the direction that we want to take, but we are aware of the significant challenge that is facing us. Now that we are starting to get to grips with that, we are able to have that ongoing dialogue.

Datganiad am Fynediad Statement on Access

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson):

As the Minister responsible for countryside access, I am pleased to have the opportunity today to update Members on the wide-ranging countryside access programme that the Welsh Assembly Government is taking forward with its key partners. The

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am fynediad i gefn gwlad, yr wyf yn falch o gael y cyfle heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y rhaglen eang ynghylch mynediad i gefn gwlad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei datblygu gyda'i

programme aims to improve public access to Wales's superb countryside, for healthy recreation as well as encouraging more people to walk and cycle as part of their everyday lives.

Visit Wales estimates that walking tourism generates more than £500 million a year for the Welsh economy. Just to give one example of the payback that that provides for local communities, the Anglesey coast path, which was officially opened in 2006, attracts some 300,000 visitors annually and contributes some £12 million each year to the economy of the island. A wide range of businesses benefit from these visitors, helping to sustain employment and create new jobs.

The health benefits are also well recognised, with general practitioners increasingly prescribing recreation in the local countryside as part of the solution to health problems. The PALS scheme—prescription for active living—in my constituency is a good example, as is the Let's Walk Cymru initiative, which operates in every local health board area.

Climate change is also relevant here. A key contributing factor to our changing climate is our heavy reliance on the car, even for short journeys. About half of all car trips in the UK could be replaced by walking, cycling or taking public transport. Increased levels of walking and cycling—as you have heard, a key aim of the new transport strategy for Wales, which the Deputy First Minister has published today—can make a positive contribution to improving health and fitness, as well as helping to secure the lifestyle changes needed to tackle climate change.

Our countryside access programme has a number of related elements, reflecting the commitments made in 'One Wales' to encourage people from all backgrounds to enjoy their local countryside, and fostering a stronger sense of public ownership of our natural environment. There are five main strands.

phartneriaid allweddol. Nod y rhaglen yw gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlaid gwych Cymru, ar gyfer gweithgareddau hamdden iach yn ogystal ag annog rhagor o bobl i gerdded a seiclo fel rhan o'u bywydau bob dydd.

Mae Croeso Cymru yn amcangyfrif bod twristiaeth cerdded yn creu mwy na £500 miliwn y flwyddyn i economi Cymru. A rhoi un enghraift o'r hyn y mae hynny'n ei gyfrannu at gymunedau lleol, mae llwybr arfordir Ynys Môn, a agorwyd yn swyddogol yn 2006, yn denu tua 300,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn cyfrannu tua £12 miliwn y flwyddyn at economi'r ynys. Mae ystod eang o fusnesau yn elwa o'r ymwelwyr hyn, ac maent yn helpu i gynnal cyflogaeth a chreu swyddi newydd.

Mae'r manteision o ran iechyd yn dra hysbys hefyd, a meddygon teulu'n rhagnodi hamdden yng nghefn gwlaid yn lleol fwyfwy fel rhan o'r ateb i broblemau iechyd. Mae cynllun PALS—presgripsiwn ar gyfer byw'n egniol—yn fy etholaeth yn enghraift dda, yn ogystal â'r fenter Dewch i Gerdded Cymru, sy'n gweithredu yn ardal pob bwrdd iechyd lleol.

Mae newid yn yr hinsawdd yn berthnasol yn hyn o beth hefyd. Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd yw ein dibyniaeth fawr ar geir, hyd yn oed ar gyfer teithiau byr. Gellid disodli tua hanner yr holl deithiau mewn ceir yn y DU â cherdded, seiclo neu drafnidiaeth gyhoeddus. Gall cynyddu cerdded a seiclo—sydd, fel y clywsoch, yn un o brif amcanion strategaeth drafnidiaeth newydd Cymru, a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog heddiw—wneud cyfraniad cadarnhaol at wella iechyd a ffitrwydd, yn ogystal â helpu i sicrhau'r newidiadau mewn ffordd o fyw y mae eu hangen er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae nifer o elfennau cysylltiedig yn ein rhaglen mynediad i gefn gwlaid, sy'n adlewyrchu'r ymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' i annog pobl o bob cefndir i fwynhau eu cefn gwlaid lleol, a meithrin ymdeimlad cryfach o berchenogaeth o'n hamgylchedd naturiol. Mae pum prif elfen.

The first is improving public access to Wales's coast via investment in footpath improvements, and new paths and circular routes at the coast. We invested £1.5 million in this programme last year, delivering a range of improvements, including a new path linking Cardiff Bay with Penarth, which will be opened formally shortly, and £2 million is being allocated to the programme this year, to be routed via the Countryside Council for Wales to the coastal local authorities. As well as local coastal access improvements, a key objective is to deliver a new all-Wales coastal path by 2012. I am also interested in seeing whether new statutory provisions on coastal access can add further value, and the Assembly Government will be consulting on its plans here in June. Members will wish to note that the House of Commons Environment, Food and Rural Affairs Select Committee has begun its scrutiny of the Marine Bill with a focus on coastal access provisions in England.

4.10 p.m.

The second strand is recreational access to water. I strongly believe that Wales's extensive rivers and lakes are underused for outdoor recreation, with missed opportunities for local businesses and communities as a consequence. A new strategic plan on opportunities for water-based recreation in Wales is now being finalised by the Environment Agency. The Assembly Government will provide new resources of more than £400,000 this year for the implementation of the plan and for practical recreation projects across Wales.

The third strand is sustained investment in the rights of way network. Every local highway authority has produced or is finalising new statutory rights of way improvement plans for its area. For the first time, these plans provide a prioritised assessment of where improvements are needed to the local network, and they aim to cater for all main users of the path network—walkers, cyclists, horse riders, as well as

Yr elfen gyntaf yw gwella mynediad y cyhoedd i arfordir Cymru drwy fuddsoddi mewn gwella llwybrau, a llwybrau newydd a llwybrau cylchol ar yr arfordir. Buddsoddwyd £1.5 miliwn yn y rhaglen hon gennym y llynedd, ac arweiniodd at ystod o welliannau, gan gynnwys llwybr newydd sy'n cysylltu Bae Caerdydd a Phenarth, a gaiff ei agor yn ffurfiol cyn bo hir, a dyrennir £2 filiwn i'r rhaglen eleni, a gaiff ei ddosbarthu drwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'r awdurdodau lleol arfordirol. Yn ogystal â gwelliannau i fynediad lleol i'r arfordir, un o'r prif amcanion yw cyflwyno llwybr arfordirol Cymru gyfan erbyn 2012. Mae gennyf ddiddordeb hefyd mewn gweld a all darpariaethau statudol newydd ar fynediad i'r arfordir ychwanegu rhagor o werth, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ynghylch ei chynlluniau yn hyn o beth ym mis Mehefin. Bydd yr Aelodau'n awyddus i nodi bod Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi dechrau craffu ar y Mesur Morol gan ganolbwytio ar ddarpariaethau mynediad i'r arfordir yn Lloegr.

Yr ail elfen yw mynediad i ddŵr ar gyfer gweithgareddau hamdden. Credaf yn gryf na wneir digon o ddefnydd o afonydd a llynnoedd niferus Cymru ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored, ac o ganlyniad mae busnesau a chymunedau lleol yn colli cyfleoedd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n llunio cynllun strategol newydd ar gyfleoedd gweithgareddau hamdden yn ymwneud â dŵr. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu adnoddau newydd o fwy na £400,000 eleni ar gyfer gweithredu'r cynllun ac ar gyfer prosiectau hamdden ymarferol ledled Cymru.

Y drydedd elfen yw buddsoddiad cyson yn y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae pob awdurdod priffyrrd lleol wedi creu neu wrthi'n creu cynlluniau gwella hawliau tramwy statudol newydd ar gyfer ei ardal. Am y tro cyntaf, mae'r cynlluniau hyn yn cynnig asesiad lle y caiff y gwelliannau sydd eu hangen i'r rhwydwaith lleol eu blaenoriaethu, a'r nod yw darparu ar gyfer prif ddefnyddwyr y rhwydwaith llwybrau—

those with mobility problems. The Assembly Government wants to see these plans implemented progressively now, and, to assist, we are providing £1.7 million this year, with similar sums for the next two financial years. With the CCW's countryside grant and investment by the local authorities, we should see substantially increased resources being invested in Wales's extensive public footpath network from this year. This investment should also help to maximise public use of the extensive Countryside and Rights of Way Act 2000 access land in Wales, which the Assembly Government successfully secured in May 2005.

The fourth strand is the promotion of cycling. As part of our efforts to increase levels of cycling and walking, I will be co-chairing a new walking and cycling steering group, which meets for the first time next week. The group will help to ensure co-ordinated action on this agenda, including helping to guide the implementation of an updated walking and cycling action plan. The Assembly Government is also organising a walking and cycling conference in June to highlight some of the key initiatives that are under way in Wales.

The fifth strand is promoting access for all. The Assembly Government is keen to assist disabled people and other disadvantaged groups to access their local countryside. A range of actions is under way, including the Mento Allan project, which supports 15 projects among hard-to-reach and underrepresented groups. In addition, a condition of the new funding that I mentioned for the rights of way improvement plans is that at least one practical improvement be undertaken in each local authority area in 2008-09 to support access by underrepresented groups.

The Assembly Government is working constructively with its key partners—local government, CCW, the national parks, the access fora and the voluntary sector—to

cerddwyr, seiclwyr, y rhai sy'n marchogaeth, yn ogystal â'r rhai a chanddynt broblemau symudedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad am weld y cynlluniau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn gynyddol yn awr, ac, i gynorthwyo yn hynny o beth, yr ydym yn darparu £1.7 miliwn eleni, gyda symiau tebyg ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Yn sgil grant cefn gwlad CCGC a'r buddsoddiad gan yr awdurdodau lleol, dylem weld cynnydd sylweddol yn yr adnoddau a fuddsoddir yn rhwydwaith helaeth Cymru o lwybrau cyhoeddus o eleni ymlaen. Yn ogystal, dylai'r buddsoddiad hwn helpu'r cyhoedd i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r tir mynediad helaeth o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yng Nghymru, a sicrhawyd yn llwyddiannus gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Mai 2005.

Y bedwaredd elfen yw hybu seiclo. Fel rhan o'n hymdrehion i gynyddu seiclo a cherdded, byddaf yn cyd-gadeirio grŵp llywio newydd ar gerdded a seiclo, a fydd yn cyfarfod am y tro cyntaf yr wythnos nesaf. Bydd y grŵp yn helpu i sicrhau camau cydgysylltiedig ar yr agenda hon, gan gynnwys helpu i lywio'r broses o roi cynllun gweithredu ar gerdded a seiclo sydd wedi'i ddiweddu ar waith. Yn ogystal â hynny mae Llywodraeth y Cynulliad yn trefnu cynhadledd cerdded a seiclo ym mis Mehefin i dynnu sylw at rai o'r mentrau allweddol sydd ar y gweill yng Nghymru.

Y bumed elfen yw hybu mynediad i bawb. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i gynorthwyo pobl anabl a grwpiau eraill sydd dan anfantais i gael mynediad i gefn gwlad yn lleol. Mae ystod o gamau ar y gweill, gan gynnwys y prosiect Mento Allan, sy'n cefnogi 15 o brosiectau ymyst grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd ac nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Yn ogystal, un o amodau'r arian newydd y soniais amdano ar gyfer y cynlluniau gwella hawliau tramwy yw y dylid gwneud o leiaf un gwelliant ymarferol ym mhob ardal awdurdod lleol yn 2008-09 i gefnogi mynediad i grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n adeiladol gyda'i phartneriaid allweddol—Llywodraeth leol, CCGC, y parciau cenedlaethol, y fforymau mynediad a'r sector

deliver this wide agenda. We are also investing significantly increased resources to support the delivery of our objectives; investment is up from £1.5 million last year to more than £4 million in 2008-09. Enthusiastic more people from all walks of life to access the countryside for healthy recreation is a key part of what we are trying to achieve, as is getting people to undertake more walking and cycling as part of their daily routines. The benefits of this are very clear, and I want to maximise those benefits for the people of Wales, for communities across Wales, and for visitors to Wales.

Darren Millar: Diolch am eich datganiad y prynhawn yma, Weinidog.

I agree that ensuring access to the countryside, including our coastal areas and waterways, is important, and you have outlined a number of reasons why that is. It would be hard for most of us to imagine living in a world where such access was denied. Access facilitates a good awareness and understanding of our natural environment, and especially of how we interact with and impact on our environment, which is, all too often, fragile. There are health benefits, especially from recreational activities such as walking and cycling, not to mention the tourism benefits, which you also alluded to, Minister. Open access helps to generate a greater appreciation of our beautiful countryside in Wales, and the need to preserve it for future generations. It will not surprise you to hear that we would agree on this side of the Chamber that, in principle, greater access is beneficial. I particularly welcome the Assembly Government's intention, as mentioned in your statement, to improve the links between existing rights of way, and to promote access for those who are often disadvantaged in that regard. However, I have a number of concerns.

Given the potential impact on land management and livestock, some areas, such as biosecurity zones and sites of special scientific interest, need to allow less and not more access. In many places, good access agreements already exist on a voluntary basis

gwirfoddol—i gyflawni'r agenda eang hon. Yr ydym hefyd yn buddsoddi cryn dipyn o adnoddau ychwanegol i gyflawni ein hamcanion; mae'r buddsoddiad wedi cynyddu o £1.5 miliwn y llynedd i fwy na £4 miliwn yn 2008-09. Mae annog rhagor o bobl o bob cefndir i ddefnyddio cefn gwlad ar gyfer gweithgareddau hamdden iach yn rhan allweddol o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni, yn ogystal ag annog rhagor o bobl i wneud mwy o gerdded a seiclo fel rhan o'u trefn ddyddiol. Mae manteision hyn yn glir iawn, ac mae arnaf eisiau cynyddu hynny a ellir ar y manteision hynny i bobl Cymru, i gymunedau ledled Cymru, ac i ymwelwyr â Chymru.

Darren Millar: Thank you for your statement this afternoon, Minister.

Cytunaf fod sicrhau mynediad i gefn gwlad, gan gynnwys ein harfordir a'n dyfrffyrrd, yn bwysig, ac yr ydych wedi amlinellu nifer o resymau dros hynny. Byddai'n anodd i'r rhan fwyaf ohonom ddychmygu byw mewn byd heb fynediad i leoedd o'r fath. Mae mynediad yn hwyluso ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'n hamgylchedd naturiol, ac yn arbennig sut yr ydym yn rhngweithio gyda'n hamgylchedd, sydd, yn rhy aml, yn fregus, a sut yr ydym yn effeithio ar yr amgylchedd. Mae manteision o ran iechyd, yn arbennig yn sgil gweithgareddau hamdden fel cerdded a seiclo, heb sôn am y manteision i dwristiaeth, y cyfeiriashoch atynt hefyd, Weinidog. Mae mynediad agored yn helpu i sicrhau bod ein cefn gwlad hyfryd yng Nghymru yn cael ei werthfawrogi'n well, a bod angen ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ni fyddwch yn synnu o glywed y byddem yn cytuno ar yr ochr hon i'r Siambr bod gwell mynediad yn fuddiol, mewn egwyddor. Croesawaf yn arbennig fwriad Llywodraeth y Cynulliad, fel y dywedasoch yn eich datganiad, i wella'r cysylltiadau rhwng hawliau tramwy presennol, ac i hybu mynediad i'r rhai sy'n aml dan anfantais yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae gennyl nifer o bryderon.

O gofio'r effaith bosibl ar reoli tir a da byw, mae angen i rai ardaloedd, fel parthau bioddiogelwch a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ganiatáu llai o fynediad, nid mwy. Mewn llawer o leoedd, mae cytundebau mynediad da eisoes yn

between landowners and those who want access to the land, which, if changed, could have detrimental effects. We must not forget either that the land is owned. It is someone's property, after all, and so that deserves some respect. Therefore, I would be grateful, Minister, if you could indicate how you will seek to address the real concerns of landowners about the cost of maintaining and managing access.

Will they be compensated, for example, in the event of an accident on their land? What about the health and safety implications? Who will be liable for that? What will the Welsh Assembly Government do to ensure that biosecurity for livestock is not compromised? Perhaps you could also suggest how conflicts of interest between different user groups—on waterways, for example, with anglers and canoeists—might be rectified? Finally, Minister, what measures are being put in place to safeguard areas of special scientific interest and other conservation habitats to help to ensure that they remain protected and receive the best possible protection for the future?

Jane Davidson: Thank you, Darren; I am grateful for your support, in principle, for the agenda that we have laid out. As you will appreciate, this is very much a people's agenda; it is about ensuring that people can access the countryside responsibly—I am sure that we would all want to emphasise the word 'responsibly'.

In the context of sites of special scientific interest, there are already arrangements in place that mean that, at certain times, depending on the nature of the site, access is either taken away or skirts around the edges of particular sites. The principle of land management and the voluntary basis agreements that have served us well is one that I strongly want to maintain. I have said all the way through this process that, wherever we can achieve voluntarily, we would want to do that. That has been tremendously successful for the entire Pembrokeshire coastal path, for the majority

bodoli ar sail wirfoddol rhwng tirfeddianwyr a'r rhai sydd am gael mynediad i'r tir, a phe bai hynny'n newid, gallai gael effaith andwyol. Rhaid inni gofio hefyd fod gan y tir berchennog. Eiddo rhywun ydyw, wedi'r cyfan, ac felly mae hynny'n haeddu parch. Felly, byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallich nodi sut y bwriadwch fynd i'r afael â phryderon gwirioneddol tirfeddianwyr yngylch cost cynnal a chadw a rheoli mynediad.

A fyddant yn cael eu digolledu, er enghraifft, os bydd damwain ar eu tir? Beth am y goblygiadau o ran iechyd a diogelwch? Pwy fydd yn atebol am hynny? Beth fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud er mwyn sierhau nad yw bioddiogelwch da byw'n cael ei roi yn y fantol? Efallai y gallich awgrymu hefyd sut y gellid mynd i'r afael â gwrtidaro rhwng buddiannau gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr—ar ddyfrffyrrdd, er enghraifft, rhwng pysgotwyr a chanwyddion? Yn olaf, Weinidog, pa fesurau sy'n cael eu cyflwyno er mwyn diogelu ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a chynefinoedd cadwraeth eraill, a helpu i sierhau eu bod yn dal i gael eu diogelu ac y byddant yn cael yr amddiffyniad gorau posibl ar gyfer y dyfodol?

Jane Davidson: Diolch, Darren; yr wyf yn ddiolchgar ichi am eich cefnogaeth, mewn egwyddor, i'r agenda yr ydym wedi'i chyflwyno. Mae hon, fel y byddwch yn sylweddoli, yn agenda ar gyfer pobl; mae'n ymwneud â sierhau bod pobl yn gallu mynd i gefn gwlad mewn modd cyfrifol—ac yr wyf yn siŵr y byddai pob un ohonom am bwysleisio'r gair 'cyfrifol'.

Yng nghyd-destun safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, mae trefniadau'n bodoli'n barod sy'n golygu bod mynediad, ar rai adegau, gan ddibynnu ar natur y safle, naill ai'n cael ei atal neu'n cael ei gyfyngu i gyrrion safleoedd penodol. Mae egwyddor rheoli tir a'r cytundebau ar sail wirfoddol sydd wedi bod yn dra derbynol yn un yr wyf yn awyddus iawn i'w chadw. Yr wyf wedi dweud drwy gydol y broses hon y byddem yn awyddus i sierhau cytundebau gwirfoddol lle bynnag y bydd hynny'n bosibl. Mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran llwybr arfordir sir Benfro ar ei hyd, o ran y rhan

of the land in Anglesey and for the majority of land that forms the Ceredigion path. However, there is a greater good. If there ends up being a small number of people who frustrate the process and whose interest is positively tested and is still seen to frustrate the process, then we need to have a statutory weapon in our back pocket. I emphasise strongly that it is a back-pocket weapon, because we want to see that positive engagement.

With regard to your concerns relating to biosecurity for livestock, as plans from my colleague the Minister for Rural Affairs, develop we will be looking at all of these issues in the context of countryside access.

In terms of waterways, the new strategic document, which will shortly be published by the Environment Agency, demonstrates that we can reach a level of agreement to ensure that our waterways are open to as many people as possible. In many ways, if we take those two groups of the community that are often seen to be at loggerheads with each other over waterway access—the canoeists and the anglers—they often want to use the rivers at different times. We are, therefore, looking to ensure that we can open up responsible access in exactly the same way that we developed it through the Countryside and Rights of Way Act 2000 and that we want to take it forward in terms of the coastal path.

Leanne Wood: Thank you for your statement, Minister. Walking is one of the best ways of experiencing Wales's wild and exciting landscapes as well as getting the exercise to which you referred, which brings obvious health benefits. However, I am concerned that the countryside is mostly enjoyed by the privileged few. I welcome your mentioning the GP health scheme in your statement, and also the various youth groups and schools that are working to promote the benefits of walking and cycling for young people. However, Minister, I am sure that you are aware of a recent UK-wide report that raised concerns about access to national parks throughout the UK for people from working class and minority ethnic

fwyaf o'r tir ym Môn a'r rhan fwyaf o'r tir lle y mae llwybr Ceredigion. Fodd bynnag, mae budd ehangach. Os gwelir yn y diwedd fod nifer fach o bobl yn rhwystro'r broses, ac sy'n dal i rwystro'r broses er gwaethaf prawf cadarnhaol o'u buddiant, yna mae angen inni gael arf statudol wrth gefn. Yr wyf yn pwysleisio'n gryf mai arf wrth gefn ydyw hynny, oherwydd y mae arnom eisiau gweld yr ymgysylltu cadarnhaol hwnnw.

O ran eich pryder ynglŷn â bioddiogelwch da byw, byddwn yn edrych ar bob un o'r materion hyn yng nghyd-destun mynediad i gefn gwlaid wrth i gynlluniau fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ddatblygu.

O ran dyfrffyrdd, mae'r ddogfen strategol newydd, a fydd yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yn dangos y gallwn ddod i gytundeb er mwyn sierhau bod ein dyfrffyrdd yn agored i gynifer o bobl ag sy'n bosibl. Mewn llawer o ffyrdd, os cymerwn y ddau grŵp hynny o'r gymuned sydd i'w gweld benben â'i gilydd yn aml yng nghyswilt dyfrffyrdd—y canwyddion a'r pysgotwyr—mae'r adegau y mae arnynt eisiau defnyddio'r afonydd yn aml iawn yn wahanol. O ganlyniad, yr ydym yn awyddus i sierhau y gallwn gynyddu mynediad cyfrifol yn union fel y datblygwyd hynny gennym drwy Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a'n bod am fwrw ymlaen â hynny yng nghyd-destun y llwybr arfordirol.

Leanne Wood: Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Mae cerdded yn un o'r ffyrdd gorau o brofi tirweddau gwylt a chyffrous Cymru yn ogystal â chael yr ymarfer corff y cyfeiriasoch ato, sy'n cynnig manteision amlwg o safbwyt iechyd. Fodd bynnag, yr wyf yn bryderus mai dim ond criw bach breintiedig ar y cyfan sy'n mwynhau cefn gwlaid. Yr wyf yn falch eich bod wedi cyfeirio at gynllun iechyd y meddygon teulu yn eich datganiad, a hefyd at yr ysgolion a'r grwpiau ieuengtid amrywiol sy'n gweithio er mwyn hybu manteision cerdded a beicio i bobl ifanc. Fodd bynnag, Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar a oedd yn mynegi pryder ynglŷn â

backgrounds. Therefore, I would like to hear what we are doing to address those concerns, because I presume that they also apply to Wales.

Finally, I am glad to hear you recognise that there is a downside to increasing countryside access, because, in order to reach the most remote parts of Wales—which are often the most beautiful parts—most of us use our cars. This has obvious implications for climate change and the crisis that we face. Many of the children who live in inner cities and towns who have never been to the countryside are often in that position because their parents do not have access to a car. You have a pretty tricky challenge in trying to increase access for people on low incomes at the same time as reducing car usage in rural areas. Therefore, I would be interested in hearing your thoughts on tackling that potentially tricky dilemma.

4.20 p.m.

Jane Davidson: Your question is particularly important, because we know, from all of the surveys that are done of people who join walking groups, become friends of national parks, or walk regularly in our national parks, for example, that they are generally a middle-class group. That is why we have supported the mosaic project in the Brecon Beacons National Park, which covers seven local authorities, including many of the Valleys' local authorities, to look at increasing representation, particularly of those from ethnic minority communities. The use of rail and bus services will be crucially important for bringing people in to our national parks. All three national parks operate transport schemes that are relatively successful in bringing in a wide range of people. I am particularly pleased that they bring a lot of young people to the parks, and we need to see whether we can do a great deal more of that. That is why we made the commitment that, in terms of the additional funding for rights of way, every single local authority needs to take some action that supports groups that may otherwise be hard to reach. I look

mynediad i barciau cenedlaethol ledled y DU i bobl o'r dosbarth gweithiol a phobl o leiafrifoedd ethnig. Felly, hoffwn glywed beth yr ydym yn ei wneud i roi sylw i'r pryderon hynny, oherwydd yr wyf yn cymryd eu bod yn berthnasol i Gymru hefyd.

Yn olaf, yr wyf yn falch o'ch clywed yn cydnabod nad yw cynyddu mynediad i gefn gwlad yn fêl i gyd, oherwydd, er mwyn cyrraedd y rhannau mwyaf anghysbell o Gymru—sef y rhannau harddaf yn aml—mae'r rhan fwyaf ohonom yn defnyddio'n ceir. Mae goblygiadau amlwg yn sgil hyn o ran y newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng yr ydym yn ei wynebu. Mae llawer o blant sy'n byw yng nghanol y dinasoedd a'r trefi mawr nad ydynt erioed wedi bod yng nghefn gwlad, ac yn aml iawn maent yn y sefyllfa honno am nad oes gan eu rhieni gar. Mae ceisio cynyddu mynediad i bobl sydd ag incwm isel ar y naill law, a lleihau'r defnydd ar geir mewn ardaloedd gwledig ar y llaw arall, yn gryn dipyn o her. Felly, hoffwn glywed sut yr ydych yn credu y gellid mynd i'r afael â'r broblem honno a allai fod yn un anodd iawn.

Jane Davidson: Mae eich cwestiwn yn bwysig iawn, oherwydd gwyddom, ar sail yr holl arolygon sy'n holi pobl sy'n ymuno â grwpiau cerdded, sy'n dod yn gyfeillion i barciau cenedlaethol, neu sy'n cerdded yn rheolaidd yn ein parciau cenedlaethol, er enghraifft, mai grŵp dosbarth canol ydynt ar y cyfan. Dyna pam yr ydym wedi cefnogi'r prosiect mosäig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n ymwneud â saith awdurdod lleol, gan gynnwys llawer o awdurdodau lleol y Cymoedd, ac sy'n ceisio cynyddu cynrychiolaeth, yn enwedig rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Bydd defnyddio gwasanaethau trenau a bysiau'n bwysig iawn i ddod â phobl i'n parciau cenedlaethol. Mae gan bob un o'r tri pharc cenedlaethol gynlluniau trafnidiaeth sy'n gymharol lwyddiannus o ran dod ag ystod eang o bobl i'r parciau. Yr wyf yn falch iawn eu bod yn dod â llawer o bobl ifanc i'r parciau, ac mae angen inni weld a allwn wneud llawer mwy o hynny. Dyna pam y gwnaethom yr ymrwymiad, o ran yr arian ychwanegol ar gyfer hawliau tramwy, fod angen i bob awdurdod lleol unigol gymryd

forward to seeing what that additional investment will achieve this year.

rhyw gamau sy'n cefnogi grwpiau a all fod yn anodd eu cyrraedd fel arall. Edrychaf ymlaen at weld beth y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwnnw'n ei gyflawni eleni.

Michael German: I welcome the statement. The five sections of the statement are beyond reproach and are obviously matters that we would want to support. We would want to support increased access to the countryside. However, as always, a number of issues relating to the detail of what you propose will require some further probing.

Michael German: Yr wyf yn croesawu'r datganiad. Ni ellir beirniadu pum rhan y datganiad ac mae'n amlwg eu bod yn faterion y byddem yn awyddus i'w cefnogi. Byddem yn awyddus i gefnogi'r syniad o gynyddu mynediad i gefn gwlad. Fodd bynnag, fel bob amser, bydd angen ymchwilio ymhellach i nifer o faterion sy'n ymwneud â manylion yr hyn yr ydych yn ei gynnig.

There is a petition currently before the National Assembly on using and developing joint pathways for walking and cycling. It appears that we do not have the legislative powers to do that, so could you outline in your response whether you intend to seek those powers in order to be able to maximise the use of joint pathways for walking and cycling? Walking and cycling pathways need better interconnection and signposting. The whole idea behind Sustrans' Connect2 project was that it would connect huge parts of Wales for walkers and cyclists, but we need to ensure that that is clearly marked and laid out. Signposting is a crucial issue in all of this, so that you know, at the least, that you are not turning the wrong corner and going in the wrong direction. That might be funny to many people but anyone who has been out cycling or walking will have met people who have said that they do not know in which direction to go, because the signposting has been weak. Some people need to have these pathways marked out.

Mae deiseb gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu llwybrau ar y cyd ar gyfer cerdded a beicio. Ymddengys nad yw'r pwerau deddfwriaethol i wneud hynny gennym, felly a allech amlinellu yn eich ymateb a ydych yn bwriadu ceisio cael y pwerau hynny er mwyn gallu cynyddu'r defnydd ar lwybrau ar y cyd ar gyfer cerdded a beicio? Mae angen gwell arwyddion a gwell cysylltiad rhwng llwybrau cerdded a beicio. Y syniad sydd wrth wraidd prosiect Connect2 Sustrans oedd y byddai'n cysylltu rhannau helaeth o Gymru ar gyfer cerddwyr a beicwyr, ond mae angen inni sicrhau bod y llwybrau'n cael eu cynllunio a'u dynodi'n glir. Mae arwyddion yn fater pwysig yn hyn oll, er mwyn ichi wybod, o leiaf, nad ydych yn cymryd y troad anghywir ac yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Efallai fod hynny'n ddoniol i lawer o bobl, ond bydd unrhyw un sydd wedi bod wrthi'n beicio neu'n cerdded wedi cyfarfod â phobl sydd wedi dweud nad ydynt yn gwybod i ba gyfeiriad i fynd, gan nad oes digon o arwyddion clir. Mae angen dangos y llwybrau hyn yn glir i rai pobl.

The issue of access for all has already been covered in some of the previous comments. If you increase the numbers of people who will use the countryside, not only do you threaten the architectural and industrial heritage and biodiversity, but also, simply by trampling over delicate areas, you cause more difficulties than you intended. For example, in Symonds Yat—although it is not in Wales—the eagle population almost disappeared because of the number of people approaching the habitats of those birds. You must balance both elements. How will you do

Ymdriniwyd â mater mynediad i bawb yn barod gan rai o'r sylwadau blaenorol. Os ydych yn cynyddu nifer y bobl a fydd yn defnyddio cefn gwlad, yr ydych yn bygwth yr etifeddiaeth bensaerniol a diwydiannol ynghyd â bioamrywiaeth, a hefyd, drwy gerdded dros ardaloedd sensitif, yr ydych yn achosi mwy o anawsterau nag a fwriedid gennych. Er enghraifft, yn Symonds Yat—er nad yw yng Nghymru—bu bron i'r eryrod ddiflannu oherwydd nifer y bobl a oedd yn agosáu at gynefinoedd yr adar hynny. Rhaid ichi gael cydbwysedd rhwng y ddwy elfen.

that, Minister, and how will you manage to re-focus some of the work to ensure that, while we open it up for access, we do not lose valuable habitats?

I also echo the view that Leanne expressed. All the national parks in the United States are guaranteed for motorists. I was talking to people from the American parks service some time ago, who told me that people's average distance of travel from a motor vehicle was 50 yd—these are American yards. That is how people went out to the countryside—they parked their car, got out, walked for 50 yd, walked the 50 yd back to the car, and they had done the countryside. That is not going to get people walking or cycling. How will you get people out of their motor cars? How will you deal with the difficulty that is faced by most people, of parking at one end of a walk or a trail and being picked up at the other end, or having to double back on themselves? More constructive access of that sort is important.

The Countryside Council for Wales has commissioned a national rights of way improvement plan, which, I believe, reports in the autumn. How will that plan fit into the strategies that you are proposing in this statement? Finally, on biodiversity, part of the problem is that people do not realise that they are approaching delicate areas. Is it enough to simply have increased signage, or do we need to have more wardens, more patrolling, more of a physical presence, or more help, which means people on the ground, as opposed to just signage, which people can often ignore and walk straight past?

Jane Davidson: The commitment that we have made in 'One Wales' is to deliver a coastal path by 2012. In terms of that delivery, I have already indicated that the Marine Bill will be the best mechanism for us to use to introduce the coastal path provisions. When the Marine Bill finishes its pre-legislative scrutiny, and, hopefully, appears in the Queen's Speech and move

Sut y gwnewch hynny, Weinidog, a sut y llwyddwch i sicrhau ffocws newydd i rywfaint o'r gwaith er mwyn sicrhau nad ydym, drwy gynyddu mynediad i gefn gwlad, yn colli cynefinoedd gwerthfawr?

Yr wyf finnau'n ategu'r sylwadau a fynegwyd gan Leanne. Mae pob un o'r parciau cenedlaethol sydd yn yr Unol Daleithiau wedi'u gwarantu ar gyfer modurwyr. Yr oeddwn yn siarad â phobl o wasanaeth parciau America ychydig amser yn ôl, a dywedasant wrthyf mai'r pellter y mae pobl yn ei deithio o gerbyd ar gyfartaledd oedd 50 llath—llathenni America yw'r rhain. Dyna sut yr oedd pobl yn mynd i gefn gwlad—yr oeddent yn parcio'u car, yn mynd allan, yn cerdded am 50 llath, yn cerdded yr 50 llath yn ôl i'r car, ac yr oeddent wedi bod yng nghefn gwlad. Nid yw hynny'n mynd i gael pobl i gerdded neu feicio. Sut y cewch bobl allan o'u cerbydau? Sut y deliwrch â'r anhawster y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wynebu, sef parcio yn un pen i lwybr neu daith gerdded a chael eu codi yn y pen arall, neu orfod cerdded yn ôl yr un ffordd ag y daethant? Mae mynediad mwy adeiladol o'r math hwnnw'n bwysig.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi comisiynu cynllun cenedlaethol i wella hawliau tramwy, y ceir adroddiad amdano yn yr hydref, fe gredaf. Sut y bydd y cynllun hwnnw'n cyd-fynd â'r strategaethau yr ydych yn eu cynnig yn y datganiad hwn? Yn olaf, o ran bioamrywiaeth, rhan o'r broblem yw nad yw pobl yn sylweddoli eu bod yn agosáu at ardaloedd sensitif. A yw cael mwy o arwyddion yn ddigon, neu a oes arnom angen mwy o wardeniaid, mwy o batrolio, mwy o bresenoldeb corfforol, neu fwy o gymorth, sy'n golygu bod angen pobl yn y maes, yn hytrach nag arwyddion yn unig, gan fod pobl yn anwybyddu arwyddion yn aml ac yn cerdded heibio iddynt?

Jane Davidson: Yr ymrwymiad yr ydym wedi'i wneud yn 'Cymru'n Un' yw y byddwn yn cyflwyno llwybr arfordirol erbyn 2012. Yn y cyswllt hwnnw, yr wyf eisoes wedi dweud mai'r Mesur Morol fydd y mecanwaith gorau inni ei ddefnyddio er mwyn cyflwyno darpariaethau'r llwybr arfordirol. Pan fydd y gwaith craffu cyn deddfu wedi'i gwblhau, a'r Mesur Morol,

forward, we will include Wales-specific provisions. That is why we will be consulting in June on how we want to take that forward.

I agree with you on signposting. It is crucial that people have confidence that they can follow routes, whether they are walking routes or cycling routes. Recently, for example, I noticed that, in Caerphilly, which has an extremely complex cycle route going through it, with many turns—it is cycle route 4—the previous council had signposted it so superbly that, even though we counted something like 34 different turns that we had to make to navigate Caerphilly, you could do it. However, national cycle routes in other parts of Wales are abysmal, and you would struggle to find the route.

The same thing happens with our national trails. Many people come to Wales after seeing all those wonderful green diamonds on our Ordnance Survey maps; they come because we have the most wonderful walks. On longer trails in particular, such as the Pembrokeshire coastal path, the Offa's Dyke path, or some of our unique trails in Wales, such as Glyndwr's Way, people need to know where they start and finish. Those places need to be clearly marked. People who walk those longer trails express satisfaction at the achievement of finishing—you want to know that you have finished, without having to struggle to find signage. Therefore, I am working closely with CCW, the national parks authorities, and the Forestry Commission to pick up on those issues.

The habitats issue is important. However, there are already opportunities to amend routes to ensure that they do not affect the species that are being protected in particular habitats. Some of that is about changing routes at specific times of the year, for example. Therefore, we are already mindful of those issues.

gobeithio, yn ymddangos yn Araith y Frenhines ac yn mynd rhagddo, byddwn yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer Cymru. Dyna pam y byddwn yn ymgynghori ym mis Mehefin ynglŷn â sut yr ydym am fwrw ymlaen â hynny.

Yr wyf yn cytuno â chi ynglŷn ag arwyddion. Mae'n bwysig iawn bod pobl yn teimlo'n hyderus y gallant ddilyn llwybrau, pa un a ydynt yn llwybrau cerdded neu'n llwybrau beicio. Yn ddiweddar, er enghraifft, sylwais fod cyngor blaenorol Caerffili, sydd â llwybr beicio cymhleth iawn yn mynd drwy'r dref, a llawer o droadau arno—llwybr beicio 4 ydyw—wedi gosod arwyddion mor dda, fel y gallech fynd drwy Gaerffili er inni gyfrif tua 34 o leoedd lle'r oedd yn rhaid inni droi. Fodd bynnag, mae llwybrau beicio cenedlaethol mewn rhannau eraill o Gymru'n drychinebus, a byddai'n anodd iawn ichi ddod o hyd i'r llwybr.

Mae'r un peth yn digwydd gyda'n llwybrau cenedlaethol. Mae llawer o bobl yn dod i Gymru ar ôl gweld yr holl ddiemyntau gwyrdd bendigedig hynny ar ein mapiau ordnans; maent yn dod yma gan fod gennym deithiau cerdded bendigedig. Ar lwybrau hwy yn fwyaf arbennig, megis llwybr arfordir sir Benfro, llwybr Clawdd Offa, neu rai o'r llwybrau unigryw sydd gennym yng Nghymru, megis Llwybr Glyndŵr, mae angen i bobl wybod lle y mae'r llwybr yn dechrau ac yn gorffen. Mae angen dynodi'r lleoedd hynny'n glir. Mae pobl sy'n cerdded y llwybrau hwy hynny'n dweud eu bod yn teimlo boddhad o wybod eu bod wedi cyrraedd pen y daith—mae arnoch eisiau gwybod eich bod wedi gorffen, heb orfol chwilio am arwyddion. Felly, yr wyf yn gweithio mewn cysylltiad agos â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn rhoi sylw i'r materion hynny.

Mae'r pwyt ynglŷn â chynefinoedd yn bwysig. Fodd bynnag, mae cyfleoedd eisoes i newid llwybrau er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar y rhywogaethau sy'n cael eu diogelu mewn cynefinoedd arbennig. Mae rhywfaint o hynny'n ymwneud â newid llwybrau ar adegau penodol o'r flwyddyn, er enghraifft. Felly, yr ydym yn ystyried y materion hynny yn barod.

I am interested in that research from the United States of America. One thing that we see in Wales is what we might call ‘honey-potting’ at key locations—people drive their car very close to a main attraction, get out and look at the attraction, and do not go anywhere else. That is another important aspect of a partnership between the Assembly Government and Visit Wales, particularly using the opportunities through Visit Wales’s increasingly impressive website about cycling in Wales, walking in Wales, as well as accommodation in Wales, so that people can get off the beaten track as well, but we need to help them do that.

4.30 p.m.

One important opportunity that we will be taking as a result of our water strategy is to produce information in leaflets and on the web so that people know exactly where to go and where they can get access into the rivers with canoes, and so on. With all of those concerns adequately taken care of, I hope that you will able to strongly support, as you did at the outset, the principle of taking forward this agenda in Wales for the benefit of the people here and for the visitors whom we want to attract.

On your last point about the rights of way improvement plan, it is not a Countryside Council for Wales plan. There will be plans for every local authority in Wales. The money is distributed via the Countryside Council for Wales in the form of a grant to the local authorities, and we are monitoring all of those plans so that we can see a major extension in terms of rights of way. In 2005, 40 per cent of our network was assessed as easy to use. By 2006 that figure had risen to 50 per cent. We are still waiting for the figures for 2007, but our extra investment is paying dividends.

Lorraine Barrett: Thank you, Minister, for the statement. I am interested in access to the coast and cycling promotion, and you mentioned the imminent opening of the path between Penarth, over the barrage, to Cardiff bay. There are thousands of people who are

Mae gennyf ddiddordeb yn y gwaith ymchwil hwnnw o Unol Daleithiau America. Un peth yr ydym yn ei weld yng Nghymru yw pobl yn cael eu denu at y prif leoliadau—mae pobl yn gyrru eu ceir yn agos iawn at brif atyniad, yn mynd allan ac yn edrych ar yr atyniad, heb fynd i unman arall. Mae hynny'n agwedd bwysig arall ar bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chroeso Cymru, yn enwedig defnyddio'r cyfleoedd drwy wefan fwyfwy trawiadol Croeso Cymru am feicio yng Nghymru, cerdded yng Nghymru, yn ogystal â llety yng Nghymru, fel y bydd pobl yn gallu mynd i leoedd mwy diarffordd hefyd, ond mae angen inni eu helpu i wneud hynny.

Un o'r cyfleoedd pwysig y byddwn yn manteisio arno o ganlyniad i'n strategaeth ddŵr yw llunio gwybodaeth ar ffurf taflenni ac ar y we er mwyn i bobl wybod lle'n union i fynd ac ymhle y cānt fynediad at afonydd gyda chanwau, ac yn y blaen. Oherwydd bod y pryderon hynny wedi cael sylw digonol, gobeithiaf y gallwch roi cefnogaeth gref, fel y gwnaethoch ar y dechrau, i egwyddor hybu'r agenda hon yng Nghymru er lles y bobl sy'n byw yma ac er mwyn yr ymwelwyr yr ydym am eu denu.

Ynghylch eich pwynt olaf ynglŷn â'r cynllun gwella hawliau tramwy, nid cynllun Cyngor Cefn Gwlad Cymru ydyw. Bydd cynllun ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff yr arian ei ddosbarthu drwy Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ffurf grant i'r awdurdodau lleol, ac yr ydym yn monitro pob un o'r cynlluniau hynny fel y byddwn yn gweld ehangu mawr ar yr hawliau tramwy. Yn 2005, cafodd 40 y cant o'n rhwydwaith ei asesu gan farnu ei fod yn hawdd ei ddefnyddio. Erbyn 2006 cododd y ffigur hwnnw i 50 y cant. Yr ydym yn dal i aros am ffigurau 2007, ond mae'r buddsoddiad ychwanegol a wnaethom yn talu ar ei ganfed.

Lorraine Barrett: Diolch, Weinidog, am y datganiad. Mae gennyf ddiddordeb mewn mynediad i'r arfordir a hybu seiclo, a soniasoch am agor y llwybr—rhywbeth sydd ar fin digwydd—rhwng Penarth, dros y morglawdd, i fae Caerdydd. Mae miloedd o

waiting to use it to walk and cycle to work, as well as for recreational purposes, so that will be welcome. You may know that the former Labour leader of the Vale of Glamorgan Council gave a commitment to provide an initial £200,000 towards Sustrans' Pont y Werin project, which would complete a circular route: you could go from Penarth, over to the bay, to the sports village and back over to Penarth. That route would cut out an awful lot of the traffic that we are suffering from at the moment, as well as making life a bit healthier for everyone. Is there any possibility of Government funding for that project under some of the schemes that you mentioned in your statement? Cardiff County Council, the sports village and Cardiff Harbour Authority have the main responsibility, and the Vale of Glamorgan Council has part of the responsibility, but I wondered whether there could be a contribution from the Welsh Assembly Government towards that scheme.

Jane Davidson: The Connect2 funding, which is Sustrans's successful application to the Big Lottery, means that there is some £4 million of lottery funding to support a range of walking and cycling projects across Wales. We will want to work with our national agencies, such as the Countryside Council for Wales, and the local authorities in which the schemes are located, in looking at how additional funding can be brought on board. We estimate that, with match funding and other contributions, the total funding in support of the schemes will amount to around £12 million. The schemes are very exciting. There is the Ely river scheme in Cardiff, the Port Talbot to Cwmafan scheme, the Monmouth local connections scheme, the Trevithick trail to Merthyr town centre, Rhyl bridge at Foryd harbour, the Carmarthen to Johnstown riverside links, and Treforest bridge in my constituency. The schemes are very varied and exciting and we will also want to look at them in the context of local regeneration opportunities. Many of us are going down to the Norwegian church and looking to see when the bridge will open—I know that the opening has been put back, but I am urging for it to be done as quickly as possible. I can assure you that we will send information out urgently to all Assembly Members to say that the opportunity is there

bobl yn aros i'w ddefnyddio i gerdded ac i seiclo i'r gwaith, ac at ddibenion hamdden hefyd, ac felly bydd croeso iddo. Efallai y gwyddoch i gyn arweinydd Llafur Cyngor Bro Morgannwg ymrwymo i roi £200,000 cychwynnol at brosiect Pont y Werin Sustrans, a fyddai'n cwblhau llwybr cylchog: gallech fynd o Benarth, draw at y bae, i'r pentref chwaraeon ac yn ôl i Benarth drachefn. Byddai'r llwybr hwnnw'n osgoi llawer o'r traffig yr ydym yn ei ddioddef ar hyn o bryd, gan wneud bywyd ychydig yn iachach i bawb. A fyddai'n bosibl cael arian gan y Llywodraeth at y prosiect hwnnw dan rai o'r cynlluniau a grybwylasoch yn eich datganiad? Cyngor Sir Caerdydd, y pentref chwaraeon ac Awdurdod Harbwr Caerdydd sy'n bennaf cyfrifol, ac mae Cyngor Bro Morgannwg yn rhannol gyfrifol, ond tybed a allai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfrannu at y cynllun hwnnw?

Jane Davidson: Mae arian Connect2, sef cais llwyddiannus Sustrans i'r Loteri Fawr, yn golygu tua £4 miliwn o arian loteri ar gael i gefnogi amrywiath o brosiectau cerdded a seiclo ar draws Cymru. Byddwn am weithio gyda'n hasiantaethau cenedlaethol, megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r awdurdodau lleol lle y caiff y cynlluniau eu lleoli, i weld sut y gellir sicrhau arian ychwanegol. Yr ydym yn amcangyfrif, gyda chyllid cyfatebol a chyfraniadau eraill, y bydd cyfanswm yr arian i gefnogi'r cynlluniau tua £12 miliwn. Mae'r cynlluniau'n gyffrous iawn. Mae cynllun afon Elái yng Nghaerdydd, y cynllun o Bort Talbot i Gwmafan, cynllun cysylltiadau lleol Trefynwy, llwybr Trevithick i ganol tref Merthyr, pont y Rhyl ger harbwr y Foryd, cysylltiadau glannau'r afon rhwng Caerfyrddin a Thre Ioan, a phont Trefforest yn fy etholaeth innau. Mae'r cynlluniau'n amrywiol iawn ac yn gyffrous a byddwn am eu hystyried hefyd yng nghyddestun cyfleoedd adfywio lleol. Mae llawer ohonom yn mynd i lawr at yr eglwys Norwyaid ac yn edrych i weld pryd y bydd y bont yn agor—gwn fod yr agoriad wedi'i ohirio, ond yr wyf yn annog iddo gael ei wneud cyn gynted ag sy'n bosibl. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn anfon gwybodaeth ar fyrdar at holl Aelodau'r Cynulliad i ddatgan bod cyfle i'r tro dyddiol ar ôl cinio gynnwys

to ensure that the daily postprandial can include the barrage when the path opens.

Bryngle Williams: I also welcome your statement this afternoon, Minister, but, regrettably, access has a down side. Many bridle paths and footpaths have been torn up by mountain bikers and, in particular, four-wheel drive off-roading, which is ruining the paths for walkers. I have said in this Chamber before that I welcome this access to the countryside; it is an avenue for us, as agriculturalists, to display what we are doing and to make our work more open and transparent. However, regrettably, some people's enjoyment is being spoilt through bridle paths and footpaths being torn up by mountain bikers. I appreciate that they have to have somewhere to go, but if we can move them into forestry areas and into tracts such as that, that would be better. I hope that you will look at this. This is a genuine issue; I am not just trying to be argumentative. It is causing a problem in terms of erosion.

I was glad to hear you mention circular routes. I think that we should work much more closely with agricultural landowners on these and, say, put in temporary footpaths so that we can make circular routes to parking spaces. As Leanne mentioned, many people cannot reach these places because they are not on public transport routes. We need to consider all of these issues. You addressed my colleague's comments on biosecurity, which is very important, but this is a terrific opportunity for agriculture and the rural community to show what we do and to give the public access to it.

Jane Davidson: You will know that the Forestry Commission has already done substantial work on opening up routes. We have world-class routes in Wales for mountain biking. There is a fantastic opportunity for Visit Wales in this regard. We suffer from off-road vehicles in some places and, clearly, we need to tackle that through a combination of effective

y morglawdd pan fydd y llwybr wedi'i agor.

Bryngle Williams: Yr wyf finnau hefyd yn croesawu eich datganiad y prynhawn yma, Weinidog, ond yn anffodus, mae ochr negyddol i fynediad. Mae llawer o lwybrau cefyl a lwybrau troed wedi cael eu distrywio gan feicwyr mynydd, ac yn arbennig gan gerbydau pedair olwyn sy'n gyrru oddi ar y ffordd, sy'n difetha'r lwybrau ar gyfer cerddwyr. Yr wyf wedi datgan yn y Siambra hon o'r blaen fy mod o blaid mynediad i gefn gwlad; mae'n gyfrwng i ni, fel amaethwyr, arddangos yr hyn yr ydym yn ei wneud a gwneud ein gwaith yn fwy agored ac yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, yn anffodus, mae mwynhad rhai pobl yn cael ei ddifetha oherwydd bod lwybrau cefyl a lwybrau troed yn cael eu distrywio gan feicwyr mynydd. Yr wyf yn sylweddoli bod yn rhaid iddynt fynd i rywle, ond os gallwn eu cyfeirio at ardaloedd lle y mae coedwigaeth a pharthau cyffelyb, byddai hynny'n well. Gobeithiaf yr edrychwrch ar hyn. Mae hyn yn broblem wirioneddol; nid ceisio creu dadl er mwyn creu dadl yr wyf. Mae'n achosi problem o ran erydu.

Yr oeddwn yn falch o'ch clywed yn crybwyl lwybrau cylchog. Credaf y dylem weithio'n fwy clòs gyda pherchenogion tir amaethyddol ar y materion hyn, ac agor lwybrau troed dros dro, dyweder, fel y gallwn greu lwybrau cylchog at fannau parcio. Fel y dywedodd Leanne, mae llawer o bobl yn methu cyrraedd y lleoedd hyn oherwydd nad ydynt ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen inni ystyried y materion hyn oll. Rhoesoch sylw i sylwadau fy nghyd-Aelod ynglŷn â bioddiogwrch, ac mae hynny'n bwysig iawn, ond dyma gyfle rhagorol i amaethyddiaeth a'r gymuned wledig ddangos yr hyn y gallwn ei wneud a rhoi mynediad i'r cyhoedd ato.

Jane Davidson: Gwyddoch fod y Comisiwn Coedwigaeth eisoes wedi gwneud llawer o waith i agor lwybrau. Mae gennym lwybrau gyda'r gorau yn y byd yng Nghymru ar gyfer beicio mynydd. Mae cyfle gwych i Groeso Cymru yn hyn o beth. Mae cerbydau modur sy'n gyrru oddi ar y ffordd yn broblem mewn rhai mannau ac mae'n amlwg bod angen inni fynd i'r afael â hynny drwy gyfuniad o

enforcement by the police and local authorities. However, we also need to consider whether there are places where off-roading could be encouraged so that it can be legitimately pursued and we can make clear that there are legitimate opportunities for it.

We have had some particular problems in the Elan valley and Rhaeadr area and there is now a rural community support officer who undertakes regular patrols and checks on people suspected of illegal off-roading activity in the area. This is about both off-roading on motorbikes and in 4x4 vehicles. We have different situations in different parts of Wales. When my colleague Carwyn Jones was the Minister, he initiated work in relation to motorcycle off-roading, along with all of the agencies, including the police, to tackle some of these issues. We also provided some additional funding for the Countryside Council for Wales to start looking at whether or not we can create appropriate sites.

On circular routes, you are right—all sorts of circular routes are being developed across Wales. For example, the Pembrokeshire National Park has a DVD on the whole range of circular routes—they can also be downloaded from its website. So, many people visiting Pembrokeshire know that they do not only have to walk in a linear fashion from one end of the coastal path to the other. This is where economic opportunity comes in, because with a circular route that goes through local villages, people will use the local hostelry, tea shops and accommodation facilities. We need to see more of that; we hope that our investment will drive more of that.

orfodaeth effeithiol gan yr heddlu a'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae angen inni ystyried hefyd a oes lleoedd i'w cael lle y gellid annog cerbydau sy'n gyrru oddi ar y ffordd fel y gellir ei wneud yn gyfreithlon ac y gallwn ddatgan yn glir fod cyfleoedd i'w wneud yn gyfreithlon.

Cawsom rai problemau penodol yn ardal Cwm Elan a Rhaeadr Gwy ac mae swyddog cymorth cymunedol gwledig bellach sy'n patrolio ac yn archwilio pobl yr amheur eu bod yn gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn rheolaidd yn yr ardal. Mae a wnelo hyn â gyrru oddi ar y ffordd ar feiciau modur a cherbydau 4x4. Mae sefyllfaedd gwahanol yn codi mewn gwahanol rannau o Gymru. Pan oedd fy nghyd-Aelod Carwyn Jones yn Weinidog, rhoes gychwyn ar waith ar feiciau modur a oedd yn gyrru oddi ar y ffordd, ynghyd â'r holl asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Rhoesom ychydig o arian ychwanegol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd i ddechrau ystyried a allwn greu safleoedd priodol ai peidio.

Yr ydych yn gywir ynglŷn â llwybrau cylchog—mae pob math o lwybrau cylchog wrthi'n cael eu datblygu ar draws Cymru. Er enghraifft, mae gan Barc Cenedlaethol Sir Benfro DVD ynglŷn â'r holl lwybrau cylchog—gallwch eu llwytho i lawr o'i wefan hefyd. Felly, mae llawer o bobl sy'n ymweld â sir Benfro'n gwybod nad oes yn rhaid iddynt gerdded o un pen i lwybr yr arfordir i'r pen arall. Dyma lle y mae'r cyfleoedd economaidd, oherwydd os yw llwybr cylchog yn mynd drwy'r pentrefi lleol, bydd pobl yn defnyddio'r dafarn leol, y siopau te a'r cyfleusterau llety. Mae angen hybu mwy ar hynny; yr ydym yn gobeithio y bydd ein buddsoddiad yn symbylu mwy o hynny.

**Trafodion Cyfnod 3 y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG yn
unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.44**

**Stage 3 Proceedings for the NHS Redress Measure in accordance with Standing
Order No. 23.44**

Y Llywydd: Mae rhai ohonom wedi bod yn aros yn hir am y eitem hon, sef trafodion Cyfnod 3 y Mesur arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG. Pwrpas trafodion Cyfnod 3 yw ystyried gwelliannau i'r Mesur arfaethedig.

Yr wyf wedi dethol y cyfan o'r gwelliannau a gyflwynwyd ac, at ddibenion y ddadl, yr wyf wedi grwpio'r gwelliannau fel y maent yn ymddangos yn y rhestr o welliannau wedi'u grwpio. Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymdrin ag adroddiadau ymchwiliadau. Galwaf ar Jenny Randerson i gynnig gwelliant 1 a siarad am y gwelliant arall yn y grŵp.

**Adroddiadau Ymchwiliadau (Adran 5)
Investigation Reports (Section 5)**

Y Llywydd: Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymdrin ag adroddiadau ymchwiliadau. Galwaf ar Jenny Randerson i gynnig gwelliant 1 a siarad am y gwelliant arall yn y grŵp.

Jenny Randerson: I propose amendment 1 in my name and that of Jonathan Morgan.

*Cafodd gwelliannau 1 a 5 eu grwpio ar gyfer y drafodaeth.
Amendments 1 and 5 grouped for debate.*

I am delighted to be speaking at such a historic moment and to propose the first amendment to the first Assembly Measure in Plenary. I will preface my remarks by saying that the Welsh Liberal Democrats have strongly supported the principle of this Measure. Those of us who are veterans of 1999 in the Assembly can look back and see that, despite some frustrations, we have travelled a long way.

The Presiding Officer: Some of us have been waiting a long time for this item, which is the Stage 3 proceedings of the proposed NHS Redress (Wales) Measure. The purpose of Stage 3 is to consider amendments to the proposed Measure.

I have selected all of the amendments tabled and for the purposes of debate, I have grouped the amendments as shown on the groupings list. The first group of amendments relates to investigation reports. I call on Jenny Randerson to propose amendment 1 and to speak to the other amendment in the group.

The Presiding Officer: The first group of amendments relates to investigation reports. I call on Jenny Randerson to propose amendment 1 and to speak to the other amendment in the group.

Jenny Randerson: Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i ac enw Jonathan Morgan.

Yr wyf wrth fy modd o gael siarad ar ennyd mor hanesyddol ac o gael cynnig y gwelliant cyntaf i Fesur cyntaf y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Yr wyf am ragymadroddi drwy ddweud bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn bleidiol iawn i egwyddor y Mesur hwn. Gall y rhai yn ein plith sydd wedi bod yn y Cynulliad ers 1999 fwrw trem yn ôl a gweld, er gwaethaf rhywfaint o rwystredigaeth, ein bod wedi teithio'n bell.

Some of the most complex and often most distressing casework that we, as Assembly Members, have to deal with relates to people who, or whose loved ones, have been badly treated by the NHS or believe that they have. That is often made worse by the perception that their complaint has been treated cursorily, with partiality, and deliberately dragged out in many cases. This Measure seeks to deal with this issue and to create a transparent and simple system.

4.40 p.m.

When the Measure initially came before the Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee, it was obvious from the evidence that we took that there were many unanswered questions about how the new system would work. Therefore, my amendments and those from Jonathan Morgan, to which I have added my name in support, are designed to provide absolute clarity. Many of the amendments are designed to build on commitments that the Minister has made in relation to how she wishes the regulations to work.

Therefore, in terms of the first group of amendments, I have proposed amendment 1 and I am speaking in support of amendment 5, tabled by Jonathan Morgan. This first group of amendments relates to the publication of reports, an issue which witnesses to the committee consistently stressed as being important to public confidence and transparency. It was hammered home to us that confidence in the system hinged upon this issue. When I spoke about this in committee, the Minister gave a technical response in criticism of the amendment that I had tabled in committee, so I have reworded this amendment to take account of the Minister's concerns.

Amendments 1 and 5 fit very well together, because they set out the view that although we accept that there are sometimes circumstances in which a report must be withheld, those circumstances should be exceptional. Amendment 5 from Jonathan sets out the view that there should be an

Mae a wnelo rhai o'r achosion mwyaf cymhleth a gofidus y mae'n rhaid i ni, Aelodau'r Cynulliad, ddelio â hwy, â phobl sydd wedi cael eu trin yn wael, neu y mae eu ceraint wedi cael eu trin yn wael gan y gwasanaeth iechyd gwladol neu sy'n credu bod hynny wedi digwydd. Yn aml caiff hyn ei waethyg gan y canfyddiad bod eu cwynion wedi eu trin yn frysiog, yn unochrog ac yn fwriadol hirfaith mewn llawer o achosion. Mae'r Mesur hwn yn ceisio delio â'r mater hwn a chreu system dryloyw a syml.

Pan ddaeth y Mesur gerbron y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) yn y lle cyntaf, yr oedd yn amlwg yn ôl y dystiolaeth a gawsom fod llawer o gwestiynau heb eu hateb ynglŷn â sut y byddai'r system newydd yn gweithio. Felly, nod fy ngwelliannau i a gwelliannau Jonathan Morgan, yr wyf wedi ychwanegu fy enw atyn i'w cefnogi, yw sicrhau eglurder llwyr. Mae llawer o'r gwelliannau wedi eu llunio er mwyn adeiladu ar ymrwymiadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ynghylch sut y mae am i'r rheoliadau weithio.

Felly, o ran y grŵp cyntaf o welliannau, cynigiais welliant 1 ac yr wyf yn siarad o blaid gwelliant 5, a gyflwynwyd gan Jonathan Morgan. Mae a wnelo'r grŵp cyntaf o welliannau â chyhoeddi adroddiadau, mater y bu i'r tystion a ddaeth gerbron y pwylgor bwysleisio'n gyson ei fod o bwys i hyder y cyhoedd a thryloywder. Pwysleisiwyd wrthym fod hyder yn y system yn dibynnu ar y mater hwn. Pan siaredais ynghylch hyn yn y pwylgor, rhoes y Gweinidog ymateb technegol gan feirniadu'r gwelliant yr oeddwn wedi'i gyflwyno yn y pwylgor, felly yr wyf wedi aileirio'r gwelliant i roi cyfrif am bryderon y Gweinidog.

Mae gwelliannau 1 a 5 yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd, oherwydd y maent yn gosod y safbwyt, er ein bod yn derbyn y gall fod amgylchiadau weithiau pan fydd angen dal adroddiad yn ôl, y dylai'r amgylchiadau hynny fod yn eithriadol. Mae gwelliant 5 gan Jonathan yn gosod y safbwyt y dylid cynnal

independent review when a report is withheld, which follows on from the evidence that we received in committee. The issue was raised with us by witnesses, such as Action against Medical Accidents, who raised the need to have the publication of reports. We have tried to take account of another point of view that was put to us, which is that there could very occasionally be a risk of harm if the full details in a report were made available, and that in such cases an amended report could perhaps be produced rather than there being a blanket refusal to disclose a report.

I believe that we have the Minister's sympathy for the principle of these amendments. They are realistic in that they accept that there could be circumstances in which the patient or the patient's family, or occasionally clinicians who are indirectly involved, could be affected by a full report's being revealed. However, we believe very strongly that there is a necessity to set as a norm that reports will be published, and that there should be an independent review if reports are not published, so that we do not have an organisation seen to be looking after its own. When reports are withheld, there is always controversy, and suspicion that the organisation has something to hide and is looking after its own interests. We must ensure that this new system does not allow that to happen. The term 'exceptional circumstances' lays down as a norm to the organisations involved that they will be expected to publish their reports.

One of the strong strands that runs through this Measure is the idea that the NHS should be able to learn from its mistakes. How will it be able to do that if it is not put in a position where it is the norm to publish the reports?

Jonathan Morgan: As the Assembly Member who chaired the committee through Stages 1 and 2, I wish to say how much I welcome Stage 3 today. This is clearly a historic moment for the Assembly as this is the first Assembly Measure to have reached this stage.

The amendments have taken into account much of the discussion that took place at

adolygiad annibynnol pan gaiff adroddiad ei ddal yn ôl, sy'n unol â'r dystiolaeth a gawsom yn y pwyllgor. Codwyd y mater gyda ni gan dystion, megis Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol, a gododd yr angen i gyhoeddi adroddiadau. Yr ydym wedi ceisio rhoi cyfrif am safbwyt arall a gyflwynwyd inni, sef y gallai fod perygl i niwed ddigwydd weithiau pe cyhoeddid manylion adroddiad yn llawn, ac mewn achosion o'r fath effalai y gellid llunio adroddiad diwygiedig yn hytrach na llwyr wrthod datgelu adroddiad.

Credaf fod y Gweinidog yn cydymdeimlo ag egwyddor y gwelliannau hyn. Maent yn realistig o ran eu bod yn derbyn y gallai fod amgylchiadau lle y gallai datgelu adroddiad llawn effeithio ar glaf neu ar deulu'r claf, neu o bryd i'w gilydd ar glinigwyr sy'n ymwneud yn anuniongyrchol â mater. Fodd bynnag, credwn yn gryf iawn ei bod yn angenrheidiol gosod norm y bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi, ac y dylid cynnal adolygiad annibynnol os na chaiff adroddiadau eu cyhoeddi, fel na fydd sefydliadau i'w gweld yn gofalu am eu buddiannau eu hunain. Pan gaiff adroddiadau eu dal yn ôl, mae wastad yn bwnc llosg, ac mae amheuaeth bod gan y sefydliad rywbeith i'w guddio a'i fod yn gwarchod ei fuddiannau ei hun. Mae'n rhaid inni sicrhau na fydd y system newydd hon yn caniatáu i hynny ddigwydd. Mae'r geiriau 'amgylchiadau eithriadol' yn gosod norm i'r sefydliadau dan sylw y bydd disgwyl iddynt gyhoeddi'r adroddiadau hynny.

Un o'r llinynnau cryfion sy'n amlwg drwy'r Mesur hwn yw'r syniad y dylai'r GIG allu dysgu yn sgîl ei gamgymeriadau. Sut y bydd yn gallu gwneud hynny os nad yw'n cael ei roi mewn sefyllfa sy'n peri mai'r norm yw cyhoeddi'r adroddiadau?

Jonathan Morgan: Gan mai fi oedd yr Aelod Cynulliad a gadeiriodd y pwyllgor drwy Gyfnod 1 a 2, hoffwn ddweud gymaint yr wyf yn croesawu Cyfnod 3 heddiw. Mae'n amlwg bod hyn yn ennyd hanesyddol i'r Cynulliad gan mai dyma'r Mesur Cynulliad cyntaf i gyrraedd y cam hwn.

Mae'r gwelliannau wedi rhoi sylw i lawer o'r trafod a fu yn ystod Cyfnod 2, sef pan fuom

Stage 2, which was when we considered the detail of the Measure in committee. Having considered Jenny Randerson's amendment 1, we are happy to support it. It is clear that we need to insert the term 'exceptional circumstances' into the section that deals with the withholding of an investigation report. That is certainly consistent with the evidence that we received, the committee's view in its Stage 1 report and the committee's recommendation that the Measure should be strengthened to prescribe that investigation reports should normally be disclosed and that they should only be withheld in exceptional circumstances. On that basis, and given the work that Jenny has done on rewording the amendment, I hope that the Government will accept amendment 1.

Amendment 5, in my name, considers investigation reports and particular safeguards. The committee reported at Stage 1 that safeguards should be included in the Measure to ensure that any decision to withhold a report should be reviewed by an individual or body that is independent of the NHS organisation concerned in a particular case. This amendment is therefore consistent with the view of the committee, which also expressed at the time the view that NHS redress arrangements should be transparent and that those safeguards should be in place so that those who seek redress will have confidence in the system that they are being asked to engage in.

Amendments 1 and 5 are consistent with the evidence that we heard at Stage 1 and the recommendations and considerations that were published in the Stage 1 report. I ask all Assembly Members to support those amendments.

Helen Mary Jones: I also wish to state that it is a great privilege to take part in this debate. I will refer to the principles involved in the Measure if I am fortunate to be called to speak during the Stage 4 debate, if we get to it today. However, I wish to confine my remarks now to the amendments.

I have sympathy with the intention of these amendments and, indeed, with all the amendments tabled. I do not believe that

yn ystyried manylion y Mesur yn y pwylgor. Ar ôl ystyried gwelliant 1 Jenny Randerson, yr ydym yn fodlon ei gefnogi. Mae'n glir bod angen inni gynnwys y term 'amgylchiadau eithriadol' yn yr adran sy'n ymwneud â dal adroddiad ymchwiliad yn ôl. Mae hynny'n sier yn gyson a'r dystiolaeth a gawsom, â barn y pwylgor yn ei adroddiad yng Nghyfnod 1 ac ag argymhelliaid y pwylgor y dylid cryfhau'r Mesur i ddweud y dylid datgelu adroddiadau ymchwiliadau fel rheol ac na ddylid eu dal yn ôl ond dan amgylchiadau eithriadol. Ar sail hynny, ac o ystyried y gwaith y mae Jenny wedi'i wneud ar aileirio'r gwelliant, gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn derbyn gwelliant 1.

Mae gwelliant 5, yn fy enw i, yn ystyried adroddiadau ymchwiliadau a chamau diogelu penodol. Adroddodd y pwylgor yng Nghyfnod 1 y dylid cynnwys camau diogelu yn y Mesur er mwyn sicrhau y dylai unrhyw benderfyniad i ddal adroddiad yn ôl gael ei adolygu gan unigolyn neu gorff sy'n annibynnol ar y sefydliad GIG dan sylw mewn achos penodol. Mae'r gwelliant hwn felly'n gyson â barn y pwylgor, a fynegodd y farn ar y pryd hefyd y dylai trefniadau gwneud iawn y GIG fod yn dryloyw ac y dylai'r camau diogelu hynny fod ar waith er mwyn i'r rhai sy'n ceisio iawn deimlo'u bod yn gallu ymddiried yn y drefn y gofynnir iddynt ymwneud â hi.

Mae gwelliant 1 a gwelliant 5 yn gyson a'r dystiolaeth a glywsom yn ystod Cyfnod 1 a'r argymhellion a'r ystyriaethau a gyhoeddwyd yn adroddiad Cyfnod 1. Gofynnaf i holl Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r gwelliannau hynny.

Helen Mary Jones: Dymunaf finnau ddweud ei bod yn faint fawr cael cyfrannu at y ddadl hon. Cyfeiriaf at yr egwyddorion sydd dan sylw yn y Mesur os byddaf yn ddigon ffodus i gael fy ngalw i siarad yn ystod dadl Cyfnod 4, os cyrhaeddwon hynny heddiw. Fodd bynnag, dymunaf gyfyngu fy sylwadau yn awr i'r gwelliannau.

Mae gennyf gydymdeimlad â bwriad y gwelliannau hyn, ac, yn wir â bwriad yr holl welliannau a gyflwynwyd. Ni chredaf fod

there is any disagreement in principle across the parties in the Chamber. For example, regarding the amendment on the fact that the withholding of any report should be highly exceptional, that an independent person or body should make the decision in that regard and that the decision should not be left to the clinicians who might have been the subject of or party to a complaint, and I associate myself with many of Jenny's comments about the suspicions that the withholding of reports can create, even if they are ungrounded.

However, the issue before us today is on the level of detail that it is appropriate to place on the face of the Measure and the level of detail that it is appropriate to place in regulations. My party and I are content with the assurances that we have received from the Minister during the committee stage, both with regard to the content of the principal issues that are addressed by all the amendments before us today and, importantly, with regard to the process and the Minister's commitment that the Assembly will have the opportunity to scrutinise the regulations in greater detail on this occasion than will be the case in the future perhaps because of the way in which this Measure has straddled the previous Assembly and this Assembly, which now has law-making powers. Therefore, we will not support any of the amendments today, but we look forward to scrutinising the Minister in detail on the regulations that she will bring forward and to real improvement in patients' access to redress in the NHS system when the Measure comes into force.

4.50 p.m.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I understand why Jenny has chosen to revisit these issues in her amendment, because I understand the concerns that people have that some NHS organisations might seek to hide issues from patients by refusing to publish reports. However, I wish to reassure Members on this point. The Measure sets out, in section 5(3)(b) that the regulations must,

'make provision for a copy of the report to be

dim anghytundeb mewn egwyddor ar draws y pleidiau yn y Siambwr. Er enghraifft, gyda golwg ar y gwelliant ynglŷn â'r ffaith mai dim ond mewn sefyllfaoedd hynod eithriadol y dylid dal unrhyw adroddiad yn ôl, y dylai unigolyn neu gorff annibynnol wneud y penderfyniad yn y cyswllt hwnnw ac na ddylid gadael y penderfyniad i'r clinigwyr a oedd efallai'n destun cwyn neu'n ymwneud â hi, ac yr wyf yn cyd-fynd â llawer o sylwadau Jenny ynglŷn â'r amheuon y gellir eu creu drwy ddal adroddiadau yn ôl, hyd yn oed os ydynt yn ddi-sail.

Fodd bynnag, y mater sydd ger ein bron heddiw yw faint o fanylion y mae'n briodol eu cynnwys yn y Mesur a faint o fanylion y mae'n briodol eu cynnwys mewn rheoliadau. Mae fy mhlaid a minnau'n fodlon ar y sicrwydd a gawsom gan y Gweinidog yn ystod cyfnod y pwylgor, ynglŷn â chynnwys y prif faterion y mae pob un o'r gwelliannau sydd ger ein bron heddiw'n mynd i'r afael â hwy a hefyd, ac mae hyn yn bwysig, ynglŷn â'r broses ac ymrwymiad y Gweinidog y caiff y Cynulliad y cyfle i graffu ar y rheoliadau'n fwy manwl y tro hwn nag y bydd modd gwneud yn y dyfodol efallai, oherwydd y ffodd y mae'r Mesur hwn wedi pontio'r Cynulliad blaenorol a'r Cynulliad hwn, ac yntau bellach â phwerau i greu cyfreithiau. Felly, ni fyddwn yn cefnogi'r un o'r gwelliannau heddiw, ond edrychwn ymlaen at graffu'n fanwl ar y Gweinidog o ran y rheoliadau y bydd yn eu cyflwyno ac at welliant go iawn o ran gallu cleifion i gael iawn yn system y GIG pan ddaw'r Mesur i rym.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Deallaf pam y mae Jenny wedi dewis mynd yn ôl at y materion hyn yn ei gwelliant, oherwydd deallaf bryderon pobl y gallai rhai o sefydliadau'r GIG geisio cuddio materion rhag cleifion drwy wrthod cyhoeddi adroddiadau. Fodd bynnag, dymunaf dawelu meddwl yr Aelodau ynglŷn â'r pwynt hwn. Mae'r Mesur hwn yn dweud, yn adran 5(3)(b) fod yn rhaid i'r rheoliadau,

'gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi copi o'r

provided to the individual seeking redress.'

The only circumstances, as Helen Mary alluded to, under which regulations may make provision for a report not to be provided are set out in section 5(4). The first situation is at 5(4)(a), which makes it clear that no copy of an investigation report need be provided before an offer of redress is made or the proceedings are terminated. Given that the purpose of the report is to inform the offer, it would be normal not to make it available until the offer is made. To make a report available before an offer is made could result in people querying the content of the report without reference to any offer, thus prolonging the situation and preventing an offer from being made. This is rather against the spirit of the arrangements, which were meant to bring about a quicker resolution of concerns.

If people are unhappy with the content of the report after the offer has been made, they do not have to accept it and they will be free to seek alternative remedy in the courts. The redress arrangements are an alternative to that process; they are meant be an efficient means of providing some form of compensation or apology.

Section 5(4)(b) already provides for exceptional circumstances; it provides for reports to be withheld if there is a prospect that their disclosure might cause harm. In those circumstances, reports should only be withheld on the advice of a healthcare professional. Section 5(4)(c) allows for further exceptional circumstances to be set out in regulations, but it is not in itself an exceptional circumstance. What constitutes an exceptional circumstance will be considered further. However, it is important that there is sufficient flexibility to allow for exceptions to be set out in regulations as and when they are identified. I stress that NHS bodies would not seek to withhold information, nor could they, unless there were good reasons for doing so.

I cannot support Jonathan's amendment, because of the unfortunate effect that it would have on section 5(4)(a), and also because I have made a commitment that this matter will be dealt with in regulations. As I

adroddiad i'r unigolyn sy'n ceisio iawn'

Yr unig amgylchiadau, fel y dywedodd Helen Mary, pan gaiff y rheoliadau ganiatáu i rywun beidio â darparu adroddiad yw'r rhai a geir yn adran 5(4). Y sefyllfa gyntaf yw yn 5(4)(a), sy'n ei gwneud yn glir nad oes angen darparu copi o adroddiad ymchwiliad cyn i gynnig o iawn gael ei wneud neu cyn i'r achos gael ei ddirwyn i ben. O ystyried mai pwrpas yr adroddiad yw goleuo'r cynnig, byddai'n arferol peidio â'i ddarparu nes gwneid y cynnig. Gallai darparu adroddiad cyn gwneud cynnig beri bod pobl yn cwestiynu cynnwys yr adroddiad heb gyfeirio at unrhyw gynnig, a thrwy hynny, byddai'r sefyllfa'n cael ei hymestyn gan atal unrhyw gynnig rhag cael ei wneud. Mae hyn yn groes braidd i ysbryd y trefniadau, y bwriedid iddynt ddatrys pryderon yn gyflymach.

Os yw pobl yn anfodlon ar gynnwys yr adroddiad ar ôl i'r cynnig gael ei wneud, nid oes yn rhaid iddynt ei dderbyn a byddant yn rhydd i geisio iawn gwahanol yn y llysoedd. Dewis amgen yn lle'r broses honno yw'r trefniadau gwneud iawn; bwriedir iddynt fod yn fodd effeithlon o ddarparu rhyw fath o iawndal neu ymddiheuriad.

Mae adran 5(4)(b) eisoes yn darparu ar gyfer amgylchiadau eithriadol; mae'n darparu ar gyfer dal adroddiadau yn ôl pe gallai eu datgelu achosi niwed. Dan yr amgylchiadau hynny, ni ddylid dal adroddiadau yn ôl ond ar sail cyngor gweithiwr proffesiynol ym maes gofal iechyd. Mae Adran 5(4)(c) yn caniatáu ar gyfer pennu amgylchiadau eithriadol eraill mewn rheoliadau, ond nid yw'n amgylchiad eithriadol ynddo'i hun. Ystyrrir ymhellach yr hyn sy'n cael ei gyfrif yn amgylchiad eithriadol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod digon o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer pennu eithriadau yn y rheoliadau wrth iddynt gael eu nodi. Pwysleisiaf na fyddai cyrff y GIG yn ceisio dal gwybodaeth yn ôl, ac na allent wneud hynny ychwaith, oni fyddai rhesymau da dros wneud hynny.

Ni allaf gefnogi gwelliant Jonathan, oherwydd yr effaith anffodus a gâi hynny ar adran 5(4)(a), a hefyd oherwydd fy mod wedi ymrwymo yr ymdrinnir â'r mater hwn yn y rheoliadau. Fel yr wyf wedi esbonio eisoes

have already explained in relation to section 5(4)(a), it will be a normal part of the process not to issue a report until after an offer has been made, because the report is meant to inform the basis of the offer. I have made a commitment to committee that I will seek to cover these points in regulations and then give them further detailed consideration at that stage. I therefore ask Members to oppose both amendments.

Jenny Randerson: I will respond first to the Minister's comment about the amendment's possible impact on not allowing the publication of a report before an offer is made. I believe that we have amended the original amendment proposed in committee to take account of that concern, because I do see the practical issue.

I suppose that, in the real world, I did not think that the Minister would accept our amendments today. I did, however, have great hopes that she would accept some of our amendments in committee, because we have gone forward in a spirit of co-operation and with real unanimity across parties. Indeed, the amendments that I proposed—and I know that Jonathan had the same thought—reflected many of the comments that the Minister herself and some of our colleagues from Labour and Plaid Cymru have made.

I therefore think it disappointing that, with regard to this very first piece of legislation, the Government did not feel able to respond to what could be seen as really legitimate criticism at this amendment stage. If we are going to be a really mature organ of government, and if we are to take a mature approach to legislation, it is important that the governing parties accept that they may not have got their legislation absolutely perfect at the first stab. Having been a Business Committee member for many years, I am well aware, from having looked at a large amount of secondary legislation, that Government frequently has to bring in amendments to its own legislation. I do not expect an end to that situation in the future.

ynglŷn ag adran 5(4)(a), bydd peidio â chyhoeddi adroddiad tan ar ôl i gynnig gael ei wneud yn rhan normal o'r broses, oherwydd y bwriad yw bod yr adroddiad yn goleuo'r sail dros wneud y cynnig. Yr wyf wedi addo i'r pwylgor y ceisiaf ymdrin â'r pwyntiau hyn yn y rheoliadau ac yna eu hastyried yn fwy manwl bryd hynny. Gofynnaf i'r Aelodau felly wrthwynebu'r ddau welliant.

Jenny Randerson: Ymatebaf yn gyntaf i sylw'r Gweinidog ynglŷn â'r effaith y gallai'r gwelliant ei chael ar beidio â chaniatâu cyhoeddi adroddiad cyn gwneud cynnig. Credaf ein bod wedi newid y gwelliant gwreiddiol a gynigiwyd yn y pwylgor er mwyn ymateb i'r pryder hwnnw, oherwydd fy mod yn gweld y broblem ymarferol.

Yn y byd go iawn, mae'n siŵr nad oeddwn yn meddwl y byddai'r Gweinidog yn derbyn ein gwelliannau heddiw. Yr oeddwn, fodd bynnag yn gobeithio'n fawr y byddai'n derbyn rhai o'n gwelliannau yn y pwylgor, oherwydd ein bod wedi bwrw ymlaen mewn ysbryd cydweithredol a chyda gwir unfrydedd ar draws y pleidiau. Yn wir, yr oedd y gwelliannau a gynigiaisia—a gwn fod Jonathan wedi meddwl yr un fath—yn adlewyrchu llawer o'r sylwadau y mae'r Gweinidog ei hun a rhai o'n cyd-Aelodau yn y blaid Lafur ac ym Mhlaid Cymru wedi'u gwneud.

Felly, credaf ei bod yn siomedig, ac ystyried y darn cyntaf un hwn o ddeddfwriaeth, nad oedd y Llywodraeth yn teimlo ei bod yn gallu ymateb i'r hyn y gellid ei ystyried yn feirniadaeth wirioneddol ddilys yn ystod y cam hwn, sef cam y gwelliannau. Er mwyn inni fod yn gorff llywodraeth aeddfed, ac er mwyn inni arddel agwedd aeddfed at ddeddfu, mae'n bwysig i'r pleidiau sy'n llywodraethu dderbyn nad ydynt o reidrwydd wedi creu deddfwriaeth holol berffaith ar y cynnig cyntaf. Ar ôl bod yn aelod o'r Pwyllgor Busnes ers blynnyddoedd lawer, yr wyf yn ymwybodol iawn, a minnau wedi edrych ar doreth o is-ddeddfwriaeth, fod yn rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno gwelliannau ar gyfer ei deddfwriaeth ei hun yn aml. Nid wyf yn disgwyl gweld y sefyllfa honno'n newid yn y dyfodol.

I accept totally the Minister's good faith. She gives assurances that the things that we are raising now will be included in the regulations. However, although, in this case, regulations must be passed using the affirmative procedure, the procedure does not have the high profile that this debate has. In practice, it will be much easier for changes to the regulations to be made and to go almost under the radar.

I am sure that the Minister is acting with commitment on the openness and transparency that we are seeking—the Government commitment—but she cannot speak for her successors. What we were trying to do was to put in place a belt-and-braces approach to the fundamental principles of this legislation.

The Presiding Officer: I take it that you are not withdrawing your amendment and that you wish to move to a vote on it.

Y cwestiwn yw y dylid cytuno ar welliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn at bleidlais.

*Gwelliant 1: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 37.
Amendment 1: For 17, Abstain 0, Against 37.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

- Black, Peter
- Bourne, Nick
- Burnham, Eleanor
- Burns, Angela
- Cairns, Alun
- Davies, Andrew R.T.
- Davies, Paul
- German, Michael
- Graham, William
- Isherwood, Mark
- Melding, David
- Millar, Darren
- Morgan, Jonathan
- Ramsay, Nick
- Randerson, Jenny
- Williams, Brynle
- Williams, Kirsty

Derbyniaf yn llwyr ddidwylledd y Gweinidog. Mae'n ein sierhau y bydd y pethau yr ydym yn eu codi'n awr yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau. Fodd bynnag, er bod yn rhaid i'r rheoliadau gael eu pasio gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn yr achos hwn, nid oes i'r weithdrefn y proffil uchel sydd i'r ddadl hon. O safbwyt ymarferol, bydd yn haws o lawer newid y rheoliadau heb i fawr o neb sylwi.

Yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn gweithredu gydag ymrwymiad o ran y dull agored a thryloyw yr ydym yn ei geisio—ymrwymiad y Llywodraeth—ond ni all siarad ar ran ei holynwyr. Yr hyn yr oeddem yn ceisio'i wneud oedd sefydlu agwedd ddi-feth at egwyddorion sylfaenol y ddeddfwriaeth hon.

Y Llywydd: Cymeraf nad ydych yn tynnu'ch gwelliant yn ôl a'ch bod yn dymuno symud i bleidleisio arno.

The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

- Asghar, Mohammad
- Barrett, Lorraine
- Chapman, Christine
- Cuthbert, Jeff
- Davidson, Jane
- Davies, Alun
- Davies, Andrew
- Davies, Jocelyn
- Evans, Nerys
- Franks, Chris
- Gibbons, Brian
- Gregory, Janice
- Griffiths, John
- Griffiths, Lesley
- Hart, Edwina
- Hutt, Jane
- James, Irene
- Jenkins, Bethan
- Jones, Alun Ffred
- Jones, Ann
- Jones, Carwyn
- Jones, Elin
- Jones, Gareth
- Jones, Helen Mary
- Jones, Ieuan Wyn
- Lewis, Huw

Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.

Y Llywydd: Galwaf ar Jonathan Morgan i gynnig gwelliant 5 yn ffurfiol; trafodwyd hwn ar y cyd â gwelliant 1.

The Presiding Officer: I now call Jonathan Morgan to formally propose amendment 5; this has already been debated with amendment 1.

Jonathan Morgan: I propose amendment 5 in my name and in the name of Jenny Randerson.

Jonathan Morgan: Cynigiaf welliant 5 yn fy enw i ac yn enw Jenny Randerson.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw y dylid cytuno ar welliant 5. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Gwelaf fod. Felly, symudwn i bleidlais.

The Presiding Officer: The question is that amendment 5 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will move to a vote.

Gwelliant 5: O blaid 16, Ymatal 0, Yn erbyn 37.
Amendment 5: For 16, Abstain 0, Against 37.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Bourne, Nick
Burns, Angela
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David

Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
 Amendment defeated.*

Darparu Cyngor Cyfreithiol Di-dâl fel rhan o'r Trefniadau Iawn (Adran 7)
Provision of Free Legal Advice as Part of the Redress Arrangements (Section 7)

Y Llywydd: Mae'r ail grŵp o welliannau yn cynnwys un gwelliant, sef gwelliant 6, sydd yn ymddynt â darparu cyngor cyfreithiol am ddim.

I call on Jonathan Morgan to propose amendment 6.

Jonathan Morgan: I propose amendment 6 in my name and in the name of Jenny Randerson.

Section 7 of the Measure states that Ministers may make provision in regulations for the provision of free legal advice and other services, such as expert medical opinion, to claimants. As the Measure is currently drafted, the provision of free legal advice and assistance would be made to individuals, to whom an offer of redress may be made, in relation to any offer made; any refusal to make such an offer; and any settlement agreement. Much of the advice that we received in Stage 1, and particularly that from the Wales Council for Voluntary Action, was that patients under the redress arrangements should be provided with advice and support at all stages of the process. The Board of Community Health Councils in Wales said that there would be value in the provision of advice and assistance to patients at the start of the redress process.

The problem with this particular section as currently drafted is that the scope is rather limited. Amendment 6 would extend the scope of section 7 to ensure that legal advice would be available for those seeking or considering seeking redress under the

The Presiding Officer: There is one amendment in the second group, namely amendment 6, which relates to the provision of free legal advice.

Galwaf ar Jonathan Morgan i gynnig gwelliant 6.

Jonathan Morgan: Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i ac yn enw Jenny Randerson.

Mae Adran 7 yn y Mesur yn dweud y caiff Gweinidogion ddarparu yn y rheoliadau ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol a gwasanaethau eraill am ddim, megis barn feddygol arbenigol, ar gyfer hawlwr. Fel y mae'r Mesur wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, byddai cyngor a chymorth cyfreithiol am ddim ar gael i unigolion, a fyddai o bosibl yn cael cynnig iawn, yng nghyswllt unrhyw gynnig a wneid; unrhyw wrthod gwneud cynnig o'r fath, ac unrhyw gytundeb i setlo. Yr oedd llawer o'r cyngor a gawsom yng Nghyfnod 1, ac yn enwedig hwnnw gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn dweud y dylid rhoi cyngor a chymorth i gleifion dan y trefniadau gwneud iawn yn ystod pob cam o'r broses. Dywedodd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru y byddai darparu cyngor a chymorth i gleifion ar ddechrau'r broses gwneud iawn yn werthfawr.

Y broblem gyda'r adran benodol hon fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yw bod ei chwmpas braidd yn gyfyng. Byddai gwelliant 6 yn ymestyn cwmpas adran 7 i sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael i'r rhai sy'n ceisio neu'n ystyried ceisio iawn dan y cynllun. Fel

scheme. As I have said, at the moment, the Measure makes provision for free legal advice only to those who are already engaged in the process, and particularly to those to whom an offer is being made. If we are to ensure that there is confidence among the people of Wales when they are accessing the redress scheme, we should ensure that there is access to help, support and advice throughout.

5.00 p.m.

Supporting amendment 6 would ensure access to advice and support, particularly legal advice. Although this is intended to be a simpler process, we cannot ignore the fact that many people will be baffled by the redress scheme and the arrangements for making a claim against the health service. While realising that this will still be a complicated process, I feel that we need to extend the scope of section 7 of the Measure to ensure that legal advice is made available earlier in the process; otherwise, people will not know whether they can make a claim under the scheme, what to expect from the NHS, or what is expected of them in relation to the provision of documentation and reports. By ensuring that legal advice is available earlier in the process, we can provide clarity and give people greater confidence that the system is there to help them, not to act against them. Therefore, I am happy to recommend amendment 6 to the Assembly.

Jenny Randerson: To take up one of Jonathan's later points in support of his amendment 6, I want to stress that we think that this is a simple system, but, to the average patient and their family, this will be complex and technical and will require a great deal of signposting. If the system is to be fair and truly transparent, people will need legal advice. Jonathan and I are not specifying the level or extent of the legal advice that should be available, as that is a matter properly left to regulations, but the Measure should set the general principle. If a future Minister—or even the current Minister—decided that there should be no legal advice at that point, it would result in a second-class system that was to cut costs, and it would not provide people with the open

yr wyf wedi dweud, ar hyn o bryd, dim ond i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses eisoes, ac yn enwedig i'r rhai y gwneir cynnig iddynt, y mae'r Mesur yn darparu ar gyfer cyngor cyfreithiol am ddim. Os ydym am sicrhau bod pobl Cymru'n teimlo'n hyderus wrth iddynt ddefnyddio'r cynllun gwneud iawn, dylem sicrhau bod cymorth, cefnogaeth a chyngor ar gael drwy gydol y broses.

Drwy gefnogi gwelliant 6, byddid yn sicrhau mynediad at gyngor a chymorth, yn enwedig cyngor cyfreithiol. Er bod bwriad i'r broses fod yn symlach, ni allwn anwybyddu'r ffaith y bydd llawer o bobl yn cael eu drysu gan y cynllun iawn a'r trefniadau ar gyfer gwneud hawliad yn erbyn y gwasanaeth iechyd. Er sylweddoli y bydd hon yn dal yn broses gymhleth, teimlaf fod angen inni ehangu cwmpas adran 7 yn y Mesur i sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael yn gynt yn y broses; fel arall, ni fydd pobl yn gwybod a allant wneud hawliad dan y cynllun, beth i'w ddisgwyli gan y GIG, na beth a ddisgwyliir ganddynt hwy mewn cysylltiad â darparu dogfennau ac adroddiadau. Drwy sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael yn gynt yn y broses, gallwn roi eglurder a chynnig mwy o hyder i bobl fod y system ar gael i'w helpu, nid i weithredu yn eu herbyn. Felly, yr wyf yn falch o gymeradwyo gwelliant 6 i'r Cynulliad.

Jenny Randerson: Gan fynd ar ôl un o'r pwyntiau olaf a wnaeth Jonathan o blaid gwelliant 6 o'i eiddo, dymunaf bwysleisio ein bod yn credu bod y broses hon yn un syml, ond, yng ngolwg y claf cyffredin a'i deulu, bydd hyn yn gymhleth ac yn dechnegol a bydd yn galw am lawer iawn o arweiniad. Os yw'r system i fod yn deg ac yn wirioneddol dryloyw, bydd ar bobl angen cyngor cyfreithiol. Nid wyf fi a Jonathan yn pennu lefel neu gwmpas y cyngor cyfreithiol a ddylai fod ar gael, gan fod hynny'n fater y mae'n briodol gadael i reoliadau ymdrin ag ef, ond dylai'r Mesur osod yr egwyddor gyffredinol. Petai Gweinidog yn y dyfodol—neu hyd yn oed y Gweinidog presennol—yn penderfynu na ddylid cael cyngor cyfreithiol ar y pwynt hwnnw, byddai'n arwain at

access to assistance that they truly need.

Having helped numerous constituents with cases like this, I know that they need advice that is beyond the reach of Assembly Members. They need qualified legal advice, because if they pursue one route, they may be forgoing the opportunity to pursue another. If they do not have that legal advice, and do not have an expert to look at their case and to advise on the possible extent of NHS liability, the system will not be providing the kind of impartial advice that people need, and the system will not work.

Edwina Hart: There was considerable discussion on this matter in committee, and I took the opportunity to write to Jonathan, the Chair, indicating why I could not support the amendment. In practical terms, we need to ensure that there is a range of advice on offer to suit the different circumstances of people seeking redress at different stages of the process. Some people will feel that they do not need any advice at all during the process, and that will be their choice; others may need help and support from the earliest of stages. General advice and advocacy will be available to anyone wishing to access the redress arrangements, and we are exploring the options of enhancing the provision of that assistance through community health councils' advocacy services.

Other people may need advice of a more specialised nature, so we will be exploring options around the provision of such advice, particularly in the early stages. That may not go as far as instructing a legal adviser, but it would be aimed at people who suspect that they have been the victim of clinical negligence, and require an indication as to whether there is a case to pursue. In my letter to Jonathan, I went on to say that I could see that there might be good reasons why legal advice would be needed at other stages in a small number of cases, if the circumstances suggested as much. However, that needs careful exploration to ensure that we do not inadvertently cause the process to become

system eilradd er mwyn torri costau, ac ni fyddai'n cynnig i bobl y mynediad agored at gymorth y mae arnynt ei wir angen.

A minnau wedi helpu nifer fawr o etholwyr mewn achosion fel hyn, gwn fod arnynt angen cyngor sydd y tu hwnt i gyrraedd Aelodau'r Cynulliad. Mae arnynt angen cyngor cyfreithiol gan rywun cymwys, oherwydd os ânt ar hyd un llwybr, gallent golli'r cyfle i ddilyn un arall. Os na chânt gyngor cyfreithiol o'r fath, ac os na chânt arbenigwr i edrych ar eu hachos a rhoi cyngor iddynt ynghylch graddau posibl yr atebolwydd ar ran y GIG, ni fydd y system yn cynnig y math o gyngor diduedd y mae ar bobl ei angen, ac ni fydd y system yn gweithio.

Edwina Hart: Cafwyd cryn drafod ar y mater hwn yn y pwylgor, a daliais ar y cyfle i ysgrifennu at Jonathan, y Cadeirydd, gan nodi pam na allwn gefnogi'r gwelliant. O safbwyt ymarferol, mae angen inni sicrhau bod amryw o fathau o gyngor ar gael yn ôl gwahanol amgylchiadau'r rhai sy'n ceisio iawn ar wahanol gamau yn y broses. Bydd rhai'n teimlo nad oes arnynt angen dim cyngor o gwbl yn ystod y broses, a'u dewis hwy fydd hynny; efallai y bydd ar eraill angen cymorth a chefnogaeth o'r cyfnodau cynharaf. Bydd cyngor ac eiriolaeth gyffredinol ar gael i bawb sy'n dymuno cael mynediad at y trefniadau gwneud iawn, ac yr ydym yn ymchwilio i'r dewisiadau ar gyfer gwella'r darparu ar y cymorth hwnnw drwy wasanaethau eirioli'r cynghorau iechyd cymuned.

Efallai y bydd ar bobl eraill angen cyngor mwy arbenigol, felly byddwn yn ymchwilio i'r dewisiadau ar gyfer darparu cyngor o'r fath, yn enwedig yn y camau cynnar. Efallai na fyddai hynny'n mynd mor bell â chyfarwyddo cynghorydd cyfreithiol, ond byddai wedi'i anelu at bobl sy'n amau iddynt ddioddef oherwydd esgeulustod clinigol, ac y mae arnynt eisiau cael gwybod a oes achos i'w ddilyn. Yn fy llythyr at Jonathan, euthum ymlaen i ddweud y gallwn weld y gallai fod rhesymau da dros gred u y byddai angen cyngor cyfreithiol ar adegau eraill mewn nifer fach o achosion, pe bai'r amgylchiadau'n awgrymu hynny. Fodd bynnag, mae angen ymchwilio'n fanwl i

overtly legalistic.

Sections 7(1) and 8(1) of the Measure provide sufficient flexibility for the situation to be dealt with by regulation, and we will be dealing with those regulations via the affirmative procedure here. Therefore, I believe that I can deal fully with the issues that have been raised under this amendment in that manner.

Jonathan Morgan: I agree completely with the Minister that advice needs to be available at different stages of the process. I have no difficulty at all with the way in which the rest of this section of the Measure is drafted. The problem, Minister, is that there may be people who could well have a claim against the national health service but who need access to legal advice in the first instance to establish whether their claim is valid and worth pursuing. We are talking about the NHS making a mistake in treating a patient, resulting in a qualifying liability in tort. The legal system is incredibly complicated and people would need access to legal advice as to whether there is any point in their seeking redress under the scheme.

I accept that advice is needed at various stages of the scheme; however, a fundamental part of the process is at the outset, because many people seeking redress or considering making a claim against the national health service will require help and assistance to get the ball rolling. If you will not provide any level of assistance at that point, Minister—which, I put to you, is the crucial point—there are many people in Wales who may simply not bother. I thought that the whole idea of this Measure was to make matters simpler, and to help people who have a genuine claim arising from a mistake made by the NHS. For those reasons, I want to press ahead with amendment 6, because I believe that it is still valid. You value legal advice and support for people at other points in the process, Minister, and I firmly believe that that advice is also required at the outset.

hynny i sicrhau na fyddwn, drwy amryfusedd, yn peri i'r broses fynd yn rhy ddeddfol.

Mae adrannau 7(1) ac 8(1) yn y Mesur yn rhoi digon o hyblygrwydd i ddelio â'r sefyllfa drwy reoliadau, a byddwn yn delio â'r rheoliadau hynny drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn y fan hon. Felly, credaf y gallaf ddelio'n drylwyr â'r materion sydd wedi'u codi dan y gwelliant hwn yn y modd hwnnw.

Jonathan Morgan: Cytunaf yn llwyr â'r Gweinidog fod angen i gyngor fod ar gael ar wahanol gamau yn y broses. Nid oes gennys ddim gwirthwynebiad o gwbl i'r modd y mae gweddill yr adran hon o'r Mesur wedi'i ddrafftio. Y broblem yw, Weinidog, y gall fod pobl a allai fod â hawliad dilys yn erbyn y gwasanaeth iechyd gwladol ond y mae arnynt angen cael mynediad at gyngor cyfreithiol yn y lle cyntaf er mwyn canfod a yw eu hawliad yn ddilys ac yn werth ei ddilyn. Yr ydym yn sôn am y GIG yn gwneud camgymeriad wrth drin claf, gan arwain at atebolrwydd cymwys dan gyfraith camwedd. Mae'r system gyfreithiol yn anhygoel o gymhleth a byddai ar bobl angen cael mynediad at gyngor cyfreithiol ynghylch a oes diben iddynt geisio iawn dan y cynllun.

Derbyniad fod angen cyngor ar wahanol gamau'r cynllun; fodd bynnag, mae rhan hanfodol o'r broses ar y cychwyn, oherwydd bydd angen cymorth ar lawer o bobl sy'n ceisio iawn neu'n ystyried gwneud hawliad yn erbyn y gwasanaeth iechyd gwladol i yrru'r cwch i'r dŵr. Os na ddarparwch ddim math o gymorth bryd hynny, Weinidog—a hynny, yr wyf yn awgrymu wrthych, yw'r pwynt hanfodol—mae llawer o bobl yng Nghymru na fyddant yn trafferthu o bosibl. Yr oeddwn yn tybio mai holl fwriad y Mesur hwn oedd symleiddio pethau, a helpu pobl sydd â hawliad dilys sy'n deillio o gamgymeriad gan y GIG. Am y rhesymau hynny, dymunaf fwrw ymlaen â gwelliant 6, oherwydd credaf ei fod yn ddilys o hyd. Yr ydych yn gweld gwerth mewn cyngor cyfreithiol a chymorth i bobl ar adegau eraill yn y broses, Weinidog, a chredaf yn bendant fod angen cyngor o'r fath ar y cychwyn hefyd.

The Presiding Officer: I take it therefore that you wish to test the opinion of the House, as they say in some other places.

Y cwestiwn yw y dylid cytuno ar welliant 6. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, ac felly symudwn at y bleidlais.

Y Llywydd: Yr wyf yn cymryd, felly, eich bod yn dymuno cael gwybod barn y Tŷ, fel y maent yn dweud mewn rhai mannau eraill.

The question is that amendment 6 be agreed. Are there any objections? I see that there are, and so we move to a vote.

*Gwelliant 6: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 37.
Amendment 6: For 17, Abstain 0, Against 37.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

Yr Angen am Swyddogaethau Penodol (Adran 9) Requirements for Specific Functions (Section 9)

Y Llywydd: Yn y trydydd grŵp ceir gwelliannau 2, 3 a 4, sy'n ymdrin â'r angen am swyddogaethau penodol o dan y cynllun iawn.

The Presiding Officer: In the third group, we have amendments 2, 3 and 4, which deal with the requirement for specific functions under the redress scheme.

Jenny Randerson: I propose amendment 2 in my name and the name of Jonathan Morgan, and speak to amendments 3 and 4.

*Cafodd gwelliannau 2, 3 a 4 eu grwpio ar gyfer y drafodaeth.
Amendments 2, 3 and 4 grouped for debate.*

These three amendments are very simple. Throughout the Measure, the words ‘may’ and ‘must’ are used a great deal. I believe that a ‘may’ needs to be replaced by a ‘must’ in a few cases, if we are to realise the spirit of the Measure. Section 9(1) of the Measure states that,

‘The regulations may make provision for any person or body within the health service in Wales to have such functions with regard to the operation of redress arrangements under this Measure as the Welsh Ministers think fit’.

The implication of the ‘may’ in that context is that the Minister could decide not to put anyone in charge. I do not think that that would be a good idea at all. It is too nebulous, it lacks clarity and, crucially, it will lack consistency if the whole scheme is left to local arrangements, and to local organisations to apply their version of the process.

I am not in any way suggesting that a new body be created. We do not need any new bodies to deal with this. I am suggesting that it be done simply by designating an existing officer or organisation responsible. The view was put to us in committee that, although local ownership of the process is fine, there needs to be some oversight of how it works. There needs to be somewhere for the buck to stop, so that the scheme is applied with equity and that lessons are learned throughout the country.

5.10 p.m.

That leads me to amendment 4, which also calls for a ‘may’ to be replaced with a ‘must’. Section 9(3) relates to record keeping and to learning specific lessons. Surely it is unthinkable for the NHS not to be obligated to keep records. Most of the evidence that the

Jenny Randerson: Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i ac yn enw Jonathan Morgan, a siaradaf ynghylch gwelliannau 3 a 4.

Mae'r tri gwelliant hyn yn syml iawn. Drwy'r Mesur defnyddir y geiriau 'caiff' a 'rhaid' yn aml iawn. Credaf fod angen rhoi 'rhaid' yn lle 'caiff' mewn ychydig o achosion, os ydym i wireddu ysbryd y Mesur. Mae adran 9(1) yn y Mesur yn datgan,

‘Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i unrhyw berson neu gorff o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru fod â'r swyddogaethau o ran gweithredu trefniadau iawn o dan y Mesur hwn y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn addas’.

Yr hyn sydd ymhlyg yn y gair 'caiff' yn y cyd-destun hwnnw yw y gallai'r Gweinidog benderfynu peidio â rhoi'r cyfrifoldeb i neb. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n syniad da o gwbl. Mae'n rhy annelwig, nid yw'n eglur ac, yn hanfodol, bydd yn anghyson os gadewir yr holl gynllun i drefniadau lleol, gan adael i gyrrff lleol roi eu fersiwn hwy o'r broses ar waith.

Nid wyf yn awgrymu o gwbl y dylid creu corff newydd. Nid oes arnom angen cyrrf newydd i ddelio â hyn. Yr wyf yn awgrymu y dylid ei wneud drwy roi'r cyfrifoldeb i swyddog neu gorff sy'n bod eisoed. Awgrymwyd wrthym yn y pwylgor, er bod perchenogaeth leol ar y broses yn dderbynol, fod angen rhywfaint o oruchwylio ar sut y mae'n gweithio. Mae angen i'r cyfrifoldeb fod yn rhywle, fel bod y cynllun yn cael ei weithredu'n deg ac fel bod gwersi'n cael eu dysgu ledled y wlad.

Mae hynny'n fy arwain at welliant 4, sydd hefyd yn galw am roi 'rhaid' yn lle 'caiff'. Mae adran 9(3) yn ymwneud â chadw cofnodion a dysgu gwersi penodol. Yn sicr, mae'n amhosibl meddwl na ddylai'r GIG fod dan orfodaeth i gadw cofnodion. Yr oedd y

committee received was that people wanted to ensure that lessons were learned for the future. It is potentially one of the Measure's great strengths that we can have an easier, less complex and more transparent system that feeds back into the organisation, so that lessons are learned. That is the whole ethos of it. However, if we are to achieve that, someone needs to be in charge of how it works. I am sure that the Minister will tell us once again that she is planning to do it by regulation, but something so fundamental to the ethos of the Measure should be set in stone, and should be outlined as a basic principle of the Measure.

One example is the evidence given to the committee by Blaenau Gwent Local Health Board, which talked about the importance of local ownership when learning lessons from adverse incidents. Complaints are an important part of understanding how services are delivered, and how services could best meet the needs of patients. The committee went on to recommend that the regulations make provision for the consistent management and guidance of the redress arrangements. Therefore, with these amendments, we are saying that these principles are so basic to the effectiveness of the Measure that they should be incorporated in it and not left to regulations.

Jonathan Morgan: We support amendments 2, 3 and 4, tabled by Jenny Randerson. Amendments 2 and 3 refer specifically to section 9(1), and, if they are carried, would ensure that regulations stipulate that a person or persons be charged with the operation of the redress arrangements. Going from 'may' to 'must' is a simple stylistic change, and I suppose that this is all part of the battle between the Assembly, as legislature, wanting to ensure that things are done, and the Government, which may do things at some point in the future if it sees fit. Therefore, I understand why there is a stand-off on some of these amendments. However, there is a real requirement to ensure that section 9 of the Measure is strengthened, which is why we support these amendments.

rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafodd y pwylgor yn cyfleu bod pobl yn dymuno sicrhau y dysgid gwersi ar gyfer y dyfodol. Mae'n bosibl mai un o gryfderau mawr y Mesur yw y gallwn gael system haws sy'n llai cymhleth ac yn fwy tryloyw sy'n rhoi adborth i'r corff, fel bod gwersi'n cael eu dysgu. Dyna'i holl ethos. Fodd bynnag, os ydym i sicrhau hynny, mae angen i rywun fod yn gyfrifol am sut y mae'n gweithio. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym unwaith eto ei bod yn bwriadu gwneud hyn drwy reoliadau, ond dylai rhywbeth sydd mor sylfaenol o ran ethos y Mesur gael ei roi ar ddu a gwyn, a dylid ei amlinellu fel un o egwyddorion sylfaenol y Mesur.

Un enghraift yw'r dystiolaeth a roddwyd i'r pwylgor gan Fwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent, a soniodd am bwysigrwydd perchenogaeth leol wrth ddysgu gwersi o ganlyniad i achosion niweidiol. Mae cwynion yn rhan bwysig o ddeall sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, a beth yw'r ffordd orau y gallai gwasanaethau ddiwallu anghenion y cleifion. Aeth y pwylgor ymlaen i awgrymu y dylai'r rheoliadau ddarparu ar gyfer rheoli ac arwain cyson ar y trefniadau gwneud iawn. Felly, drwy'r gwelliannau hyn, yr ydym yn dweud bod yr egwyddorion hyn mor hanfodol o ran effeithiolrwydd y Mesur fel y dylid eu cynnwys ynddo ac nid eu gadael i reoliadau.

Jonathan Morgan: Yr ydym yn cefnogi gwelliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd gan Jenny Randerson. Mae gwelliannau 2 a 3 yn cyfeirio'n benodol at adran 9(1), ac, os derbynir hwy, byddent yn sicrhau y bydd rheoliadau'n mynnu y bydd y cyfrifoldeb dros weithredu'r trefniadau gwneud iawn yn cael ei roi i rywun neu rywrai. Mae rhoi 'rhaid' yn lle 'caiff' yn newid syml o ran arddull, a thybiaf fod hyn i gyd yn rhan o'r frwydr rhwng y Cynulliad, fel deddfwrfa, sy'n dymuno sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud, a'r Llywodraeth, a all wneud pethau ar ryw adeg yn y dyfodol os bydd yn gweld yn dda. Felly, yr wyf yn deall pam y mae gwrthwynebiad i rai o'r gwelliannau hyn. Er hynny, mae gwir angen sicrhau bod adran 9 yn y Mesur yn cael ei chryfhau, a dyna pam yr ydym yn cefnogi'r gwelliannau hyn.

Amendment 4 requires whoever or whichever body is charged with discharging the functions under the redress scheme to do some simple things, such as keeping records. It would be inconceivable for that person or body not to keep records, and for the records to be written up and then perhaps binned at the end of the day. It also requires us to learn lessons from each case. As Jenny Randerson rightly said, one principle underpinning the new redress arrangements in Wales is ensuring that the NHS learns from its mistakes. That is consistent with the evidence that the Measure committee heard at Stage 1. Therefore, ensuring that the person or persons charged with undertaking these functions keeps records and makes arrangements for learning from those mistakes is essential to the proper operation of the redress arrangements.

If we are to give confidence that this system will work, and that it will work to the benefit and best interests of patients and families, people need to know that we will ensure that appropriate records are kept. They also need to know that we will learn from the mistakes that are made. If the Measure states merely that Welsh Ministers ‘may’ make regulations as they see fit, as opposed to ‘must’ make regulations to ensure this, frankly, people will not have the confidence in the system that they need if this is to work to their advantage. For those reasons, we will be supporting amendments 2, 3, and 4.

Edwina Hart: I can understand that Members are concerned that the use of the word ‘may’ could be turned around to mean that Ministers may not decide to do something. This is to misunderstand the use of the word ‘may’, which, in this context, confers flexibility and not option. There is no question that I or future Ministers would choose not to confer functions on the NHS in respect of redress; otherwise the arrangements clearly would not work. As Jenny indicated, the first set of regulations that we will make under section 9 will be subject to the affirmative procedure, and Members will be able to approve the proposals in respect of the conferral of

